



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 6 Hydref 2010
Wednesday, 6 October 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
Questions to the Minister for Rural Affairs
- 25 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Questions to Minister for Environment, Sustainability and Housing
- 50 Dadl Cyfnod 3, Rheol Sefydlog 23.57, ar Fesur Arfaethedig Caeau Chwarae
(Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)
Stage 3 Standing Order No. 23.57 Debate on the Proposed Playing Fields
(Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Measure
- 50 Grŵp 1: Gweinidogion Cymru yn Gwneud Rheoliadau (Gwelliannau 5, 11, 6, 12, 13,
7, 8, 14, 9 a 10)
Group 1: The Making of Regulations by the Welsh Ministers (Amendments 5, 11, 6,
12, 13, 7, 8, 14, 9 and 10)
- 60 Grŵp 2: Technegol (Gwelliannau 1, 2 a 3)
Group 2: Technical (Amendments 1, 2 and 3)
- 63 Grŵp 3: Trefn ar gyfer Rheoliadau (Gwelliant 4)
Group 3: Procedure for Regulations (Amendment 4)
- 66 Cynnig yng Nghyfnod 4 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.58 i Gymeradwyo'r Mesur
Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu)
(Cymru)
Stage 4 Motion under Standing Order No. 23.58 to Approve the Proposed Playing
Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Measure
- 73 Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc—Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant mewn
Gofal yng Nghymru
The Children and Young People Committee's Report—Arrangements for the
Placement of Children into Care in Wales
- 92 Dadl Ceidwadwyr Cymreig: Rhaglen Adnewyddu'r Economi
Welsh Conservatives Debate: Economic Renewal Programme
- 119 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time
- 122 Dadl Fer: Parchu ein Lluoedd Arfog
Short Debate: Respecting our Armed Forces

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Minister.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister for Rural Affairs

Blaenoriaethau

1. Helen Mary Jones: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf. OAQ(3)1179(RAF)*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Yr wyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r amcanion a amlinellir yng nghytundeb 'Cymru'n Un' a gweithio i sbarduno diwydiannau ffermio, coedwigaeth, bwyd a physgota cynaliadwy a fydd o fantais i Gymru a chymunedau cefn gwlad.

Helen Mary Jones: Yn rhan o'r gwaith yr ydych wedi ei grybwyll yn eich ateb, mae'r syniad o dynnu'r cyrff amgylcheddol yng Nghymru at ei gilydd o bosibl. Yr wyf wedi ysgrifennu atoch ynglŷn â labordy Asiantaeth yr Amgylchedd, a leolir, ar hyn o bryd, yn Llanelli. Nid yw'r labordy yn rhan o'r asiantaeth yng Nghymru—mae'n perthyn i'r asiantaeth yn Lloegr, am ryw reswm. Mae bygythiad i rai o'r swyddi yn y labordy ar hyn o bryd. Os ydym yn mynd i gael un corff amgylcheddol ar gyfer Cymru, bydd angen yr arbenigedd sy'n bodoli yn y labordy yn Llanelli. A wnewch chi ystyried—efallai ar y cyd â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai—gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd ym Mhrydain a gofyn iddo beidio â symud unrhyw swyddi o'r labordy yn Llanelli tra eich bod chi fel Llywodraeth yn ystyried dyfodol yr holl gyrff a mudiadau amgylcheddol yng Nghymru?

Elin Jones: Diolch am y cwestiwn hwnnw. Yr wyf fi a'r Gweinidog dros yr amgylchedd yn ystyried y mater hwn, o ran edrych ar y cyrff amgylcheddol—Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd—ar hyn o bryd. Mae datganoli grymoedd Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n gweithredu ar lefel Cymru

Priorities

1. Helen Mary Jones: *Will the Minister outline her priorities for the next 12 months. OAQ(3)1179(RAF)*

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): I remain committed to delivering the objectives set out in the 'One Wales' agreement and working to deliver sustainable farming, forestry, food and fisheries industries to the benefit of Wales and rural communities.

Helen Mary Jones: As part of the work that you have just mentioned in your response, there is the idea of possibly drawing together the environmental bodies in Wales. I have written to you about the Environment Agency laboratory that is currently located in Llanelli. It is not part of the agency in Wales—it belongs to the agency in England, for some reason. There is a threat to some of the jobs in the laboratory at present. If we are going to have one environmental body for Wales, the expertise that exists in the laboratory in Llanelli would be required. Would you consider—perhaps jointly with the Minister for Environment, Sustainability and Housing—contacting the Environment Agency in Britain and asking it not to move any jobs from that laboratory in Llanelli while you as a Government are considering the future of all of the environmental bodies and organisations in Wales?

Elin Jones: Thank you for that question. The Minister for the environment and I are considering this matter, in terms of looking at the environmental bodies—the Countryside Commission for Wales, the Forestry Commission and the Environmental Agency—at the moment. Devolving the powers of the Environment Agency, which

a Lloegr, a'r Comisiwn Coedwigaeth, sy'n gweithredu agweddau o'i waith ar draws tair gwlad Prydain, hefyd yn cael ei ystyried. Felly, er na allaf wneud ymrwymiad penodol ynglŷn â'r labordy hwn, bydd yn fanteisiol i mi a'r Gweinidog dros yr amgylchedd sicrhau bod presenoldeb y labordy yng Nghymru yn cael ei ystyried yn rhan o'r drafodaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth sydd orau i ni yng Nghymru yn dilyn yr adolygiad hwn, ac i ddechrau trafodaethau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar sail hynny.

Mohammad Asghar: A healthy and competitive rural Wales is important for the whole nation. Therefore, the number of young people choosing to leave our rural communities is very worrying. Given this situation, can you outline any recent discussions that you have had regarding promoting educational courses for young people that focus specifically on rural enterprises, given the role that such programmes can play in encouraging innovation in the traditional rural industries?

Elin Jones: I have ongoing discussions about this matter, as well as opportunities to visit the land-based colleges in Wales. I am always heartened by the interest shown by young people in land-based educational interests, whether they be in forestry, food or agriculture. Tomorrow, I am visiting Harper Adams University College, which, although not geographically in Wales, attracts many Welsh students. It is heartening to see that, even though the economy of rural Wales is always under threat—and has been for a long time—young people continue to show an interest in working and living there. We have fine educational establishments in Wales that train young people in those areas.

Joyce Watson: You sent me a letter recently outlining the decision to scrap the Agricultural Wages Board for England and Wales. I recognise that you were forced to take that decision, as a result of the Secretary of State for the Environment, Food and Rural Affairs' plans to abolish several arm's length bodies. I am greatly concerned by the board's abolition, as it will result in farmworkers' and

works on an England and Wales level, and the Forestry Commission, which operates aspects of its work across the three nations of Britain, is also being considered. Therefore, although I cannot make a specific commitment regarding this laboratory, it will be advantageous for me and the Minister for the environment to ensure that the presence of the laboratory in Wales is considered as part of the discussions about the best provision for us in Wales following this review, and to initiate discussions with the Environment Agency on that basis.

Mohammad Asghar: Mae Cymru wledig iach a chystadleuol yn bwysig i'r genedl gyfan. Felly, mae nifer y bobl ifanc sy'n dewis gadael ein cymunedau gwledig yn peri gofid mawr. O ystyried y sefyllfa hon, a allwch amlinellu unrhyw drafodaethau diweddar rydych wedi'u cael ynghylch hyrwyddo cyrsiau addysgol i bobl ifanc sy'n canolbwyntio'n benodol ar fentrau gwledig, o gofio'r rôl y gall rhaglenni o'r fath ei chwarae i annog arloesedd yn y diwydiannau gwledig traddodiadol?

Elin Jones: Rwyf yn trafod y mater hwn yn gyson, yn ogystal ag yn cael cyfleoedd i ymweld â'r colegau amaethyddol yng Nghymru. Mae'n codi fy nghalon bob amser i weld y diddordeb a ddangosir gan bobl ifanc mewn buddiannau addysgol amaethyddol, boed y rhain mewn coedwigaeth, bwyd neu amaethyddiaeth. Yfory, byddaf yn ymweld â Choleg Prifysgol Harper Adams, sydd, er nad yw yng Nghymru, yn denu llawer o fyfyrwyr o Gymru. Mae'n galonogol gweld, er bod economi cefn gwlad Cymru bob amser o dan fygythiad—ac mae wedi bod ers cryn amser—fod pobl ifanc yn dal i ddangos diddordeb mewn gweithio a byw yno. Mae gennym sefydliadau addysgol gwych yng Nghymru sy'n hyfforddi pobl ifanc yn yr ardaloedd hynny.

Joyce Watson: Gwnaethoch anfon llythyr ataf yn ddiweddar yn amlinellu'r penderfyniad i ddileu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr. Rwyf yn sylweddoli eich bod wedi cael eich gorfodi i wneud y penderfyniad hwnnw, o ganlyniad i gynlluniau'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i ddiddymu sawl corff hyd

craftsmen's pay safety net being taken away from them. This is profoundly unfair and represents a regression of the work of the Labour Government to ensure fair pay for workers. Do you agree with me, Minister, that the decision of the Westminster Government to abolish a body whose function it was to make sure that people earn a decent wage is representative of the Liberal Democrats-supported Tory party's ideology of considering the loss of people's livelihoods as a price worth paying?

Elin Jones: I share your frustration and disappointment at the speed at which this decision has been taken and its implication for us in Wales. My decision to agree to the change as pushed forward by the Department for Environment, Food and Rural Affairs was made reluctantly. I had the option to consider whether we could establish a Wales-only agricultural wages board, although that decision would have required considerable work as well as considerable budget funding allocation. It was clear that DEFRA did not intend to devolve any budget to us, should we have taken that decision. I am disappointed that we are losing the work that the agricultural wages board has undertaken for workers in Wales. I think the decision should have been taken with due consultation. There was absolutely no consultation with agricultural workers, their representatives or communities in general; nor was there adequate consultation with this Government.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Minister, I am sure that one of your priorities over the coming months will be to persuade farmers to fill in their Glastir forms. Can you tell Members what you would regard to be a satisfactory level of participation in the Glastir scheme?

Elin Jones: I would hope that farmers who are interested in pursuing funding for agri-environment measures on their land would see that this is an opportunity of which they can avail themselves. If they want to be included, they need to fill in an application

braich. Mae diddymu'r bwrdd yn peri gofid mawr imi. Bydd hyn yn arwain at gymryd rhwyd diogelu cyflogau gweithwyr fferm a chrefftwyr oddi arnynt. Mae hyn yn gwbl annheg ac mae'n cynrychioli cam yn ôl yng ngwaith y Llywodraeth Lafur i sicrhau cyflog teg i weithwyr. A ydych yn cytuno â mi, Weinidog, fod penderfyniad y Llywodraeth yn San Steffan i ddiddymu corff sydd â swyddogaeth i wneud yn siŵr bod pobl yn ennill cyflog teg yn cynrychioli ideoleg y blaidd Doriaid a gefnogir gan y Democratiaid Rhyddfrydol sy'n ystyried bod colli bywoliaeth pobl yn bris gwerth ei dalu?

Elin Jones: Rwyf innau fel chithau yn rhwystredig ac yn siomedig gyda pha mor gyflym y gwnaed y penderfyniad hwn a'i oblygiadau i ni yng Nghymru. Yn anfoddog y penderfynais gytuno i'r newid y symudwyd yn ei flaen gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Roedd gennyf y dewis i ystyried a fyddem yn gallu sefydlu bwrdd cyflogau amaethyddol ar gyfer Cymru'n unig, er y byddai'r penderfyniad hwnnw wedi gofyn am gryn dipyn o waith yn ogystal â dyraniad sylweddol o arian cyllideb. Roedd yn amlwg nad oedd DEFRA yn bwriadu datganoli unrhyw gyllideb inni, pe byddem wedi gwneud y penderfyniad hwnnw. Rwyf yn siomedig ein bod yn colli'r gwaith y mae'r bwrdd cyflogau amaethyddol wedi'i wneud dros weithwyr yng Nghymru. Rwyf yn credu y dylid bod wedi ymgynghori cyn gwneud y penderfyniad. Ni ymgynghorwyd o gwbl â gweithwyr amaethyddol, eu cynrychiolwyr na'r cymunedau yn gyffredinol; ac nid oedd digon o ymgynghori gyda'r Llywodraeth hon ychwaith.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Weinidog, rwyf yn siŵr mai un o'ch blaenoriaethau dros y misoedd nesaf fydd perswadio ffermwyr i lenwi eu ffurflenni Glastir. A allwch ddweud wrth yr Aelodau beth y byddech yn ei ystyried yn lefel foddhaol o gyfranogaeth yn y cynllun Glastir?

Elin Jones: Byddwn yn gobeithio y byddai ffermwyr sydd â diddordeb mewn cael arian ar gyfer camau amaeth-amgylchedd ar eu tir yn gweld bod hwn yn gyfle y gallant fanteisio arno. Os ydynt am gael eu cynnwys, mae angen iddynt lenwi ffurflen gais, a'i

form, and return it to us by the end of the application round. Over the next year, the Assembly Government will look to discuss with individual farmers what the management agreement will mean on individual farms.

Kirsty Williams: I note, Minister, that you are not able to give a figure this afternoon about how you will judge your own success in persuading farmers to enter into this scheme. As 80 per cent of farmers did tick the box on their single farm payment forms to express an interest, I am sure that your officials have got some idea of what they regard as a satisfactory participation level. If it falls short of your expectations and below this level that you are not able to share with us, will you take an early opportunity to review the prescriptions in Glastir in the hope of persuading more farmers to join?

Elin Jones: It is important for me to put on the record that I have no public or private figure in terms of the number of farmers that I hope will make formal applications this year for Glastir. The issue is made more complex because a number of farmers have chosen to extend their Tir Cynnal and Tir Gofal applications, and some will then decide not to go into Glastir in its first year of operation. However, I can give you an assurance that issues around Glastir are continually on my mind. Getting the scheme right is important in order to ensure that we meet the aspirations that I think we share across the Chamber regarding the outcomes that we want delivered on our agricultural land to meet our environmental objectives. That can only work with the co-operation and involvement of the landowners and managers themselves—that is, the farmers. For it to work, the scheme needs farmers to be interested in the scheme and apply for it, and I hope that they take up that opportunity.

Kirsty Williams: Thank you, Minister. It is extraordinary to think that you have no measurement of success for your scheme, as you have acknowledged this afternoon. However, you have a budget attached to the Glastir scheme, and a notional spend. If farmers are not persuaded to participate in the

dychwelyd atom erbyn diwedd y cylch ymgeisio. Dros y flwyddyn nesaf, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio trafod gyda ffermwyr unigol yr hyn y bydd y cytundeb rheoli yn ei olygu ar ffermydd unigol.

Kirsty Williams: Nodaf, Weinidog, nad ydych yn gallu rhoi ffigur y prynhawn yma am sut y byddwch yn mesur eich llwyddiant eich hun i berswadio ffermwyr i ymuno â'r cynllun hwn. Gan fod 80 y cant o ffermwyr wedi ticio'r blwch ar eu ffurflenni taliad sengl i fynegi diddordeb, rwyf yn siŵr bod gan eich swyddogion ryw syniad o'r hyn y maent yn ei ystyried yn lefel cyfranogi foddhaol. Os bydd hyn islaw eich disgwyliadau ac yn is na'r lefel hon fel na allwch ei rannu gyda ni, a wnewch fanteisio ar y cyfle cynnar i adolygu'r amodau yng nghynllun Glastir yn y gobaith o ddwyn perswâd ar fwy o ffermwyr i ymuno?

Elin Jones: Mae'n bwysig imi ddweud ar goedd nad oes gennyf ddim ffigur cyhoeddus na phreifat o ran nifer y ffermwyr a fydd, gobeithio, yn gwneud ceisiadau ffurfiol eleni ar gyfer Glastir. Cymhlethir y mater oherwydd bod nifer o ffermwyr wedi dewis ymestyn eu ceisiadau Tir Cynnal a Tir Gofal, a bydd rhai wedyn yn penderfynu peidio ag ymuno â'r cynllun Glastir yn ei flwyddyn weithredol gyntaf. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau bod materion yn ymwneud â Glastir ar fy meddwl drwy'r amser. Mae cael y cynllun cywir yn bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn gwireddu'r dyheadau y credaf ein bod yn eu rhannu ar draws y Siambr ynghylch y canlyniadau rydym am eu gweld ar ein tir amaethyddol i wireddu ein hamcanion amgylcheddol. Dim ond gyda chydweithrediad a chyfraniad y perchnogion tir a'r rheolwyr eu hunain—hynny yw, y ffermwyr, y gall hynny lwyddo. Er mwyn i'r cynllun weithio, mae angen i'r ffermwyr fod â diddordeb yn y cynllun a gwneud cais amdano, ac rwyf yn gobeithio y byddant yn manteisio ar y cyfle hwnnw.

Kirsty Williams: Diolch, Weinidog. Mae'n rhyfedd nad oes gennych unrhyw fesur o lwyddiant eich cynllun, fel rydych wedi'i gydnabod y prynhawn yma. Ond, mae gennych gyllideb ar gyfer y cynllun Glastir, a gwariant tybiannol. Os na lwyddir i ddwyn perswâd ar ffermwyr i gymryd rhan yn y

scheme because of the nature of the prescriptions and the bureaucracy involved, and if there is an underspend in that budget, what will happen to that money?

1.40 p.m.

Elin Jones: The budgetary requirements on Glastir are, again, complicated by the fact that the Tir Gofal and Tir Cynnal extensions take up a large proportion of the budget. The decision that I took earlier this year to ensure an exit payment for Tir Mynydd of 60 per cent in 2012 and 30 per cent in 2013 also takes up a large proportion of the budget. However, I am not in the game, at the start of the application process for Glastir, of giving any indication of what I see as its success. As far as I am concerned, it is about delivering the environmental and land management outcomes that are needed in Wales to meet our aspirations as a Government. I am fully aware that it is farmers who will deliver that for Government and wider society, and Glastir is the mechanism by which that will be done. It is new, and I understand that change is—as always, with all agricultural schemes—challenging, as I am sure you know, Kirsty. However, we need to wait for the return of application forms. My officials are committed to spending the next few weeks in surgeries throughout Wales—not GP surgeries, for clarification—working with individual farmers on how they can progress their applications in this round.

Hyrwyddo Cynnyrch o Gymru

2. Sandy Mewies: *A wnaiffy Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cynnyrch o Gymru. OAQ(3)1156(RAF)*

Elin Jones: The Welsh Assembly Government is committed to supporting Welsh food and drink produce through supporting a number of initiatives, including attendance at major food events and exhibitions, managing the True Taste awards, and supporting food festivals and farmers' markets.

Sandy Mewies: Minister, I recently attended

cynllun oherwydd natur yr amodau a'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig, ac os oes unrhyw danwario yn y gyllideb honno, beth a fydd yn digwydd i'r arian hwnnw?

Elin Jones: Mae gofynion cyllidebol Glastir, unwaith eto, yn cael eu cymhlethu gan y ffaith bod estyniadau ar gyfer cynlluniau Tir Gofal a Tir Cynnal yn mynd â chyfran fawr o'r gyllideb. Mae'r penderfyniad a wnes yn gynharach eleni i sicrhau taliad ymadael Tir Mynydd o 60 y cant yn 2012 a 30 y cant yn 2013 hefyd yn mynd â chyfran fawr o'r gyllideb. Fodd bynnag, nid wyf, ar ddechrau'r broses ymgeisio ar gyfer Glastir, yn bwriadu rhoi unrhyw arwydd o beth fydd ei lwyddiant yn fy marn i. Yr hyn sy'n bwysig imi yw ei fod yn cyflawni'r canlyniadau amgylcheddol a rheoli tir y mae eu hangen yng Nghymru i wireddu ein dyheadau fel Llywodraeth. Rwyf yn gwbl ymwybodol mai ffermwyr a fydd yn cyflawni hynny ar ran y Llywodraeth a chymdeithas yn gyffredinol, a chynllun Glastir yw'r mecanwaith a ddefnyddir i wneud hynny. Mae'n newydd, ac rwyf yn deall bod newid—fel sy'n wir, bob amser, gyda phob cynllun amaethyddol—yn cynnig her, fel rwyf yn siŵr eich bod yn gwybod, Kirsty. Fodd bynnag, mae angen inni aros i'r ffurflenni cais gael eu dychwelyd. Mae fy swyddogion yn ymroddedig i dreulio'r wythnosau nesaf mewn cymorthfeydd ledled Cymru—nid meddygfeydd Meddygon Teulu, hoffwn ychwanegu—yn gweithio gyda ffermwyr unigol ynghylch sut y gallant ddatblygu eu ceisiadau yn y cylch hwn.

Promoting Welsh Produce

2. Sandy Mewies: *Will the Minister provide an update on Welsh Assembly Government initiatives to promote Welsh produce. OAQ(3)1156(RAF)*

Elin Jones: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cynnyrch bwyd a diod o Gymru drwy gefnogi nifer o fentrau, gan gynnwys mynd i ddiwyddiadau ac arddangosfeydd bwyd pwysig, llywio'r gwobrau Gwir Flas, a chefnogi gwyliau bwyd a marchnadoedd ffermwyr.

Sandy Mewies: Weinidog, yn ddiweddar

the food and drink festival held in Mold, which I have mentioned to you before; it is a very successful annual event. It attracted more than 80 exhibitors, many of whom were local producers, and around 13,000 visitors over the two days on which it was held. Just as food and drink produced in Wales becomes more and more popular, so this excellent festival attracts more and more visitors. Would you agree that this illustrates the real appetite—pardon the pun—that people have in Wales for food produced as close to home as possible, as well as excellent products, from cheese to ice cream, produced here, and that we should continue to promote Welsh produce as something of which we can be proud?

Elin Jones: Yes. I am sure that a number of Members visited farmers' markets and food festivals over the summer; over recent weeks, a number of our more important food festivals have been held. Their success is due, in part, to Government support, as I like to point out, but mainly to the quality of the produce put before consumers from Welsh food and drink producers. I do not think that we, as a country, can be challenged by anybody on the quality of our produce. We recently saw the Ryder Cup held in Wales, and the produce of over 40 Welsh food and drink producers was available to be tasted by all attendees—I was not, however, one of them.

Mark Isherwood: I also attended the opening of the excellent Mold food and drink festival, showcasing the best of the food and drink produced in Flintshire and across north Wales. You will be aware, Minister, that I wrote to you in early August, having been approached by the organising committee because the offer of grant support received from your marketing division was significantly less than expected. The committee said that there had been no discussion and no warning that the offer would be less than half what was requested. I thank you for your prompt response—you wrote to me the next day and facilitated a meeting with your officials, and a funding package was put in place that enabled the

bûm mewn gŵyl fwyd a diod yn yr Wyddgrug, ac rwyf wedi sôn wrthych am hyn o'r blaen; mae'n ddigwyddiad blynyddol llwyddiannus dros ben. Denodd dros 80 o arddangoswyr, gyda llawer ohonynt yn gynhyrchwyr lleol, a daeth oddeutu 13,000 o ymwelwyr dros y ddau ddiwrnod y cafodd ei chynnal. Fel y mae bwyd a diod o Gymru'n dod yn fwy a mwy poblogaidd, mae'r ŵyl wych hon yn denu mwy o ymwelwyr hefyd. A fydddech yn cytuno bod hyn yn dangos y gwir chwant—maddeuwch y chwarae ar eiriau—sydd gan bobl yng Nghymru am fwyd a gynhyrchir mor agos i gartref ag sy'n bosibl, yn ogystal â chynnyrch rhagorol, o gaws i hufen iâ, a gynhyrchir yma, ac y dylem barhau i hyrwyddo cynnyrch o Gymru fel rhywbeth y gallwn fod yn falch ohono?

Elin Jones: Ydw. Rwyf yn siŵr bod nifer o Aelodau wedi ymweld â marchnadoedd ffermwyr a gwyliau bwyd yn ystod yr haf; mae nifer o'n gwyliau bwyd pwysicaf wedi cael eu cynnal dros yr wythnosau diwethaf. Mae eu llwyddiant yn deillio, yn rhannol, o gefnogaeth y Llywodraeth, a hoffwn dynnu sylw at hynny, ond yn bennaf oherwydd ansawdd y cynnyrch a roddir gerbron defnyddwyr gan gynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru. Nid wyf yn credu y gall neb ein herio ni, fel gwlad, ar ansawdd ein cynnyrch. Yn ddiweddar gwelsom gystadleuaeth Cwpan Ryder yn dod i Gymru, ac roedd cynnyrch dros 40 o gynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru ar gael i bawb a oedd yn bresennol eu blasu—nid oeddwn i'n un ohonynt, fodd bynnag.

Mark Isherwood: Bûm innau hefyd yn agoriad yr ŵyl fwyd a diod ardderchog yn yr Wyddgrug, a oedd yn dangos y bwyd a diod gorau a gynhyrchir yn sir y Fflint ac ar draws y gogledd. Byddwch yn ymwybodol, Weinidog, fy mod wedi ysgrifennu atoch ddechrau mis Awst, ar ôl i'r pwyllgor trefnu ddod ataf oherwydd bod y cymorth grant a gynigiwyd gan eich adran farchnata gryn dipyn yn llai na'r disgwyl. Dywedodd y pwyllgor na fu dim trafodaeth a dim rhybudd y byddai'r cynnig yn llai na hanner yr hyn y gofynnwyd amdano. Diolch i chi am eich ymateb cyflym—gwnaethoch ysgrifennu ataf y diwrnod canlynol a hwyluso cyfarfod gyda'ch swyddogion, a chafwyd pecyn cyllid a alluogodd yr ŵyl i fynd yn ei blaen. Fodd

festival to go ahead. However, what measures have you, or can you, put in place to prevent that sort of last-minute planning from recurring so that, in future, shows and festivals such as this can be put on a sustainable footing and people will know in advance what resources will be available so that they can plan accordingly?

Elin Jones: I accept that all organisers of food festivals throughout Wales—the majority of whom are volunteers working to support and develop their food festivals—need enough time to plan those events and need to discuss with the Welsh Government the level of support available. As I have said previously, we currently support around 57 food events and food festivals in Wales, and we have a budget of around £1.5 million over three years. Like other budgets, that budget will come under scrutiny and pressure over the next few years. Everyone, including your constituents and my constituents, needs to be aware that there are challenging times ahead for the public sector.

In relation to your point about giving everyone adequate notice regarding any changes to future funding, I give a commitment that my officials will work with food festivals in Wales to ensure that they are aware as early as possible of any changes to budgets in the future.

David Lloyd: Bu ichi sôn, Weinidog, am y sector cyhoeddus, a hoffwn drafod yr agenda caffael cyhoeddus yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Mae awydd naturiol gan bob un ohonom i hybu cynnyrch o Gymru ac i fwydo'r plant yn ein hysgolion a'r cleifion yn ein hysbytai gyda chynnyrch lleol o Gymru, ond mae ambell faen tramgwydd o ran deddfwriaeth Ewropeaidd, ac yn y blaen. Sut mae cysoni'r agenda i wneud yn siŵr ein bod yn gallu hybu cynnyrch lleol yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni?

Elin Jones: Fel Llywodraeth, yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cymaint â phosibl o fwydydd lleol a bwydydd Cymreig yn cael eu caffael gan y sector cyhoeddus, ac mae gennym gynllun caffael cyhoeddus lleol. Mae'n ofynnol yn y broses caffael i dendro

bynag, pa gamau rydych chi wedi, neu gallwch chi, eu rhoi ar waith i atal y math hwnnw o gynllunio munud olaf rhag digwydd eto, fel bod gan sioeau a gwyliau fel hyn sail gynaliadwy yn y dyfodol ac y bydd pobl yn gwybod ymlaen llaw pa adnoddau a fydd ar gael er mwyn iddynt gynllunio yn unol â hynny?

Elin Jones: Rwyf yn derbyn bod angen i holl drefnwyr gwyliau bwyd ledled Cymru—y mwyafrif ohonynt yn wirfoddolwyr sy'n gweithio i gefnogi a datblygu eu gwyliau bwyd—gael digon o amser i gynllunio'r digwyddiadau hynny a bod angen trafod gyda Llywodraeth Cymru lefel y cymorth sydd ar gael. Fel rwyf wedi'i ddweud o'r blaen, ar hyn o bryd rydym yn cefnogi tua 57 o ddigwyddiadau bwyd a gwyliau bwyd yng Nghymru, ac mae gennym gyllideb o tua £1.5 miliwn dros dair blynedd. Fel cyllidebau eraill, bydd y gyllideb honno dan bwysau ac yn destun proses graffu dros y blynyddoedd nesaf. Mae angen i bawb, gan gynnwys eich etholwyr a fy etholwyr, fod yn ymwybodol bod cyfnod heriol i ddod i'r sector cyhoeddus.

O ran eich pwynt am roi digon o rybudd i bawb ynghylch unrhyw newidiadau i gyllid yn y dyfodol, rwyf yn rhoi ymrwymiad y bydd fy swyddogion yn gweithio gyda'r gwyliau bwyd yng Nghymru i sicrhau eu bod yn ymwybodol cyn gynted ag y bo modd o unrhyw newidiadau i gyllidebau yn y dyfodol.

David Lloyd: You mentioned, Minister, the public sector, and I wanted to mention the public procurement agenda in the current financial climate. Every one of us has a natural desire to promote produce from Wales and to feed the children in our schools and the patients in our hospitals with local produce from Wales, but there are some barriers in terms of European legislation and so on. How can that agenda be reconciled to ensure that we can promote local produce in the current economic climate?

Elin Jones: As a Government, we are committed to ensuring that as much local and Welsh food is procured by the public sector as possible, and we have a local public procurement scheme. It is a requirement of the procurement process to put a significant

rhan sylweddol o'r gwaith hwn, ond mae fy adran i yn gweithio gydag adran caffael y Llywodraeth i sicrhau bod yr hyn y mae'r Llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn dymuno ei weld, sef bwyd o ansawdd da sy'n deillio o ffynonellau cynaliadwy lleol, yn cael eu cynnwys mor aml ag sy'n bosibl yn y prosesau tendro cyhoeddus. Yr ydym wedi gweld cynnydd o ran faint o fwyd a diod sy'n cael eu prynu o ffynonellau lleol gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae rhai agweddau o'r sector cyhoeddus yn perfformio yn well nag agweddau eraill o'r sector cyhoeddus, felly mae mwy o waith i'w wneud ar hyn, ac, wrth gwrs, mae'n rhaid inni wneud hyn o fewn y rheolau cyfreithiol.

Eleanor Burnham: Sut ydych yn annog archfarchnadoedd i wella'r sefyllfa? Yr ydym i gyd yn mynd i'r ffeiriau a gwyliau bwyd, ac maent yn llwyddiannus dros ben ar draws y *patch*—gan gynnwys rhai nad ydynt wedi eu crybwyll eto, sef Conwy a Llangollen. Yn y pen draw, mae angen sicrhau bod mwy o fwyd o Gymru ar gael yn yr archfarchnadoedd. Felly, beth yn union mae'r Llywodraeth yn ei wneud i annog hyn a sicrhau bod pobl yn gallu prynu bwyd o Gymru, yn enwedig yng ngogledd Cymru?

Elin Jones: Yr ydych yn iawn i ddweud nad yw ffeiriau bwyd a marchnadoedd ffermwr yn ddigwyddiadau rheolaidd a bod y rhan fwyaf o'n cwsmeriaid yng Nghymru yn prynu bwydydd bob dydd mewn archfarchnadoedd a siopau lleol. Yr ydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran yr hyn y mae archfarchnadoedd yn ei wneud i geisio prynu bwydydd o ffynonellau mwy lleol.

1.50 p.m.

Mae'r Llywodraeth wedi bod yn gweithio gydag archfarchnadoedd i ddatblygu'r cadwyni cyflenwi hyn. Bûm mewn digwyddiad diddorol ym maes parcio Tesco Caerfyrddin ychydig wythnosau yn ôl. Yr oedd Tesco wedi croesawu cynhyrchwyr lleol sy'n cyflenwi Tesco yn Nghymru i gymryd mantais o'r cyfle i ddangos eu cynnyrch ac i werthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid.

Yr wyf yn ymwybodol o archfarchnadoedd eraill hefyd sy'n gwneud gwaith sylweddol

part of this work to tender, but my department is working with the Government's procurement department to ensure that what the Government and the public sector wishes to see, that is, good-quality food from local sustainable sources, will be written in as often as possible to public tendering processes. We have seen an increase in the amount of food and drink purchased from local sources by the public sector in Wales. Some parts of the public sector are performing better than others, therefore, there is more work to be done on this, and, of course, we must do this within the legal regulations.

Eleanor Burnham: How are you encouraging the supermarkets to improve the situation? We all visit the food fairs and festivals, and they are extremely successful across the patch—including some that have not been mentioned yet, namely Conwy and Llangollen. Ultimately, we must ensure that more food from Wales is available in the supermarkets. Therefore, what exactly is the Government doing to encourage this and to ensure that people can buy food from Wales, particularly in north Wales?

Elin Jones: You are right to say that food fairs and farmers' markets are not regular events and that the majority of consumers in Wales purchase food on a daily basis in supermarkets and local stores. We have seen a significant increase in recent years in terms of what the supermarkets are doing to try to buy foods from more local sources.

The Government has been working with supermarkets to develop these supply chains. I attended an interesting event in Carmarthen Tesco car park a few weeks ago. Tesco had welcomed local producers who supply Tesco in Wales to take advantage of the opportunity to showcase their products and to sell directly to customers.

I am aware of other supermarkets that are now doing a considerable amount of work to

erbyn hyn i gyflenwi bwydydd lleol yn eu siopau. Mae hyn yn digwydd nid yn unig am fod y Llywodraeth yng Nghymru eisiau ei weld ond, yn bwysicach, am fod cwsmeriaid eisiau ei weld. Mae'r archfarchnadoedd yn dweud wrthyf drwy'r amser fod cwsmeriaid yng Nghymru yn deyrngar i gynnyrch Cymreig, ac efallai'n fwy felly na chwsmeriaid yng ngwledydd eraill Prydain.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 3, OAQ(3)1178(RAF), yn ôl.

Hyrwyddo Bwyd Lleol

4. Nick Ramsay: *Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo bwyd lleol ar draws y de ddwyrain. OAQ(3)1171(RAF)*

Elin Jones: Initiatives such as support for food festivals, farmers' markets and farm shops, as well as programmes that involve the supermarkets, food and drink producers, the hospitality sector and the public sector, raise the profile of locally sourced food across south-east Wales.

Nick Ramsay: Thank you for that answer, Minister. In response to Sandy Mewies's earlier question, you spoke of Wales having a wealth of fantastic foods to offer, both to people in Wales and serving as an advertisement for Wales to people across the world. You are no doubt aware of the Made in Monmouthshire brand, which has been supported by the local authority in Monmouthshire since 2005. In its evidence to the Assembly's Rural Development Subcommittee, the authority said that the brand offered 'enhanced retail opportunities' to Monmouthshire and the agri-food industry in general. Do you agree that giving local food a brand, such as Made in Monmouthshire, is a good idea and that that has been a fantastic project? If so, what are you doing to ensure that that model is extended beyond my constituency throughout Wales, so that Wales can market its fantastic food throughout the world?

Elin Jones: Thank you for the question. You raise an important issue for the food and drink sector in Wales, as a number of our producers are relatively small in what they

supply local foods in their stores. This is happening not only because the Welsh Government wants to see it but, more importantly, because customers want to see it. The supermarkets regularly tell me that customers in Wales are very true to Welsh produce, and perhaps more so than customers in other nations in Britain.

The Presiding Officer: Question 3, OAQ(3)1178(RAF), is withdrawn.

Promoting Locally Sourced Food

4. Nick Ramsay: *What is the Minister doing to promote locally sourced food across the south east of Wales. OAQ(3)1171(RAF)*

Elin Jones: Mae mentrau fel cymorth ar gyfer gwyliau bwyd, marchnadoedd ffermwyr a siopau fferm, yn ogystal â rhaglenni sy'n cynnwys yr archfarchnadoedd, cynhyrchwyr bwyd a diod, y sector lletygarwch a'r sector cyhoeddus, yn codi proffil bwyd o ffynonellau lleol ar draws y de-ddwyrain.

Nick Ramsay: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mewn ymateb i gwestiwn blaenorol gan Sandy Mewies, dywedoch fod gan Gymru cyfoeth o fwydydd gwych i'w gynnig, i bobl yng Nghymru ac fel hysbyseb am Gymru i bobl ym mhob cwr o'r byd. Mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r brand Made in Monmouthshire, a gefnogwyd gan yr awdurdod lleol yn sir Fynwy er 2005. Yn ei dystiolaeth i Is-bwyllgor Datblygu Gwledig y Cynulliad, dywedodd yr awdurdod fod y brand yn cynnig 'cyfleoedd gwerthu gwell' i sir Fynwy a'r diwydiant bwyd-amaeth yn gyffredinol. A ydych yn cytuno bod rhoi brand ar fwyd lleol, fel Made in Monmouthshire, yn syniad da a bod hwn wedi bod yn brosiect gwych? Os felly, beth rydych yn ei wneud i sicrhau bod y model yn cael ei ymestyn y tu hwnt i'm hetholaeth ledled Cymru, er mwyn i Gymru allu marchnata ei bwyd gwych ar draws y byd?

Elin Jones: Diolch am y cwestiwn. Rydych yn codi mater pwysig ynghylch y sector bwyd a diod yng Nghymru, gan fod nifer o'n cynhyrchwyr yn gymharol fach o ran yr hyn

produce and what they do, and working together under a geographic brand, such as Made in Monmouthshire, gives producers the ability to market their products together and to try to sell them together, perhaps by making applications for procurement in the public sector or elsewhere. Through the work that we have been able to support under the rural development plan in axes 3 and 4, a number of local action plan areas have developed along the lines of the Made in Monmouthshire model and the work that has been done there. I am thinking now of the work in a similar vein that is under way in Pembrokeshire, for example. The rural development plan, with funding under axes 3 and 4 into the future, is a vehicle for ensuring that good practice in some parts of Wales can be replicated in others.

Jeff Cuthbert: Minister, as you know, I have raised the subject of locally sourced produce with you several times, particularly in reference to the local sourcing of hops, barley and malt for the brewing industry. You have always expressed your support for that, at least in principle. However, it has now come to my attention that there is a similar issue with locally sourced apples for cider making. While many Welsh cider makers already use apples grown in Wales, there are others who cannot because the apple producers are tied into long-term contracts. In effect, those contracts prevent producers from branding and marketing their products as 100 per cent Welsh, and producers would welcome initiatives from WAG to try to change that. Minister, in your opinion, is the amount of support and funding for orchard development provided within the Glastir scheme sufficient to develop the industry to such an extent that all Welsh cider makers will have the option of sourcing their apples from Wales?

Elin Jones: I would hope that, at some point, we could get to a position where cider makers in Wales are able to source their apples from Wales. As part of the Glastir scheme, which you mentioned, we have introduced support for the restoration of existing orchards and

y maent yn ei gynhyrchu a beth y maent yn ei wneud. Mae cydweithio o dan frand daearyddol, megis Made in Monmouthshire, yn galluogi cynhyrchwyr i farchnata eu cynhyrchion gyda'i gilydd a cheisio eu gwerthu gyda'i gilydd, efallai drwy wneud ceisiadau ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus neu yn rhywle arall. Drwy'r gwaith yr ydym wedi gallu ei gefnogi dan y cynllun datblygu gwledig ar echelau 3 a 4, mae nifer o feysydd cynllun gweithredu lleol wedi cael eu datblygu yn debyg i'r model Made in Monmouthshire a'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yno. Rwyf yn meddwl yn awr am y gwaith tebyg sydd ar y gweill yn sir Penfro, er enghraifft. Mae'r cynllun datblygu gwledig, gyda chyllid o dan echelau 3 a 4 yn y dyfodol, yn gyfrwng i sicrhau bod modd efelychu arferion da a geir mewn ambell ran o Gymru mewn rhannau eraill.

Jeff Cuthbert: Weinidog, fel y gwyddoch, rwyf wedi codi testun cynnyrch o ffynonellau lleol gyda chi sawl gwaith, yn enwedig wrth gyfeirio at y ffynonellau lleol o hopys, haidd a brag ar gyfer y diwydiant bragu. Rydych bob amser wedi mynegi eich cefnogaeth at hynny, mewn egwyddor o leiaf. Fodd bynnag, mae wedi dod i'm sylw erbyn hyn fod rhywbeth tebyg yn bodoli gydag afalau o ffynonellau lleol ar gyfer gwneud seidr. Er bod gwneuthurwyr seidr o Gymru eisoes yn defnyddio afalau sydd wedi'u tyfu yng Nghymru, mae eraill na allant wneud hynny oherwydd bod y cynhyrchwyr afalau wedi eu clymu wrth gontractau hirdymor. I bob pwrpas, mae'r contractau hynny yn atal cynhyrchwyr rhag brandio a marchnata eu cynnyrch fel cynnyrch sy'n 100 y cant o Gymru, a byddai cynhyrchwyr yn croesawu mentrau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i geisio newid hynny. Weinidog, yn eich barn chi, a yw maint y cymorth a'r cyllid ar gyfer datblygu perllannau a ddarperir yn y cynllun Glastir yn ddigonol i ddatblygu'r diwydiant i'r fath raddau fel y bydd gan holl wneuthurwyr seidr Cymru y dewis o gael eu hafalau o Gymru?

Elin Jones: Byddwn yn gobeithio, ar ryw bwynt, y byddwn yn gallu cyrraedd sefyllfa lle mae gwneuthurwyr seidr yng Nghymru yn gallu cael eu hafalau o Gymru. Fel rhan o'r cynllun Glastir, a grybwyllwyd gennyh, rydym wedi cyflwyno cymorth ar gyfer adfer

for new orchards. We are also offering support through the Welsh Perry and Cider Society for a project worth around £400,000 to work with orchard owners to develop technical support and guidance and to support the processing of their apples. Hopefully, by working with potential new interests through the Glastir scheme in growing the apples, and working on the technical side in terms of the processing of those apples, we can develop from the current situation and support the aspiration that we both share to see a growth in the amount of Welsh perry and cider produced in Wales.

perllannau sydd eisoes yn bodoli ac ar gyfer perllannau newydd. Rydym hefyd yn cynnig cefnogaeth drwy Gymdeithas Gellygwin a Seidr Cymru ar gyfer prosiect sy'n werth tua £400,000 i weithio gyda pherchnogion perllannau i ddatblygu arweiniad a chymorth technegol ac i gefnogi'r gwaith o brosesu eu hafalau. Drwy weithio gyda phobl newydd drwy'r cynllun Glastir sydd â diddordeb mewn tyfu'r afalau, a gweithio ar yr ochr dechnegol o ran prosesu'r afalau hynny, gobeithio y gallwn ddatblygu o'r sefyllfa bresennol a chefnogi'r dyhead y mae'r ddau ohonom yn ei rannu i weld twf o ran faint o ellygwin a seidr o Gymru a gynhyrchir yng Nghymru.

Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid

Young Entrants Support Scheme

5. Gareth Jones: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gam nesaf y Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid. OAQ(3)1177(RAF)*

5. Gareth Jones: *Will the Minister make a statement on the next phase of the Young Entrants Support Scheme. OAQ(3)1177(RAF)*

Elin Jones: Bydd y cyfnod ymgeisio ar gyfer ail rownd y cynllun cymorth i newydd-ddyfodiaid yn agor ar 18 Hydref 2010.

Elin Jones: The application window for the second round of the young entrants support scheme will open on 18 October 2010.

Gareth Jones: Deallaf fod arolwg llawn o'r cynllun llwyddiannus hwn yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, ond a allwch ein diweddarau ar yr ymateb yr ydych wedi ei dderbyn gan ffermwyr ifanc sydd wedi elwa o'r cynllun hyd yn hyn, ac, yn sgîl eich ymweliadau â ffermydd dros yr haf, a oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw welliannau posibl yr hoffech eu gweld yn cael eu gwneud i'r cynllun?

Gareth Jones: I understand that a comprehensive review of this successful scheme is under way, but could you update us on the response that you have received from young farmers who have benefited from the scheme to date, and, following your visits to farms over the summer, have you any comments on any possible improvements that you would like to see made to the scheme?

Elin Jones: Yr ydym ar fin agor y rownd nesaf. Yr wyf wedi cael fy nghalonogi gan lwyddiant y rownd gyntaf, a'r diddordeb ynddo. Yr oedd rhai yn dweud nad oedd y cynllun yn ddigon deniadol i ddenu ffermwyr ifanc i wneud cais, ond derbyniwyd dros 100 cais am y cynllun. Erbyn hyn, mae 107 ffermwr ifanc wedi cael cefnogaeth ariannol a datblygu drwy'r cynllun hwn. Mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyntaf wedi'i chlustnodi i gyd. Felly, credaf ein bod wedi gweld llwyddiant yn y flwyddyn gyntaf. Yr ydym yn awr yn cynnal cyfarfodydd ar hyd a lled Cymru er mwyn trafod y rownd nesaf ac i weld y potensial sydd i roi cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant amaethyddol i naill ai gymryd rôl rheoli ar y

Elin Jones: We are about to open the next round. I have been encouraged by the success of the first round, and the interest in it. Some said that the scheme was not attractive enough to attract young farmers to bid for it, but over 100 applications were received. There are now 107 young farmers who have received financial and developmental support through this scheme. The budget for the first year has been allocated in full. Therefore, I believe that we have seen success in the first year. We are now going to hold meetings throughout Wales to discuss the next round and to see the potential that exists to give support to young entrants to the agricultural industry to either take a management role on the family farm or to establish a career in

fferm deuluol neu i gychwyn amaethu o ddifrif eu hunain. Nyni yw'r Llywodraeth gyntaf i gyflwyno cynllun o'r fath yng Nghymru. Mae'n ddatganiad pwysig o'n dymuniad i weld diwydiant ffermio sydd yn llewyrchus i'r dyfodol ac i weld mwyfwy o bobl ifanc yn ymgymryd ag arweiniad y diwydiant.

Nick Ramsay: I am pleased to hear of your desire to see farming in Wales be as successful as it possibly can be. There is no doubt that the young entrants support scheme has been welcomed by the industry and commentators as being a very good idea in order to achieve that. On the one hand, there is the issue of farmers' families and those young people who may want to succeed their parents in working on the family farm, and we welcome support for that. However, on the other hand, there are those young people who may not come from farming families, but who decide at the sixth form that farming is a career that they would like to pursue. Can you tell us how this scheme is geared to support those young people, and what alterations you may have made to the scheme for its second round, given the evidence and feedback that you have received on how the scheme has worked up until now? What are you factoring in to help people outside of farming families to go into the industry?

Elin Jones: It is important that this scheme is available to support those farmers who are starting from a very small base, possibly from outside an existing farming family set-up. In the first year of the scheme, we have seen interest from a cross-section of the agricultural community. We have some young local authority tenant farmers who have been successful under the scheme. Therefore, farmers who are starting with small plots of land can make applications for the scheme, and we would judge those on their merits, as we do with larger farm holdings where it is a matter of moving management on from one generation to the next. They are equally valid in having a stake in the future of the agricultural industry.

agriculture themselves. We are the first Government to introduce such a scheme in Wales. It is an important statement of our desire to see the farming industry prosper for the future and to see more and more young people take up leadership in the industry.

Nick Ramsay: Rwyf yn falch o glywed am eich awydd i weld ffermio yng Nghymru yn llwyddo cymaint ag sy'n bosibl. Nid oes amheuaeth bod y cynllun cymorth i newydd-ddyfodiad wedi cael ei groesawu gan y diwydiant a'r sylwebyddion fel syniad da iawn er mwyn cyflawni hynny. Ar y naill law, ceir teuluoedd ffermwyr a'r bobl ifanc hynny a all fod yn dymuno olynu eu rhieni i weithio ar fferm y teulu, ac rydym yn croesawu'r cymorth ar gyfer hynny. Fodd bynnag, ar y llaw arall, ceir y bobl ifanc hynny nad ydynt efallai yn dod o deuluoedd ffermio, ond sy'n penderfynu yn y chweched dosbarth bod ffermio yn yrfa y byddent yn hoffi ei dilyn. A allwch ddweud wrthym sut mae'r cynllun hwn wedi'i anelu i gefnogi'r bobl ifanc hynny, a pha newidiadau rydych wedi'u gwneud i'r cynllun ar gyfer ei ail gylch, o ystyried y dystiolaeth a'r adborth rydych chi wedi'u cael ynghylch sut mae'r cynllun wedi gweithio hyd yn hyn? Beth ydych chi'n ei ffactoreiddio i helpu pobl y tu allan i deuluoedd ffermio i ymuno â'r diwydiant?

Elin Jones: Mae'n bwysig bod y cynllun hwn ar gael i gefnogi'r ffermwyr hynny sy'n dechrau o sylfaen fach iawn, o bosibl o'r tu allan i sefyllfa fferm deulu sy'n bodoli'n barod. Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun, rydym wedi gweld diddordeb gan drawstoriad o'r gymuned amaethyddol. Mae gennym ffermwyr ifanc sy'n denantiaid ar ffermydd awdurdod lleol sydd wedi bod yn llwyddiannus o dan y cynllun. Felly, gall ffermwyr sy'n dechrau gyda lleiniau bychain o dir wneud ceisiadau am y cynllun, a byddem yn barnu'r rheini yn ôl eu teilyngdod, fel rydym yn ei wneud gyda daliadau ffermydd mwy lle mae'n fater o symud rheolaeth o un genhedlaeth i'r llall. Mae ganddynt yr un hawl i gael rhan yn nyfodol y diwydiant amaethyddol.

2.00 p.m.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru**Forestry Commission Wales**

6. Leanne Wood: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru. OAQ(3)1172(RAF)*

6. Leanne Wood: *Will the Minister make a statement on the work of the Forestry Commission in Wales. OAQ(3)1172(RAF)*

Elin Jones: The work of Forestry Commission Wales is fully aligned to deliver our strategy for woodlands and trees, 'Woodlands for Wales'. It does that through the direct management of our 124,000 ha woodland estate and by enabling delivery in the 60 per cent of Welsh woodlands that are not owned by the Government.

Elin Jones: Mae gwaith Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cydweddu'n llwyr er mwyn cyflawni ein strategaeth ar gyfer coetiroedd a choed, 'Coetiroedd i Gymru'. Mae'n gwneud hynny drwy reolaeth uniongyrchol o'n hystâd coetir 124,000 hectar a thrwy alluogi cyflawni yn 60 y cant o goetiroedd Cymru nad ydynt yn eiddo i'r Llywodraeth.

Leanne Wood: The Welsh Assembly Government is a significant landowner and, as you have just stated, the Forestry Commission presides over a large proportion of Welsh land. Do you agree that we need to make optimum use of this land to bring maximum benefit to people in Wales? For example, an area characterised by waterfalls or fast-flowing rivers could be designated as being suitable for small-scale hydroelectric projects. Further, land with fir trees on tops of mountains might be unsuitable for growing food but could grow grasses or coppice willow, which could then be used for biofuels. Will you consider mapping and designating Welsh Assembly Government land so that it can be put to best use for the people of Wales in a way that will contribute to our targets for reducing greenhouse gas emissions?

Leanne Wood: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn berchennog tir sylweddol ac, fel rydych newydd ei ddweud, mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn rheoli cyfran fawr o dir Cymru. A ydych yn cytuno bod angen inni ddefnyddio'r tir hwn hyd yr eithaf er mwyn dwyn y budd mwyaf posibl i bobl yng Nghymru? Er enghraifft, gallai ardal a nodweddir gan raeadrau neu afonydd sy'n llifo'n gyflym gael ei dynodi'n addas ar gyfer prosiectau bach trydan dŵr. At hynny, efallai bod tir â choed pinwydd ar gopaon mynyddoedd yn anaddas ar gyfer tyfu bwyd, ond gellid tyfu glaswellt neu goedlan helyg, y gellid eu defnyddio wedyn ar gyfer biodanwyddau. A wnewch chi ystyried mapio a dynodi tir Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn gallu ei ddefnyddio yn y modd gorau er budd pobl Cymru mewn ffordd a fydd yn cyfrannu at ein targedau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr?

Elin Jones: Yes—indeed, I am considering that as we speak. The land that is owned by the Assembly Government and currently managed by the Forestry Commission is a resource to this nation and to this Government, and we need to look at how we can maximise the return to the public purse from that land while also meeting our wider environmental objectives. The Forestry Commission is currently undertaking work for me on identifying the additional use of the land. I am particularly interested in how that resource could be used for renewable energy purposes, whether that is through the wood fuel itself or, as you have highlighted, the

Elin Jones: Gwnaf—yn wir, rwyf yn ystyried hynny wrth inni siarad. Mae'r tir sy'n eiddo i Lywodraeth y Cynulliad ac sy'n cael ei reoli ar hyn o bryd gan y Comisiwn Coedwigaeth yn adnodd i'r genedl hon ac i'r Llywodraeth hon, ac mae angen inni edrych ar sut y gallwn gael y gorau i bwrs y wlad o'r tir hwnnw a bodloni ein hamcanion amgylcheddol ehangach yr un pryd. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wrthi'n gwneud gwaith imi ar adnabod y defnydd ychwanegol i'r tir. Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn y modd y gellid defnyddio'r adnodd hwnnw at ddibenion ynni adnewyddadwy, boed hynny drwy'r tanwydd coed ei hun neu, fel rydych

hydroelectric generating potential of the water that runs through the land. That work is ongoing, and I hope to be in a position at some point over the next few months to look at how it can progress into hydroelectric schemes, whether they are undertaken directly by Government, by local communities, or as a commercial venture. We are investigating all those possibilities.

Darren Millar: Minister, as you will know, there are talks afoot about the merger between Forestry Commission Wales, Environment Agency Wales and the Countryside Council for Wales. Let me put on record our party's support for the discussions about reducing costs to the taxpayer by bringing those organisations together. What discussions have you had with the employees in those organisations, given your departmental responsibility for Forestry Commission Wales? It is clear that there is a lot of alarm on the front line, so what are you doing to reassure the employees of that organisation that their jobs are not on the line?

Elin Jones: This is not about Government having talks about the future role of the three environmental bodies and our departments within Government that are related to this work. This is a formal analysis of the current roles undertaken by Environment Agency Wales, Forestry Commission Wales, us as a department, and the Countryside Council for Wales to find the best way of positioning the work that needs to be undertaken for the future and how it can be delivered in Wales. That is done not only to seek possible cost reductions—and you probably know more about that than I do, from your Westminster colleagues—but also to look at the appropriate way of delivering against our policy outcomes. I understand that any idea that a change is afoot brings with it a degree of uncertainty for employees, but I would kindly suggest to you that all public sector employees are probably feeling a degree of such uncertainty at this point.

Darren Millar: Minister, we all know that

wedi tynnu sylw ato, y potensial sydd gan y dŵr, sy'n rhedeg drwy'r tir, i gynhyrchu trydan. Mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo, ac rwy'n gobeithio y byddaf mewn sefyllfa rywbryd yn ystod y misoedd nesaf i edrych ar sut y gall ddatblygu i fod yn gynlluniau trydan dŵr, pa un ai eu bod yn cael eu gwneud yn uniongyrchol gan y Llywodraeth, gan gymunedau lleol, neu fel menter fasnachol. Rydym yn ymchwilio i bob un o'r posibiliadau hynny.

Darren Millar: Weinidog, fel y gwyddoch, mae trafodaethau ar y gweill am uno Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Gadewch imi ddweud ar goedd fod ein plaid yn cefnogi'r trafodaethau am leihau costau i'r trethdalwr drwy ddod â'r sefydliadau hynny at ei gilydd. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda chyflogeion y sefydliadau hynny, o ystyried cyfrifoldeb eich adran dros Gomisiwn Coedwigaeth Cymru? Mae'n amlwg bod llawer o nerfusrwydd yn y rheng flaen, felly beth rydych yn ei wneud i roi sicrwydd i gyflogeion y sefydliad hwnnw nad yw eu swyddi yn y fantol?

Elin Jones: Nid yw hyn yn fater o'r Llywodraeth yn trafod rôl y tri chorff amgylcheddol yn y dyfodol a'n hadrannau o fewn y Llywodraeth sy'n ymwneud â'r gwaith hwn. Mae hwn yn ddadansoddiad ffurfiol o'r swyddogaethau presennol a wneir gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, ni fel adran, a Chyngor Cefn Gwlad Cymru i ddod o hyd i'r ffordd orau o leoli'r gwaith y mae angen ei wneud ar gyfer y dyfodol a sut y gellir ei gyflawni yng Nghymru. Gwneir hynny i chwilio am y gostyngiadau posibl o ran costau—ac mae'n debyg y byddwch yn gwybod mwy am hynny na fi, gan eich cyd-Aelodau yn San Steffan—ond hefyd i edrych ar y ffordd briodol o gyflawni yn erbyn canlyniadau ein polisi. Deallaf fod unrhyw awgrym o newid yn y gwynt yn peri rhywfaint o ansicrwydd i gyflogeion, ond byddwn yn awgrymu'n garedig ichi fod holl gyflogeion y sector cyhoeddus, fwy na thebyg, yn teimlo rhywfaint o ansicrwydd o'r fath ar hyn o bryd.

Darren Millar: Weinidog, rydym i gyd yn

this country will have to pick up the tab for the UK Labour Party's disastrous mismanagement of the public finances for years to come in the form of cuts to the finances available to the public sector. I have asked you specifically, although I do not think that you have answered the question, what you are doing to ensure that the public sector workers in the Forestry Commission are informed about the process that is ongoing concerning the Environment Agency and the Countryside Council for Wales. What are you doing specifically to inform them, to consult with them, and to ensure that rather than engaging in a purely tick-box consultation exercise, they are actually part and parcel of the decision-making process on the future of this important organisation?

Elin Jones: There is no tick-box mentality in this Government. This is an important area of work, and the Minister for environment and I are committed to ensuring that our policy objectives have the appropriate delivery mechanisms. The staff and the leadership at those organisations will be involved in that; in fact, the leadership is already involved. It is now a matter of progressing that discussion. This Government has no preconceived ideas of what this means at the end of the consultation. There is no blueprint already in existence. We are keeping an open mind. We need to get the financing and the delivery of this right. We have an opportunity now to get this right for the future, with, as you said, a degree of cross-party consensus.

The Presiding Officer: I call Brian Gibbons.

Brian Gibbons: What discussions has the Minister had regarding the abolition of the Agricultural Wages Board for England and Wales?

The Presiding Officer: Order. I was calling you in connection with the question on the Forestry Commission. Your question on the agricultural board is No. 8.

Brian Gibbons: Sorry.

gwybod y bydd yn rhaid i'r wlad hon dalu am gamreoli trychinebus y Blaid Lafur yn y DU ar gyllid cyhoeddus am flynyddoedd i ddod ar ffurf toriadau yn y cyllid sydd ar gael i'r sector cyhoeddus. Rwyf wedi gofyn yn benodol ichi, er nad wyf yn meddwl eich bod wedi ateb y cwestiwn, beth rydych yn ei wneud i sicrhau bod gweithwyr y sector cyhoeddus yn y Comisiwn Coedwigaeth yn cael gwybod am y broses sy'n mynd rhagddi sy'n ymwneud â'r Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Beth rydych yn ei wneud yn benodol i roi gwybod iddynt, i ymgynghori â hwy, ac i sicrhau eu bod yn rhan annatod o'r broses gwneud penderfyniadau ar ddyfodol y sefydliad pwysig hwn, yn hytrach na dim ond yn cymryd rhan mewn ymarfer ymgynghori ticio blychau?

Elin Jones: Nid oes meddylfryd ticio blychau yn y Llywodraeth hon. Mae hwn yn faes pwysig o waith, ac mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd a finau wedi ymrwymo i sicrhau bod gan ein hamcanion polisi y mecanweithiau cyflwyno priodol. Bydd y staff a'r arweinwyr yn y sefydliadau hynny yn rhan o hynny; mewn gwirionedd, mae'r arweinwyr yn ymwneud â hyn yn barod. Mater ydyw erbyn hyn o symud y drafodaeth honno yn ei blaen. Nid oes gan y Llywodraeth hon syniadau rhagdybiedig o beth y mae hyn yn ei olygu ar ddiwedd yr ymgynghoriad. Nid oes glasbrint yn bodoli'n barod. Rydym yn cadw meddwl agored. Mae angen inni sicrhau ein bod yn cyflawni hyn yn briodol a bod y cyllid yn briodol. Mae gennym gyfle yn awr i wneud hyn yn iawn ar gyfer y dyfodol, gyda, fel y dywedoch, rywffaint o gonsensws trawsbleidiol.

Y Llywydd: Galwaf Brian Gibbons.

Brian Gibbons: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch dileu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr?

Y Llywydd: Trefn. Roeddwn yn galw arnoch mewn cysylltiad â'r cwestiwn am y Comisiwn Coedwigaeth. Rhif 8 yw eich cwestiwn am y bwrdd amaethyddol.

Brian Gibbons: Mae'n ddrwg gennyf.

The Presiding Officer: If you want to ask a supplementary question about the Forestry Commission, I would be happy for you to ask it. You know of my deep interest in forests. I live near many forests, so I want forestry talked about.

Brian Gibbons: My question related to the Forestry Commission is this. What discussions has the Minister had with the Forestry Commission on what it is doing to promote the greater end-use of timber as an added-value industrial product?

Elin Jones: The Forestry Commission has been tasked with achieving best value for the public purse from the sale of its assets on the Welsh Government estate. However, it also works, as it must, in those areas of the market where the supply chain is weakest or newest, in the context of the supply of wood for construction or for fuel, both of which are newer markets for the sector. There is a role for the Forestry Commission as part of the public sector to look to develop those markets and, ultimately, for those markets to be strong enough for the private sector to work in, as well. The role of the Forestry Commission, however, is not to focus entirely on the stronger markets, as it also has to look at newer markets where there is potential for better and stronger economic capacity and income generation from the Welsh woodland estate.

2.10 p.m.

The Presiding Officer: I call Mick Bates—on the subject of forestry.

Mick Bates: Forestry indeed. It almost sounds as though I am about to make a statement. Minister, a long time ago, your Government and the previous Government undertook a survey of Forestry Commission land to look at areas that could be used for affordable housing. What progress has been made in the development of that land for affordable housing, because my constituents in Ceinws, near Machynlleth, have been waiting for some six years for the legal wrangling to be over so that they can get on

Y Llywydd: Os ydych am ofyn cwestiwn atodol am y Comisiwn Coedwigaeth, byddwn yn hapus ichi ei ofyn. Gwyddoch am fy niddordeb mawr mewn coedwigoedd. Rwyf yn byw ger llawer o goedwigoedd, felly rwyf am weld pobl yn siarad am goedwigaeth.

Brian Gibbons: Dyma yw fy nghwestiwn sy'n ymwneud â'r Comisiwn Coedwigaeth. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Comisiwn Coedwigaeth ar yr hyn y mae'n ei wneud i hyrwyddo mwy o ddefnydd o bren fel cynnyrch diwydiannol â gwerth ychwanegol?

Elin Jones: Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cael y dasg o sicrhau'r gwerth gorau i bwrs y wlad wrth werthu ei asedau ar ystâd Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithio, fel y mae'n rhaid iddo, yn y meysydd hynny o'r farchnad lle mae'r gadwyn gyflenwi ar ei gwannaf neu ar ei mwyaf newydd, yng nghyd-destun cyflenwi pren ar gyfer adeiladu neu ar gyfer tanwydd, y ddau ohonynt yn farchnadoedd mwy newydd i'r sector. Mae rôl i'r Comisiwn Coedwigaeth fel rhan o'r sector cyhoeddus i geisio datblygu'r marchnadoedd hynny ac, yn y pen draw, i'r marchnadoedd hynny fod yn ddigon cryf i'r sector preifat weithio ynddynt, yn ogystal. Ond nid rôl y Comisiwn Coedwigaeth yw canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y marchnadoedd cryfach, gan fod yn rhaid iddo hefyd edrych ar y marchnadoedd mwy newydd lle mae potensial am allu economaidd gwell a chryfach a chreu incwm o ystâd coetir Cymru.

Y Llywydd: Galwaf Mick Bates—ar y pwnc coedwigaeth.

Mick Bates: Coedwigaeth yn wir. Mae'n swnio bron fel fy mod ar fin gwneud datganiad. Weinidog, amser maith yn ôl, cynhaliodd eich Llywodraeth a'r Llywodraeth flaenorol arolwg o dir y Comisiwn Coedwigaeth i edrych ar ardaloedd y gellid eu defnyddio ar gyfer tai fforddiadwy. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud yn natblygiad y tir hwnnw ar gyfer tai fforddiadwy, gan fod fy etholwyr yng Ngheinws, ger Machynlleth, wedi bod yn aros am chwe mlynedd i'r ymgecru cyfreithiol ddod i ben er mwyn

with building affordable houses for their community?

Elin Jones: There are some affordable housing developments on Forestry Commission land, and I have visited them. I visited a development in Dinas Mawddwy that was completed last year, I think, and other developments are on the way. I cannot comment on the Ceinws application, as a combination of factors may be affecting the lead-in time for that development. Those factors can often be related to planning issues, and you may be more familiar with the issues in that area than I am. It is a commitment of this Government's to continue to identify sites that are suitable for affordable housing. If any constituency or regional Member knows of potentially suitable sites in their areas, I suggest that they contact the Forestry Commission to develop those ideas. I also want to see communities identifying sites on publicly owned land that may be suitable for development, such as affordable housing.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 7, OAQ(3)1164(RAF), i'w ateb yn ysgrifenedig.

Y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol

8. Brian Gibbons: *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr.* OAQ(3)1167(RAF)

Elin Jones: I was given an unacceptably short period of time by the Department for Environment, Food and Rural Affairs to consider the issues and was, consequently, unable to consult fully on this matter in Wales. I have recently agreed to the abolition of the agricultural wages board, and I have requested that the national minimum wage legislative framework be extended to farm workers in Wales.

Brian Gibbons: We find ourselves in a very strange position in relation to the agricultural wages board, which has been with us for the best part of a century. I understand that a large number of employers in Wales and the

iddynt allu bwrw ymlaen ag adeiladu tai fforddiadwy ar gyfer eu cymuned?

Elin Jones: Mae ambell ddatblygiad tai fforddiadwy ar dir y Comisiwn Coedwigaeth, ac rwyf wedi ymweld â hwy. Ymwelais â datblygiad yn Ninas Mawddwy a gwblhawyd y llynedd, rwyf yn meddwl, ac mae datblygiadau eraill ar y ffordd. Ni allaf roi sylwadau ar gais Ceinws, oherwydd mae'n bosibl bod cyfuniad o ffactorau yn effeithio ar yr amser aros ar gyfer y datblygiad hwnnw. Yn aml iawn, gall y ffactorau hynny fod yn ymwneud â materion cynllunio, ac efallai y byddwch yn fwy cyfarwydd â'r materion yn y maes hwnnw na fi. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwmo i barhau i nodi safleoedd sy'n addas ar gyfer tai fforddiadwy. Os bydd unrhyw Aelod etholaeth neu Aelod rhanbarthol yn gwybod am safleoedd a allai fod yn addas yn eu hardaloedd, awgrymaf eu bod yn cysylltu â'r Comisiwn Coedwigaeth i ddatblygu'r syniadau hynny. Rwyf hefyd am weld cymunedau yn nodi safleoedd ar dir sy'n eiddo i'r cyhoedd a allai fod yn addas ar gyfer datblygiadau, fel tai fforddiadwy.

The Presiding Officer: Question 7, OAQ(3)1164(RAF), is transferred for written answer.

The Agricultural Wages Board

8. Brian Gibbons: *What discussions has the Minister had regarding the Agricultural Wages Board for England and Wales.* OAQ(3)1167(RAF)

Elin Jones: Cefais gyfnod annerbyniol o fyr gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i ystyried y materion ac nid oeddwn, o ganlyniad, yn gallu ymgynghori'n llawn ar y mater hwn yng Nghymru. Rwyf wedi cytuno'n ddiweddar i ddiddymu'r bwrdd cyflogau amaethyddol, ac rwyf wedi gofyn bod y fframwaith deddfwriaethol ar isafswm cyflog cenedlaethol yn cael ei ymestyn i weithwyr fferm yng Nghymru.

Brian Gibbons: Rydym yn ein cael ein hunain mewn sefyllfa ryfedd iawn o ran y bwrdd cyflogau amaethyddol, sydd wedi bod gyda ni am bron i ganrif. Rwyf yn deall bod nifer mawr o gyflogwyr yng Nghymru ac

workers' trade union are on the same side on this matter, with the Farmers' Union of Wales and Unite the Union opposing this particular action, while the National Farmers' Union supports it, as it always has. The current justification is that the minimum wage is a good enough basis on which people working in agriculture should be paid, and that reflects badly on the ambitions of the NFU for those people. I heard your answer to Joyce Watson, but I urge you to explore further whether there are opportunities to put a proportionate and affordable wage council structure in place in Wales, seeing as there is goodwill between many employers and the trade union on this issue.

Elin Jones: You heard the answer that I gave earlier, so I will not repeat how reluctant I was to take this decision or to be put in this position in the first place. As I said, DEFRA was clear that it would not devolve the budget to enable us to undertake this work in a comparable way, and so I have taken the decision that we will not set up a wages board in Wales, given the pressure that it would put on our budget to undertake that work. I understand that you possibly do not agree that that was the correct decision, but given the budgetary circumstances in which we, as a Government, find ourselves, setting up a new board at this stage would not have been an appropriate use of public funds, in my opinion. Having said that, I repeat that I did not want to be in this position in the first place. They say 'If it ain't broke, don't fix it', and I think that it is sad that we have ended up in this unfortunate position, given the legacy and history of the agricultural wages board.

Nick Ramsay: Minister, you will be pleased to know that you have the full support of the opposition party on this side of the Chamber. Unlike Brian Gibbons, we fully support your decision to support the coalition Government in abolishing the agricultural wages board. Listening to the final part of your answer, we also welcome your decision not to set up a separate body with similar jurisdiction to the AWB in Wales. As you have pointed out, due to no fault of your own or that of this party, but due to the previous UK Government, we

undebau llafur y gweithwyr ar yr un ochr yn y mater hwn, a bod Undeb Amaethwyr Cymru ac Unite the Union yn gwrthwynebu'r cam penodol hwn, ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn ei gefnogi, fel y mae wedi'i wneud bob amser. Y cyfiawnhad ar hyn o bryd yw bod yr isafswm cyflog yn sail ddigon da i dalu pobl sy'n gweithio ym myd amaeth, ac mae hynny'n adlewyrchu'n wael ar uchelgeisiau Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ar gyfer y bobl hynny. Clywais eich ateb i Joyce Watson, ond rwyf yn erfyn arnoch i archwilio ymhellach i weld a oes cyfleoedd i roi strwythur cyngor cyflog cymesur a fforddiadwy ar waith yng Nghymru, gan fod ewyllys da rhwng llawer o gyflogwyr a'r undeb llafur ar y mater hwn.

Elin Jones: Clywsoch yr ateb a roddais yn gynharach, felly nid wyf am ailadrodd pa mor gyndyn oeddwn i wneud y penderfyniad hwn nac i gael fy rhoi yn y sefyllfa hon yn y lle cyntaf. Fel y dywedais, mae DEFRA yn glir na fyddai'n datganoli'r gyllideb i'n galluogi i wneud y gwaith hwn mewn modd tebyg, ac felly rwyf wedi penderfynu na fyddwn yn sefydlu bwrdd cyflogau yng Nghymru, o ystyried y pwysau a fyddai'n ei roi ar ein cyllideb i wneud y gwaith hwnnw. Sylweddolaf nad ydych o bosibl yn cytuno mai dyna oedd y penderfyniad cywir, ond o ystyried yr amgylchiadau cyllidebol sy'n ein hwynebu, fel Llywodraeth, ni fyddai wedi bod yn briodol defnyddio'r cronfeydd cyhoeddus i sefydlu bwrdd newydd yn awr, yn fy marn i. Wedi dweud hynny, dywedaf eto nad oeddwn am fod yn y sefyllfa hon yn y lle cyntaf. Maent yn dweud 'Pam newid rhywbeth sy'n gweithio', ac rwyf yn credu ei bod yn drist ein bod yn y sefyllfa anffodus hon erbyn hyn, o ystyried gwaddol a hanes y bwrdd cyflogau amaethyddol.

Nick Ramsay: Weinidog, byddwch yn falch o wybod bod gennych gefnogaeth lawn yr wrthblaid ar yr ochr hon i'r Siambr. Yn wahanol i Brian Gibbons, rydym yn llwyr gefnogi eich penderfyniad i gefnogi Llywodraeth y glymblaid i ddiddymu'r bwrdd cyflogau amaethyddol. Wrth wrando ar ran olaf eich ateb, rydym hefyd yn croesawu eich penderfyniad i beidio â sefydlu corff ar wahân sydd ag awdurdodaeth debyg i'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru. Fel rydych wedi'i nodi, heb ddim

are in a difficult financial situation, which means that tough decisions have to be made. Given your correct decision in this regard and the fact that, within Wales, there are, and will continue to be, issues to do with farmers' wages, in the absence of a wages board—either UK-wide or within Wales—how is your Government proposing to provide support for farmers, ensure that the NFU's wishes are met with regards to wages, and ensure that farmers in Wales receive appropriate recompense for their work?

Elin Jones: I am pleased to receive your full support, which I take to mean that you also fully support my condemnation of the way in which the decision to abolish the agricultural wages board was taken by the Westminster Government, without proper consultation with this Government or the wider community and those workers directly affected by this. I reluctantly took this decision in the expectation that the national minimum wage legislation will be extended to cover agricultural workers in Wales and that there will be a seamless transition from the current agricultural wages board situation to the national minimum wage, without any gaps that would allow workers to be exploited.

Chris Franks: Minister, it is clear that you are disappointed that the UK coalition Government wishes to abolish the agricultural wages board, which clearly ensures fair wages for farm workers and labourers. Do you also share the concerns that the Conservatives and Lib Dems, in their zeal for making headlines and to be seen to be moving ahead with scrapping some cross-border quangos, are making decisions without adequate consultation and consideration of Welsh needs? It is very regrettable that the Welsh Government was not brought in to early discussions to allow it to make a contribution to this process. Does this not also illustrate the UK Government's cavalier attitude to a whole range of cross-border organisations and to the fact that a

bai arnoch chi na'r blaid hon, ond oherwydd Llywodraeth flaenorol y DU, rydym mewn sefyllfa ariannol anodd, sy'n golygu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd. O ystyried eich penderfyniad cywir yn y cyswllt hwn a'r ffaith bod materion yn codi, ac y byddant yn dal i godi, yng Nghymru, sy'n ymwneud â chyflogau ffermwyr, yn absenoldeb bwrdd cyflogau—naill ai ar draws y DU neu yng Nghymru—sut mae eich Llywodraeth yn bwriadu rhoi cymorth i ffermwyr, sicrhau bod dymuniadau Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn cael eu bodloni o ran cyflogau, a sicrhau bod ffermwyr yng Nghymru yn cael tâl priodol am eu gwaith?

Elin Jones: Rwyf yn falch o gael eich cefnogaeth lawn, ac rwyf yn cymryd eich bod yn golygu eich bod hefyd yn llwyr gefnogi fy nghondemniad o'r ffordd y gwnaed y penderfyniad gan Lywodraeth San Steffan i ddiddymu'r bwrdd cyflogau amaethyddol, heb ymgynghori'n briodol â'r Llywodraeth hon na'r gymuned ehangach a'r gweithwyr hynny yr effeithir arnynt gan hyn yn uniongyrchol. Cyndyn oeddwn i wneud y penderfyniad hwn ac rwyf yn disgwyl y bydd y ddeddfwriaeth isafswm cyflog cenedlaethol yn cael ei hymestyn i gynnwys gweithwyr amaethyddol yng Nghymru ac y bydd cyfnod pontio di-dor rhwng sefyllfa bresennol y bwrdd cyflogau amaethyddol a'r isafswm cyflog cenedlaethol, heb unrhyw fylchau a fyddai'n caniatáu unrhyw gam-fanteisio ar weithwyr.

Chris Franks: Weinidog, mae'n amlwg eich bod yn siomedig bod Llywodraeth glymblaid y DU yn dymuno diddymu'r bwrdd cyflogau amaethyddol, sy'n amlwg yn sicrhau cyflog teg i weithwyr fferm a gweision fferm. A ydych hefyd yn rhannu'r pryderon bod y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn eu hawch i wneud penawdau ac i gael eu gweld yn bwrw ymlaen â chael gwared ar ambell gwango traws-ffiniol, yn gwneud penderfyniadau heb ymgynghori'n ddigonol nac ystyriaeth ddigonol o anghenion Cymru? Mae'n anffodus dros ben na chafodd Llywodraeth Cymru fod yn rhan o drafodaethau cynnar er mwyn iddi gyfrannu at y broses. Onid yw hyn hefyd yn dangos agwedd ddi-hid Llywodraeth y DU at ystod gyfan o sefydliadau traws-ffiniol ac at y

decision in London can adversely affect the people of Wales?

Elin Jones: On cross-border matters or matters that affect Wales, it is important that appropriate time is allowed to consult before decisions are taken by DEFRA or any other UK Government departments so that the decision that is ultimately taken by the Westminster Government is properly informed by this Government and the views of the Welsh people. That is good government in practice. That has obviously not happened in the case of the agricultural wages board, and there may be other examples of that. The Cabinet Office is working to its own timetable, and we may be in danger of losing quite a few important organisations that do important work in Wales.

Llusernau Tsieineaidd

9. Sandy Mewies: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y problemau a achosir i ffermwyr ledled Cymru gan llusernau Tsieineaidd? OAQ(3)1148(RAF)*

Elin Jones: I have not received detailed evidence suggesting that Chinese lanterns compromise the health and welfare of livestock in Wales. However, potential risks have been recognised in the sense that inappropriate use of lanterns could cause fire damage to crops and stress to livestock.

Sandy Mewies: I do not want to be a spoilsport in any way, because I know that these lanterns are great fun at parties and weddings, but I have been informed that they can travel several miles and that there is no way to control where they land. As a consequence, they often fall on farmland, causing problems for livestock. You have told me that you have had no reports of similar incidents, Minister, but is it something that WAG should be further investigating?

2.20 p.m.

Elin Jones: I would urge any reports of any

ffaith y gall penderfyniad yn Llundain effeithio er gwaeth ar bobl Cymru?

Elin Jones: Ar faterion traws-ffiniol neu ar faterion sy'n effeithio ar Gymru, mae'n bwysig bod amser priodol yn cael ei ganiatáu i ymgynghori cyn i benderfyniadau gael eu gwneud gan DEFRA neu unrhyw adran arall Llywodraeth y DU fel bod y penderfyniad a wneir yn y pen draw gan Lywodraeth San Steffan yn cael ei lywio'n briodol gan y Llywodraeth hon a chan farn pobl Cymru. Dyna beth yw llywodraeth dda ar waith. Yn amlwg, nid yw hyn wedi digwydd yn achos y bwrdd cyflogau amaethyddol, ac efallai bod enghreifftiau eraill o hynny. Mae Swyddfa'r Cabinet yn gweithio i'w hamserlen ei hun, a gallwn fod mewn perygl o golli amryw o sefydliadau pwysig sy'n gwneud gwaith pwysig yng Nghymru.

Chinese Lanterns

9. Sandy Mewies: *Will the Minister make a statement on the problems caused to farmers across Wales by Chinese lanterns? OAQ(3)1148(RAF)*

Elin Jones: Nid wyf wedi derbyn tystiolaeth fanwl sy'n awgrymu bod llusernau Tsieineaidd yn peryglu iechyd a lles da byw yng Nghymru. Fodd bynnag, mae risgiau posibl wedi cael eu cydnabod o ran bod defnyddio llusernau mewn modd amhriodol yn gallu achosi difrod tân i gnydau a thralod i dda byw.

Sandy Mewies: Nid oes arnaf eisiau difetha hwyl neb o gwbl, oherwydd rwyf yn gwybod bod llawer o hwyl i'w gael gyda'r llusernau hyn mewn partiön a phriodasau, ond rwyf wedi cael gwybod eu bod yn gallu teithio sawl milltir ac nad oes modd rheoli lle maent yn glanio. O ganlyniad, maent yn aml yn syrthio ar dir fferm, gan achosi problemau i'r da byw. Rydych wedi dweud wrthyf nad ydych wedi cael dim adroddiadau am ddigwyddiadau tebyg, Weinidog, ond a yw hyn yn rhywbeth y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn ymchwilio ymhellach iddo?

Elin Jones: Byddwn yn annog unrhyw un i

welfare implications on livestock or other animals to be made to the Assembly Government. Discussions are being held with the makers of these lanterns to ensure that they are biodegradable, which is another issue of concern, and to look at how the lanterns can be manufactured without wire components. Those discussions need to progress, but I would urge that any incidents of animals being hurt by Chinese lanterns be reported to the local authorities or to us directly as a Government.

Angela Burns: I am really surprised, Minister, that you have not had many representations, given that, for example, the Women's Food and Farming Union's north-east Wales branch is out on lantern patrols because of the problems that they have had, Dr Mark Cooper, senior scientific officer with the farm animal science department of the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals, says that the lanterns can pose a serious risk to cattle, and farmers are calling for a ban on Chinese lanterns. My concern is that wire will land in fields and be harvested into animal feeds and ingested by animals. Animal feeds containing wire will obviously have appalling consequences. Like Sandy Mewies, I do not want to be a spoilsport—the lanterns are fun to see—but there has to be a time and a place for them. They also have other consequences; they have been mistaken for distress flares, and coastguards have complained, saying that their incident rate has increased. I know that that is slightly out of your remit, but in terms of farmland there is a huge movement of a whole list of organisations that are up in arms about this, and are calling for it to be monitored. What discussions have you had with health and safety people in county councils? I am surprised to hear that you have not had any representations, because I have had a fair few.

Elin Jones: I have not had direct representations on this issue, but that is not to say that I have not read of press releases and coverage on these issues. As I said in my answer to Sandy, if landowners and farmers have examples of animals that have been hurt

roi gwybod i Lywodraeth y Cynulliad am unrhyw oblygiadau i les da byw neu anifeiliaid eraill. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal gyda gwneuthurwyr y llusernau hyn i sicrhau eu bod yn fiogdiraddadwy, sy'n fater arall sy'n peri pryder, ac i edrych ar sut y gellir cynhyrchu'r llusernau heb weiar ynddynt. Mae angen datblygu'r trafodaethau hynny, ond byddwn yn annog bod yr awdurdodau lleol neu ni'n uniongyrchol fel Llywodraeth yn cael gwybod am unrhyw achosion o anifeiliaid sy'n cael eu hanafu gan lusernau Tsieineaidd.

Angela Burns: Rwyf wedi fy synnu'n fawr iawn, Weinidog, nad ydych wedi cael llawer o sylwadau, o ystyried bod, er enghraifft, cangen gogledd ddwyrain Undeb Bwyd a Ffermio'r Menywod ar batrôl llusernau oherwydd y problemau y maent wedi'u cael. Dywed Dr Mark Cooper, uwch swyddog gwyddonol gydag adran gwyddor anifeiliaid fferm y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid, fod y llusernau yn gallu achosi risg ddifrifol i wartheg, ac mae ffermwyr yn galw am wahardd y llusernau Tsieineaidd. Fy mhryder i yw y bydd weiar yn glanio mewn caeau ac yn cael ei gynaeafu mewn bwydydd anifeiliaid a'i lynu gan yr anifeiliaid. Bydd bwydydd anifeiliaid sy'n cynnwys weiar yn amlwg yn arwain at ganlyniadau ofnadwy. Fel Sandy Mewies, nid wyf am ddifetha hwyl neb—mae'n hwyl gweld y llusernau hyn—ond rhaid i hynny fod yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Maent hefyd yn arwain at ganlyniadau eraill; maent wedi cael eu camgymryd am fflerau gofid, ac mae gwylwyr y glannau wedi cwyno, gan ddweud bod eu cyfradd digwyddiadau wedi cynyddu. Gwn fod hyn y tu allan i'ch cylch gwaith rywfaint, ond o ran tir ffermio mae hyn wedi cythruddo rhestr gyfan o sefydliadau, ac maent yn galw am i'r sefyllfa gael ei monitro. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda phobl iechyd a diogelwch mewn cynghorau sir? Rwyf yn synnu clywed nad ydych wedi cael unrhyw sylwadau, gan fy mod wedi cael sawl un.

Elin Jones: Nid wyf wedi cael sylwadau uniongyrchol am y mater hwn, ond nid yw hynny'n golygu nad wyf wedi darllen y datganiadau yn y wasg a'r sylw a roddir i'r materion hyn. Fel y dywedais yn fy ateb i Sandy, os oes gan dirfeddianwyr a ffermwyr

by these wire lanterns, it would be useful for me to know of those direct examples. As I said in my original answer, I am concerned that there are potential effects from the use of these lanterns as they currently exist and we need to monitor that, as you have suggested. We also need to work with the manufacturers, so that we are not complete spoilsports, to see whether there are ways of manufacturing these lanterns without wire components and so that they are fully biodegradable.

enghreifftiau o anifeiliaid sydd wedi cael eu hanafu gan y llusernau weiar hyn, byddai'n gymorth imi gael gwybod am yr enghreifftiau uniongyrchol hynny. Fel y dywedais yn fy ateb gwreiddiol, rwyf yn pryderu bod effeithiau posibl yn sgîl defnyddio'r llusernau hyn fel y maent ar hyn o bryd, ac mae angen inni fonitro hynny, fel rydych wedi'i awgrymu. Mae angen inni hefyd weithio gyda'r cynhyrchwyr, fel nad ydym yn difetha hwyl neb yn llwyr, i weld a oes ffyrdd o gynhyrchu'r llusernau hyn heb weiar ynddynt ac fel eu bod yn gwbl fioddiraddadwy.

TB Gwartheg

10. Peter Black: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei strategaeth i fynd i'r afael â TB gwartheg. OAQ(3)1150(RAF)*

Elin Jones: We are continuing with our comprehensive approach to eradicate bovine TB. This approach was accepted by the European Commission in our TB eradication plan for 2010. My most recent announcements have concerned a consultation on TB in non-bovines and the culling of badgers in an intensive action area in west Wales. I will continue to provide updates as the programme develops.

Peter Black: As that consultation is ongoing in terms of the intensive action area why, as part of that consultation, did you not provide options to people responding to it in terms of vaccination of badgers? Also, when you come to completing the online consultation form, it is easy to type 'yes', but if you want to type 'no', you have to write an essay. Do you not think that that consultation is slightly biased in favour of the outcome that you want?

Elin Jones: Your question is presuming what outcome I want. I am not aware of the mechanism of responding to the consultation on the internet—I do not intend to use it myself—but I will look at that issue, and if I consider it to be unfair, I will change it.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, a ydych

Bovine TB

10. Peter Black: *Will the Minister make a statement on her strategy to tackle bovine TB. OAQ(3)1150(RAF)*

Elin Jones: Rydym yn parhau â'n dulliau cynhwysfawr i ddileu TB gwartheg. Derbyniwyd y dull hwn gan y Comisiwn Ewropeaidd yn ein cynllun dileu TB ar gyfer 2010. Mae fy nghyhoeddiadau mwyaf diweddar wedi ymwneud ag ymgynghori ynghylch TB mewn anifeiliaid heblaw gwartheg a difa moch daear mewn ardal triniaeth ddwys yn y gorllewin. Byddaf yn dal i roi'r wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r rhaglen ddatblygu.

Peter Black: Gan fod yr ymgynghoriad hwnnw yn mynd rhagddo o ran yr ardal triniaeth ddwys pam, fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, na wnaethoch roi dewisiadau i bobl a oedd yn ymateb iddo o ran brechu moch daear? Hefyd, pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen ymgynghori ar-lein, mae'n hawdd teipio 'ie', ond os ydych am deipio 'na', rhaid i chi ysgrifennu traethawd. Onid ydych yn meddwl bod yr ymgynghoriad hwnnw yn gwyro ychydig o blaid y canlyniad rydych am ei weld?

Elin Jones: Mae eich cwestiwn yn rhagdybio pa ganlyniad rwyf am ei weld. Nid wyf yn ymwybodol o'r mecanwaith i ymateb i'r ymgynghoriad ar y rhyngwrwyd—nid wyf yn bwriadu ei ddefnyddio fy hun—ond byddaf yn edrych ar y mater hwnnw, ac os wyf o'r farn ei fod yn annheg, byddaf yn ei newid.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, do you

yn cytuno ei bod yn rhyfedd o fyd pan fo Aelod Cynulliad o'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gwneud ei orau i wrthwynebu'r cynllun peilot i ddifa moch daear tra bo'i blaidd yn San Steffan yn ceisio hyrwyddo'r math hwnnw o gynllun peilot yn Lloegr? A allwch hefyd egluro'r propaganda sy'n cael ei gyflwyno gan yr Ymddiriedolaeth Moch Daear fod y ffigurau o ran TB mewn da byw yn lleihau, er fy mod yn deall bod y cynnydd dros 10 mlynedd yn amlwg o hyd?

Elin Jones: Yr wyf yn cytuno â chi, Rhodri Glyn—mae'n rhyfedd o fyd. O ran y duedd i TB fod ar gynnydd, mae hynny'n dal i fod yn wir yng Nghymru ac mae'n arbennig o wir yn yr ardal yr ydym wedi ei dynodi ar gyfer y rhaglen difa moch daear. Dyna pam yr ydym yn awr yn ystyried gorfod cymryd y camau hynny i waredu'r clefyd hwn, nid yn unig o'r gwartheg yn yr ardal honno ond hefyd o fywyd gwyllt, fel y gallwn waredu'r clefyd yn ei gyfanrwydd yn y pen draw.

William Graham: Minister, I restate the Conservative benches' support for the policy that you have tried to implement so well, and I trust that the pilot scheme will be entirely effective and provide the necessary evidence to carry through the effective eradication of this appalling disease.

Elin Jones: Thank you for your support on this matter, and for your consistency as a political party in that support.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Gweinidog am—[*Torri ar draws.*]

Order. You know how much I deplore the continuation of question time by other means.

agree that it is odd that a Liberal Democrat Assembly Member is doing his best to oppose the pilot badger cull while his party at Westminster is trying to promote a similar pilot scheme in England? Can you also explain the propaganda that is being presented by the Badger Trust with figures showing a reduction in bovine TB, when it is my understanding that the increase shown over 10 years is still evident?

Elin Jones: I agree with you, Rhodri Glyn—it is odd. On the upward trend for TB, that is still true in Wales and is particularly true in the area that we have designated for the badger cull. That is why we are now looking at having to take those steps to eradicate the disease, not only from cattle in that area but also in wildlife, so that we can ultimately eradicate the disease in its entirety.

William Graham: Weinidog, rwyf yn ailddatgan cefnogaeth meinciau'r Ceidwadwyr i'r polisi yr ydych wedi ceisio ei weithredu mor dda, a hyderaf y bydd y cynllun peilot yn gwbl effeithiol ac yn darparu'r dystiolaeth angenrheidiol i gyflawni'r gwaith o ddileu'r clefyd ofnadwy hwn yn effeithiol.

Elin Jones: Diolch ichi am eich cefnogaeth ar y mater hwn, ac am eich cysondeb fel plaid wleidyddol yn y gefnogaeth honno.

The Presiding Officer: Thank you, Minister, for—[*Interruption.*]

Trefn. Rydych yn gwybod faint rwyf yn anghymeradwyo pan fydd pethau eraill yn ymestyn y sesiwn cwestiynau.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Questions to Minister for Environment, Sustainability and Housing

Asiantaeth yr Amgylchedd

1. Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith Asiantaeth yr Amgylchedd yn sir Gaerfyrddin.
OAQ(3)1422(ESH)

Environment Agency

1. Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on the work of the Environment Agency in Carmarthenshire.
OAQ(3)1422(ESH)

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): Environment Agency Wales is involved in a wide range of work delivering environmental improvements and protection for communities in Carmarthenshire. The agency is also engaged in partnership working with other public sector bodies in the county.

Helen Mary Jones: As a result of correspondence that I have sent you, among other things, you will be aware that the Environment Agency has another important aspect to its work in Carmarthenshire, and that is the Environment Agency laboratory, which currently undertakes work for the Environment Agency across England and Wales, and which also takes paid work from the Irish Government. You will be aware that there is a potential threat to reduce its capacity from the Environment Agency laboratory service in England. If you and your colleague the Minister for Rural Affairs go down the road of developing one environmental body for the whole of Wales, this laboratory could be a valuable resource and could potentially generate income, because it is able to do work on an international basis. I am obviously concerned about the risk to these skilled jobs in my constituency, but I am also concerned about the loss of this potential resource for a new environmental body for Wales. Will you have discussions with your colleague Elin Jones to see whether it would be appropriate for you to make representations together to the Environment Agency laboratory service on an England and Wales basis, and ask it to suspend any plans to reduce the work undertaken in Llanelli until such time as you and she have plans to consider the future of environment bodies in Wales in the longer term? Otherwise, I fear that we will have to try to recreate this resource when we have one available that we could protect.

Jane Davidson: The National Laboratory Service, which currently manages the Llanelli laboratory, is currently looking to take some aspects of the monitoring role away from spring of next year. I am concerned about this. I will be having one of my regular conversations with the chair of

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Tai (Jane Davidson): Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn cymryd rhan mewn ystod eang o waith yn darparu gwelliannau amgylcheddol a diogelwch ar gyfer cymunedau yn sir Gaerfyrddin. Mae'r asiantaeth hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff sector cyhoeddus eraill yn y sir.

Helen Mary Jones: O ganlyniad i ohebiaeth rwyf wedi'i hanfon atoch, ymhlith pethau eraill, byddwch yn ymwybodol bod gan Asiantaeth yr Amgylchedd agwedd bwysig arall i'w waith yn sir Gaerfyrddin, sef labordy Asiantaeth yr Amgylchedd, sydd ar hyn o bryd yn gwneud gwaith i Asiantaeth yr Amgylchedd ar draws Cymru a Lloegr, ac sydd hefyd yn cael gwaith cyflogedig gan Lywodraeth Iwerddon. Byddwch yn ymwybodol bod bygythiad posibl i leihau ei allu yn sgîl gwasanaeth labordy Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr. Os ydych chi a'ch cyd-Aelod, y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn bwriadu datblygu un corff amgylcheddol ar gyfer Cymru gyfan, gallai'r labordy hwn fod yn adnodd gwerthfawr a gallai gynhyrchu incwm, gan ei fod yn gallu gwneud gwaith ar lefel ryngwladol. Yn amlwg rwyf yn bryderus ynghylch y risg i'r swyddi medrus hyn yn fy etholaeth, ond rwyf hefyd yn poeni am golli'r adnodd posibl hwn ar gyfer corff amgylcheddol newydd i Gymru. A wnewch chi gynnal trafodaethau gyda'ch cyd-Aelod Elin Jones i weld a fyddai'n briodol ichi wneud sylwadau gyda'ch gilydd i wasanaeth labordy Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Cymru a Lloegr, a gofyn iddo atal unrhyw gynlluniau i leihau'r gwaith a wneir yn Llanelli hyd nes y bydd gennych chi a hithau gynlluniau i ystyried dyfodol cyrff amgylcheddol yng Nghymru yn y tymor hwy? Fel arall, mae arnaf ofn y bydd yn rhaid inni geisio ail-greu'r adnodd hwn pan mae gennym un yn barod y gallem ei ddiogelu.

Jane Davidson: Mae'r Gwasanaeth Labordy Cenedlaethol, sydd yn rheoli labordy Llanelli ar hyn o bryd, yn bwriadu cael gwared ar agweddau ar y rôl fonitro o dymor y gwanwyn y flwyddyn nesaf ymlaen. Mae hyn yn peri pryder imi. Byddaf yn cael un o'm sgysiau rheolaidd gyda chadeirydd

the Environment Agency next week, and I will raise your concerns and ask him to ensure that what we do in the outcome of the natural environment framework consultation is factored in to the fact that the Llanelli laboratory is the only laboratory in Wales in the Environment Agency family. I will also continue discussions with Elin Jones with regard to ensuring that we can support such a laboratory in Wales on the delivery of greater outcomes following that consultation.

2.30 p.m.

Angela Burns: Earlier in the year, following the Sustainability Committee's inquiry into flooding, you agreed to conduct a trial of a single point of contact for advice and information on flood risk over the summer. Last night, we held the Flood Awareness Week welly boot event in the Senedd. I am delighted with the progress that has been made by the Environment Agency, particularly on flood alleviation work in Carmarthenshire, in places such as Llanddowror and St Clear's. However, could you please update the Assembly as to the success of the single agency trial over the summer, and your future plans to take forward this recommendation?

Jane Davidson: The importance of holding any kind of pilot scheme is to test whether there are any elements that need to be teased out further, prior to a greater roll-out. As you know, we were looking initially at trying to roll this out more widely in the autumn of this year. However, it turns out that there are some issues in the context of the management functions and data of Dŵr Cymru, which are extremely important for the roll-out. I understand that we can now say with confidence that we will be taking it forward in the early part of next year. However, I am happy to write to you with further details. This Government maintains its commitment to the roll-out, and I am glad that the work that you were able to do with the Environment Agency yesterday will continue to bring these important flooding issues to a wider audience.

Asiantaeth yr Amgylchedd yr wythnos nesaf, a byddaf yn codi eich pryderon ac yn gofyn iddo sicrhau bod yr hyn rydym yn ei wneud yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad fframwaith amgylchedd naturiol yn cael ei gynnwys yn y ffaith mai labordy Llanelli yw'r unig labordy yng Nghymru yn rheulu Asiantaeth yr Amgylchedd. Byddaf hefyd yn parhau i drafod gydag Elin Jones i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi labordy o'r fath yng Nghymru i gyflawni canlyniadau gwell yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw.

Angela Burns: Yn gynharach yn y flwyddyn, yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i lifogydd, gwnaethoch gytuno i dreialu un pwynt cyswllt ar gyfer cyngor a gwybodaeth am risg llifogydd dros yr haf. Neithiwr, cynhaliwyd digwyddiad esgidiau glaw Wythnos Ymwbyddiaeth ynghylch Llifogydd yn y Senedd. Rwyf wrth fy modd gyda'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan Asiantaeth yr Amgylchedd, yn enwedig ar waith lliniaru llifogydd yn sir Gaerfyrddin, mewn lleoedd fel Llanddowror a Sanclêr. Fodd bynnag, a wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad ynghylch llwyddiant y treial un asiantaeth yn ystod yr haf, a'ch cynlluniau yn y dyfodol i fwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn?

If you are a member of a local authority and you think that something might be a good idea, then of course you would want it to apply to Wales, and we certainly would if we thought it appropriate. I have therefore asked officials to come together so that we can decide the best way forward for us in Wales. I suppose that, currently, we are restricted, inasmuch as we try to use licensing and regulation, and in this case there is an attempt to use planning law. It does not give us the opportunity to take the holistic approach that we should perhaps take to issues such as this.

Janet Ryder: In that case, would you not agree that the best solution to this would be a 'yes' vote in the referendum, as that would give this place full legislative powers over the private rented sector and enable the Minister for housing to deal with the matter holistically?

Jocelyn Davies: Perfect. [*Laughter.*] You have come in perfectly at that point. If we had all the powers that we need over the private rented sector, you would not need to use a mix of these other things, which there is a tendency to do. It would then be for the Assembly to decide the best way forward in

Mark; byddai pob un ohonom yn cytuno ein bod am fynd i'r afael â landlordiaid gwael ac annog landlordiaid da. Ar gyfer tai amlfeddiannaeth, yr hyn y mae arnom ei eisiau yw rheoli da a safonau da ar gyfer y tenantiaid.

Sonloch am Wrecsam. Rwyf yn credu mai Aelod dros Wrecsam a gododd y posibilrwydd o ddefnyddio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 2010, a byddai angen i unrhyw un sy'n bwriadu troi unrhyw eiddo yn dŷ amlfeddiannaeth gofrestru newid o dan y dosbarthiadau defnydd neu gael caniatâd cynllunio. Roedd hyn yn seiliedig ar yr awgrym y gallai hyn ddigwydd yn Lloegr. Wrth gwrs, mae Llywodraeth arall mewn grym yno erbyn hyn, ac nid yw'n ymddangos fel petai hynny'n mynd i ddigwydd yn Lloegr erbyn hyn, felly nid oes gennyf syniad sut y gallem werthuso a fyddai hynny'n beth da neu beidio.

Os ydych yn aelod o awdurdod lleol ac yn meddwl y gallai rhywbeth fod yn syniad da, yna, wrth gwrs, byddech am ei weld yn gymwys i Gymru, a byddem yn sicr yn meddwl hynny pe byddem yn credu ei fod yn briodol. Rwyf felly wedi gofyn i swyddogion ddod at ei gilydd er mwyn inni benderfynu ar y ffordd orau ymlaen i ni yng Nghymru. Mae'n debyg, ar hyn o bryd, ein bod wedi ein cyfyngu, o ran ceisio defnyddio trwyddedu a rheoleiddio, ac yn yr achos hwn mae ymgais i ddefnyddio cyfraith cynllunio. Nid yw'n rhoi cyfle inni ddefnyddio'r dull cyfannol y dylem efallai ei ddefnyddio wrth drafod materion fel hyn.

Janet Ryder: Felly, oni fyddech yn cytuno mai'r ateb gorau i hyn fyddai pleidlais 'ie' yn y refferendwm, gan y byddai hynny'n rhoi pwerau deddfu llawn dros y sector rhentu preifat ac yn galluogi'r Gweinidog Tai i ddelio â'r mater mewn modd cyfannol?

Jocelyn Davies: Perffaith. [*Chwerthin.*] Rydych wedi codi'r pwynt ar adeg berffaith. Pe byddem yn cael yr holl bwerau y mae eu hangen arnom dros y sector rhentu preifat, ni fyddai angen ichi ddefnyddio cymysgedd o'r pethau eraill hyn, lle mae tuedd i wneud hynny. Y Cynulliad wedyn fyddai'n

proposing legislation. Let us hope that we get a 'yes' vote in the referendum next year.

penderfynu ar y ffordd orau ymlaen wrth gynnig deddfwriaeth. Gadewch inni obeithio y cawn bleidlais 'ie' yn y refferendwm y flwyddyn nesaf.

Swyddogion Galluogi Tai Gwledig

Rural Housing Enablers

6. Mark Isherwood: *A wnaiiff y Gweinidog ddatganiad am Swyddogion Galluogi Tai Gwledig yng Nghymru. OAQ(3)1402(ESH)*

6. Mark Isherwood: *Will the Minister make a statement on Rural Housing Enablers in Wales. OAQ(3)1402(ESH)*

Jocelyn Davies: The rural housing development fund was established in 2008. A sum of £150,000 is paid annually to support a network of independent rural housing enablers working in rural Wales. Since their establishment, they have been directly responsible for the development of over 100 affordable homes.

Jocelyn Davies: Sefydlwyd y gronfa datblygu tai gwledig yn 2008. Telir swm o £150,000 yn flynyddol i gefnogi rhwydwaith o swyddogion galluogi tai gwledig annibynnol sy'n gweithio yng nghefn gwlad Cymru. Ers eu sefydlu, maent wedi bod yn uniongyrchol gyfrifol am ddatblygu dros 100 o gartrefi fforddiadwy.

Mark Isherwood: Concerns have been raised with me—I will not say by whom—that rural housing enablers often encounter barriers and resistance to the work that they are trying to do, and that is often because local communities, at community council, town council or county council level, resist any recognition of a local housing need and the fact that there are people who cannot afford to access housing in their own communities. Without their co-operation, rural housing enablers cannot take forward the work that they are seeking to do. What action can you take to enable the enablers to undertake local affordable housing needs analyses, to gather the evidence before going to the local, community or county council? How can we better inform planning officers and county councillors of the opportunities and benefits that exist with rural exception sites and so on, especially in light of the recent legal ruling given to Gwynedd councillors in relation to section 106 agreements?

Mark Isherwood: Mynegwyd pryderon wrthyf—ni wnaf ddweud gan bwy—fod swyddogion galluogi tai gwledig yn aml yn wynebu rhwystrau a gwrthwynebiad i'r gwaith y maent yn ceisio ei wneud, ac mae hynny'n aml yn digwydd oherwydd bod cymunedau lleol, ar lefel cyngor cymuned, cyngor tref neu gyngor sir, yn gwrthod unrhyw gydnabyddiaeth o angen lleol am dai a'r ffaith na all rai fforddio i gael mynediad at dai yn eu cymunedau eu hunain. Heb eu cydweithrediad, ni all swyddogion galluogi tai gwledig fwrw ymlaen â'r gwaith y maent yn ceisio ei wneud. Pa gamau y gallwch eu cymryd i alluogi'r swyddogion galluogi i gynnal dadansoddiadau o anghenion tai fforddiadwy lleol, i gasglu'r dystiolaeth cyn mynd gerbron y cyngor lleol, cyngor cymuned neu gyngor sir? Sut y gallwn hysbysu swyddogion cynllunio a chynghorwyr sir yn well am y cyfleoedd a'r manteision sy'n bodoli gyda safleoedd eithriadau gwledig ac yn y blaen, yn enwedig yn sgîl y dyfarniad cyfreithiol diweddar a roddwyd i gynghorwyr Gwynedd mewn perthynas ag adran 106?

Jocelyn Davies: Rural housing enablers operate independently, and they are to be seen as independent and honest brokers within their areas. Their remit is to work with communities to identify local need, to raise awareness of housing pressures in rural areas, and to work with planning and housing authorities, community landowners, housing

Jocelyn Davies: Mae swyddogion galluogi tai gwledig yn gweithredu'n annibynnol, a dylid eu gweld fel broceriaid annibynnol a gonest yn eu hardaloedd. Eu cylch gwaith yw gweithio gyda chymunedau i nodi angen lleol, i godi ymwybyddiaeth o bwysau tai mewn ardaloedd gwledig, ac i weithio gydag awdurdodau cynllunio a thai, tiffeddianwyr

associations and so on to look for suitable sites and then to support local authorities where necessary to speed up the provision of affordable homes, and to contribute to strategies and so on at a local, regional, and national level. They have been put in place to break down the barriers that you mentioned, and they deserve our support in the work that they do. In some areas, it can take many years from the time when they start work on a specific project to the time when those properties become homes. If you find that there are specific matters that enablers in your region are having difficulties with, I would be very pleased to hear about them. I meet rural housing enablers regularly, and even though they often say that they have a very difficult task to do, I have not heard of any specific barriers. If anything is identified to me that I can do something about, I will do so.

Rhodri Glyn Thomas: Ddirprwy Weinidog, mae'n amlwg o'r hyn y mae Mark Isherwood a chithau wedi ei ddweud fod y rhwydweithiau swyddogion galluogi tai gwledig hyn yn cyflawni gwaith hollbwysig. A allwch ddweud wrthyf faint o'r rhwydweithiau hyn oedd yn bodoli pan ddaethoch yn Ddirprwy Weinidog yn 2007, a faint sy'n bodoli erbyn hyn?

Jocelyn Davies: I do not know how many there were in 2002, but there were four when I became a Deputy Minister and now there are 10, covering Anglesey, Gwynedd, Ceredigion, Conwy and Denbighshire, rural Wrexham, Flintshire, Carmarthenshire, Pembrokeshire, Monmouthshire and Powys. This network of 10 is to be welcomed and I am told that they are directly responsible for the development of 110 affordable homes. I will be pleased to write to you, Rhodri Glyn, to give you the contact details of the enablers in your region, and I am sure that they would be delighted to let you know of their activities.

Ynni Adnewyddadwy

7. **Sandy Mewies:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r

cymunedol, cymdeithasau tai ac yn y blaen i chwilio am safleoedd addas ac yna i gefnogi awdurdodau lleol lle bo angen i gyflymu'r broses o ddarparu cartrefi fforddiadwy, ac i gyfrannu at strategaethau ac yn y blaen ar lefel leol, ranbarthol, a chenedlaethol. Maent wedi cael eu rhoi ar waith i chwalu'r rhwystrau a grybwyllwyd gennych, ac maent yn haeddu ein cefnogaeth yn y gwaith a wnânt. Mewn rhai ardaloedd, gall gymryd blynyddoedd lawer o'r adeg y byddant yn dechrau gweithio ar brosiect penodol at yr adeg y bydd yr eiddo yn dod yn gartrefi. Os byddwch yn gweld bod swyddogion galluogi yn eich rhanbarth yn cael anawsterau gyda materion penodol, byddwn yn falch iawn o glywed amdanynt. Rwyf yn cwrdd â swyddogion galluogi tai gwledig yn rheolaidd, ac er eu bod yn dweud yn aml fod ganddynt dasg anodd iawn i'w gwneud, nid wyf wedi clywed am rwystrau penodol. Os caf wybod am unrhyw beth y gallaf wneud rhywbeth yn ei gylch, byddaf yn gwneud hynny.

Rhodri Glyn Thomas: Deputy Minister, it is obvious from what both Mark Isherwood and you have said that these networks of rural housing enablers are undertaking crucial work. Can you tell me how many of these networks existed when you became Deputy Minister in 2007, and how many exist today?

Jocelyn Davies: Nid wyf yn gwybod faint oedd yn 2002, ond roedd pedwar yn bodoli pan ddeuthum yn Ddirprwy Weinidog ac erbyn hyn mae 10, yn gwasanaethu Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion, Conwy a sir Ddinbych, ardal wledig Wrecsam, sir y Fflint, sir Gaerfyrddin, sir Benfro, sir Fynwy a Phowys. Croesewir y 10 rhwydwaith hyn a dywedir wrthyf eu bod yn uniongyrchol gyfrifol am ddatblygu 110 o gartrefi fforddiadwy. Byddaf yn falch o ysgrifennu atoch, Rhodri Glyn, i roi manylion cyswllt y swyddogion galluogi yn eich rhanbarth, ac rwyf yn siŵr y byddent yn falch iawn o roi gwybod ichi am eu gweithgareddau.

Renewable Energy

7. **Sandy Mewies:** What is the Welsh Assembly Government doing to promote the

defnydd o ynni adnewyddadwy.
OAQ(3)1390(ESH)

take up of renewable energy.
OAQ(3)1390(ESH)

Jane Davidson: ‘A Low Carbon Revolution’ sets out the actions that we are taking to accelerate the deployment of low-carbon renewable technologies in Wales. Practical measures include the Ynni’r Fro programme, which supports investment in community-scale energy generation projects and gives practical and financial support for installers to gain the microgeneration certification scheme accreditation.

Jane Davidson: Mae ‘Chwyldro Carbon Isel’ yn nodi'r camau gweithredu yr ydym yn eu cymryd i gyflymu'r broses o ddefnyddio technolegau adnewyddadwy carbon isel yng Nghymru. Mae camau ymarferol yn cynnwys y rhaglen Ynni'r Fro, sy'n cefnogi buddsoddi mewn prosiectau cynhyrchu ynni ar raddfa gymunedol ac yn rhoi cymorth ymarferol ac ariannol i osodwyr ennill achrediad y cynllun tystysgrifau microgynhyrchu.

Sandy Mewies: You announced that new package of support to help Welsh businesses recently, and it is extremely important that we keep on encouraging the take-up of renewable energy. Do you, therefore, agree that we have to continue promoting these schemes to keep Wales at the top of the tree when it comes to renewable energy?

Sandy Mewies: Cyhoeddoch y pecyn newydd hwnnw o gymorth i helpu busnesau Cymru yn ddiweddar, ac mae'n hynod bwysig ein bod yn parhau i annog pobl i ddefnyddio ynni adnewyddadwy. A ydych yn cytuno, felly, bod yn rhaid inni barhau i hyrwyddo'r cynlluniau hyn i sicrhau bod Cymru ar frig y goeden wrth sôn am ynni adnewyddadwy?

Jane Davidson: Yes, I do; once the feed-in tariffs came in, there was an immense opportunity for small Welsh businesses, but only those that were fully accredited. We know that the accreditation process is expensive and time consuming for what are, in many cases, single-person operations. By operating this microgeneration certification support scheme, we can now ensure that small and medium-sized enterprises based in Wales can access interest-free loans of up to £2,800 through the Carbon Trust. These enterprises will also benefit from a six-month period of grace before they have to pay back any of the loan amount. The loans can be used for accreditation for up to five different renewable energy technologies. The scheme has gone live today and I hope that all Members will take the opportunity to promote it locally, so that we can build up a large number of installers that are able to help customers benefit from feed-in tariffs. As I said, over 40 Welsh SMEs have already applied for support from the programme. The first meeting of the new Welsh installers' network will be taking place at the beginning of November.

Jane Davidson: Ydw, rwyf yn cytuno; ar ôl cyflwyno'r tariffiau cyflenwi trydan, cafwyd cyfleoedd enfawr i fusnesau bach Cymru, ond dim ond i'r rheini a oedd wedi'u hachredu'n llawn. Rydym yn gwybod bod y broses achredu yn ddud ac yn cymryd llawer o amser ar gyfer yr hyn sydd, mewn sawl achos, yn weithredoedd gan un person. Drwy weithredu'r cynllun cymorth hwn ar gyfer tystysgrifau microgynhyrchu, gallwn yn awr sicrhau bod busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn gallu cael gafael ar fenthyciadau di-log o hyd at £2,800 drwy'r Ymddiriedolaeth Garbon. Bydd y mentrau hyn yn elwa hefyd o gyfnod o chwe mis cyn bod yn rhaid iddynt dalu yn ôl unrhyw swm o'r benthyciad. Gellir defnyddio'r benthyciadau i achredu ar gyfer hyd at bum technoleg ynni adnewyddadwy wahanol. Mae'r cynllun yn weithredol o heddiw ymlaen a gobeithiaf y bydd pob Aelod yn manteisio ar y cyfle i'w hyrwyddo yn lleol, er mwyn inni allu cael nifer mawr o osodwyr sy'n gallu helpu cwsmeriaid i elwa o'r tariffiau cyflenwi trydan. Fel y dywedais, mae dros 40 o fusnesau bach a chanolig Cymru eisoes wedi gwneud cais am gymorth gan y rhaglen. Cynhelir cyfarfod cyntaf rhwydwaith gosodwyr newydd Cymru ddechrau mis Tachwedd.

Angela Burns: Minister, we all know that

Angela Burns: Weinidog, mae pob un

renewable energy has a vital role to play, and that renewables accounted for 5.5 per cent of the electricity generated in the UK last year, up from the 4.9 per cent in the previous year. I was interested to read in the Offshore Valuation Group's report, published in May 2010, that the offshore renewable energy industry could generate the same amount of electricity per year by 2050 as one billion barrels of oil, which is quite something. Could you update us on any plans that you may have for the promotion of offshore renewable energy during the remainder of the Assembly's term?

ohonom yn gwybod bod gan ynni adnewyddadwy rôl hanfodol i'w chwarae, a bod ynni adnewyddadwy wedi cyfrif am 5.5 y cant o'r trydan a gynhyrchwyd yn y DU y llynedd, wedi dringo o 4.9 y cant yn y flwyddyn flaenorol. Diddorol oedd darllen yn adroddiad y Grŵp Prisio ar y Môr, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2010, y gallai'r diwydiant ynni adnewyddadwy ar y môr gynhyrchu'r un faint o drydan y flwyddyn erbyn 2050 ag un biliwn casgen o olew, sy'n rhywbeth eithaf pwysig. A allech ddweud mwy wrthym am unrhyw gynlluniau sydd gennych ar gyfer hyrwyddo ynni adnewyddadwy ar y môr yn ystod gweddill tymor y Cynulliad?

3.10 p.m.

Jane Davidson: We continue to work very closely with the UK Government and the Crown Estates on offshore energy, particularly on proposals for installing very large wind turbines. We also have a marine renewable energy strategic framework, which is investigating offshore wind, wave and tidal stream energy, together with the potential for carbon capture and storage in Welsh territorial waters. That work has been taken forward expeditiously. The announcement on 4 March on the strategic environmental assessment for England and Wales marked a huge step forward, because we need that strategic environmental assessment before we can harness the vast potential energy from our seas and secure a renewable and low-carbon energy supply not only for Wales, but the UK.

Jane Davidson: Rydym yn parhau i weithio'n agos iawn gyda Llywodraeth y DU ac Ystadau'r Goron ar ynni ar y môr, yn enwedig ar gynigion ar gyfer gosod tyrbinau gwynt mawr iawn. Hefyd mae gennym fframwaith strategol ar ynni adnewyddadwy'r môr, sy'n ymchwilio i ynni gwynt ar y môr, ynni tonnau a llif y llanw, ynghyd â'r potensial ar gyfer dal a storio carbon yn nyfroedd tiriogaethol Cymru. Mae'r gwaith hwnnw wedi cael ei symud ymlaen yn ddi-oed. Roedd y cyhoeddiad ar 4 Mawrth ar yr asesiad amgylcheddol strategol ar gyfer Cymru a Lloegr yn gam mawr ymlaen, oherwydd mae angen yr asesiad amgylcheddol strategol arnom cyn y gallwn harneisio'r ynni potensial enfawr o'n moroedd, a sicrhau cyflenwad ynni adnewyddadwy a charbon isel ar gyfer Cymru, ac ar gyfer y DU hefyd.

Eiddo Gwag

8. Veronica German: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i ddelio â phroblem eiddo gwag yng Nghymru. OAQ(3)1420(ESH)*

Jocelyn Davies: We have been working with Shelter Cymru to provide help and support for local authorities on this issue, and we have recently published guidance that promotes best practice and encourages local authorities to use the extensive powers they already have to bring empty properties back

Empty Properties

8. Veronica German: *Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to deal with the problem of empty properties in Wales. OAQ(3)1420(ESH)*

Jocelyn Davies: Rydym wedi bod yn gweithio gyda Shelter Cymru i ddarparu cymorth a chefnogaeth i awdurdodau lleol ar y mater hwn, ac rydym wedi cyhoeddi canllawiau yn ddiweddar sy'n hyrwyddo arfer gorau ac yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio'r pwerau helaeth sydd eisoes

into use.

Veronica German: According to Shelter Cymru, nearly 100,000 people in Wales are waiting on lists for council and social housing. Meanwhile, there are around 26,000 privately owned homes lying empty in Wales. A survey by Shelter Cymru showed that 77 per cent of the Welsh public want to see the Government doing something about bringing those empty homes back into use. Will you commit to establishing an empty homes strategy to work proactively to bring those empty homes back into use, perhaps assisting councils and housing associations to borrow money to buy some of those properties, while at the same time penalising owners who leave homes languishing empty for decades, becoming a blight on the community?

Jocelyn Davies: You are quite right, Veronica, that empty properties can become a blight on the community and are a completely wasted resource when so many people are waiting for properties. You mentioned the estimate that there are over 20,000 empty properties in Wales. To put that into context, that is about 1.64 per cent. It is a small percentage, but, of course, it is a large number of properties, and all those people on housing waiting lists would love the opportunity to make use of those properties. The best practice guide that we have put together with Shelter was only published on 22 September and I would be very happy to send that to you. You will be able to see the whole range of things we can do. We have brought examples of best practice together. Best practice does not travel very well, even from one local authority to another, for some reason. We have provided some funding, and the housing LCO gave us powers over council tax on properties that are not the main residence, which would cover empty properties. However, that is a local government finance issue.

So, there is a range of things that we can do. We need to encourage some people to become landlords and to rent their properties out. Perhaps a small grant would encourage them to bring the property back into use,

ganddynt i sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio unwaith eto.

Veronica German: Yn ôl Shelter Cymru, mae bron 100,000 o bobl yng Nghymru yn aros ar restrau am dai cyngor a thai cymdeithasol. Yn y cyfamser, mae tua 26,000 o gartrefi preifat yn wag yng Nghymru. Roedd arolwg gan Shelter Cymru yn dangos bod 77 y cant o bobl Cymru am weld y Llywodraeth yn gwneud rhywbeth i sicrhau bod y cartrefi gwag hynny yn cael eu defnyddio unwaith eto. A wnewch chi ymrwmo i sefydlu strategaeth cartrefi gwag i weithio'n rhagweithiol i sicrhau bod y cartrefi gwag hyn yn cael eu defnyddio unwaith eto, efallai cynorthwyo cynghorau a chymdeithasau tai i gael benthyg arian i brynu rhai o'r eiddo hynny, a chosbi hefyd y perchnogion sy'n gadael cartrefi yn wag am ddegawdau, gan ddifetha cymunedau?

Jocelyn Davies: Rydych yn llygad eich lle, Veronica, fod eiddo gwag yn gallu difetha cymunedau ac maent yn wastraff llwyr o adnoddau pan mae cymaint o bobl yn aros am eiddo. Sonioch am yr amcangyfrif bod dros 20,000 o eiddo gwag yng Nghymru. I'w roi yn ei gyd-destun, mae hynny oddeutu 1.64 y cant. Mae'n ganran fach, ond, wrth gwrs, mae'n nifer mawr o eiddo, a byddai'r holl bobl hynny sydd ar restrau aros am dai yn falch iawn o'r cyfle i ddefnyddio'r eiddo hynny. Cafodd y canllaw ar arfer gorau yr ydym wedi'i gyd-lunio gyda Shelter ei gyhoeddi ar 22 Medi, a byddwn yn hapus iawn i'w anfon atoch. Byddwch yn gallu gweld yr ystod gyfan o bethau y gallwn ei wneud. Rydym wedi dod ag enghreifftiau o arfer gorau at ei gilydd. Nid yw arfer gorau yn cael ei drosglwyddo'n dda iawn, hyd yn oed o un awdurdod lleol i'r llall, am ryw reswm. Rydym wedi darparu rhywfaint o arian, a rhoddodd yr LCO ar dai bwerau inni dros y dreth gyngor ar eiddo nad ydynt yn brif breswylfeydd, a fyddai'n cynnwys eiddo gwag. Fodd bynnag, mae hynny'n fater sy'n ymwneud â chyllid llywodraeth leol.

Felly, mae amrywiaeth o bethau y gallwn ei wneud. Mae angen inni annog rhai i fod yn landlordiaid ac i roi eu heiddo ar rent. Efallai y byddai grant bach yn eu hannog i sicrhau bod yr eiddo yn cael ei ddefnyddio unwaith

particularly if they were supported in their landlord role. Some people just need to be reminded that they own a property somewhere. Believe me, local authorities tell me that they have to remind people that they own properties. So, there is a whole range of things that we can do, including the punitive measures that you have mentioned. We do not want properties left empty that could be providing a good, affordable home to someone.

William Graham: Deputy Minister, will you join me in commending Newport City Council's empty homes strategy? In 2008-09, of the 2,078 homes that had been empty for six months, 66 were restored to private ownership after council intervention. It is an innovative scheme that works extremely well and which has many of the attributes mentioned previously this afternoon.

Jocelyn Davies: Yes, you are quite right. I am aware of Newport council's empty homes strategy. It has some very good practice. The Welsh Government has provided funding for housing associations in that area to bring some of those empty properties back into use. One that I visited had been empty for something like 17 years and it was brought back into use and provided a good three-bedroom home for a young family. There is a great deal that can be done with a little bit of encouragement and, sometimes, a little bit of money. Of course, people should also not be allowed to leave those properties empty for many years.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 9, OAQ(3)1421(ESH), yn ôl.

Sbwriel

10. Val Lloyd: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i fynd i'r afael â sbwriel mewn parciau cyhoeddus yng Nghymru. OAQ(3)1386(ESH)*

Jane Davidson: The Welsh Assembly Government takes litter very seriously and is tackling the issue through education, partnership working and enforcement. We

eto, yn enwedig pe byddent yn cael cefnogaeth yn eu rôl fel landlord. Gydag ambell un, dim ond eu hatgoffa eu bod yn berchen ar eiddo yn rhywle sydd angen ei wneud. Credwch fi, mae awdurdodau lleol yn dweud wrthyf fod yn rhaid iddynt atgoffa pobl eu bod yn berchen ar eiddo. Felly, mae amrywiaeth eang o bethau y gallwn eu gwneud, gan gynnwys y mesurau cosbol rydych wedi'u crybwyll. Nid ydym am weld eiddo yn cael ei adael yn wag a allai fod yn gartref da a fforddiadwy i rywun.

William Graham: Dirprwy Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i gymeradwyo strategaeth cartrefi gwag Cyngor Dinas Casnewydd? Yn 2008-09, o blith y 2,078 o gartrefi a oedd wedi bod yn wag am chwe mis, cafodd 66 eu hadfer i berchnogaeth breifat ar ôl i'r cyngor ymyrryd. Mae'n gynllun arloesol sy'n gweithio'n hynod o dda ac mae ganddo lawer o'r priodoleddau a grybwyllwyd yn flaenorol y prynhawn yma.

Jocelyn Davies: Ydy, rydych yn llygad eich lle. Rwyf yn ymwybodol o strategaeth cartrefi gwag cyngor Casnewydd. Ynddo ceir arferion da iawn. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid i gymdeithasau tai yn yr ardal honno i sicrhau bod rhai o'r eiddo gwag hynny yn cael eu defnyddio unwaith eto. Pan ymwelais ag un eiddo, roedd wedi bod yn wag am rywbeth fel 17 mlynedd a sicrhawyd ei fod yn cael ei ddefnyddio unwaith eto gan roi cartref da tair ystafell wely i deulu ifanc. Mae llawer y gellir ei wneud gydag ychydig o anogaeth ac, weithiau, ychydig o arian. Wrth gwrs, ni ddylai pobl gael gadael yr eiddo hynny yn wag am flynyddoedd lawer ychwaith.

The Presiding Officer: Question 9, OAQ(3)1421(ESH), is withdrawn.

Litter

10. Val Lloyd: *Will the Minister provide an update on plans to combat litter in public parks in Wales. OAQ(3)1386(ESH)*

Jane Davidson: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd sbwriel o ddifrif ac yn ymdrin â'r mater drwy addysg, gweithio mewn partneriaeth, a gorfodaeth. Ar hyn o

currently fund a number of initiatives to reduce litter across Wales, including eco-schools, Tidy Towns, the local environment quality improvement projects grant scheme and Keep Wales Tidy's core funding.

Val Lloyd: Thank you, Minister, for that comprehensive reply. ASH Wales recently launched a campaign calling for a complete ban on smoking in public parks and children's playgrounds, citing the dangers of passive smoking. I am concerned about that, but I am also concerned about the damage that smoking-related litter is having on the environment, particularly in public parks and playgrounds. You mentioned Keep Wales Tidy in a different context, but recent research from it showed that cigarette butts can take up to 12 years to biodegrade. Smoking-related litter makes our parks and playgrounds look unattractive and uninviting, and it can cause health problems in young children and animals if ingested. I am sure that you share my belief that children should be entitled to a safe, smoke-free and clean environment, particularly when they are playing in a children's playground. You have detailed the broader measures, but are there any specific measures being taken to tackle smoking-related litter in public parks and playgrounds?

Jane Davidson: We welcome ASH Cymru's efforts to raise awareness of the dangers of smoking and the importance of reducing the risk of second-hand smoking around children's playgrounds and parks. We will be publishing a tobacco control action plan later this autumn and, as part of that, I understand that a group of people with expertise in tobacco control—consisting of health professionals, representatives of local government, the academic and voluntary sectors, as well as experts in workplace health and young people—will be looking at the issue of children and young people's exposure to tobacco smoke more generally, including in children's playgrounds and parks. It will help to advise the Welsh Assembly Government on the way forward.

bryd rydym yn ariannu nifer o fentrau i leihau sbwriel ar draws Cymru, gan gynnwys eco-ysgolion, Trefi Taclus, cynllun grantiau prosiectau gwella ansawdd yr amgylchedd lleol a chyllid craidd Cadwch Gymru'n Daclus.

Val Lloyd: Diolch, Weinidog, am yr ateb cynhwysfawr hwnnw. Yn ddiweddar, lansiodd ASH Cymru ymgyrch yn galw am waharddiad llwyr ar ysmegu mewn parciau cyhoeddus a meysydd chwarae i blant, gan nodi peryglon ysmegu goddefol. Rwyf yn poeni am hynny, ond rwyf hefyd yn poeni am y niwed y mae sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn ei gael ar yr amgylchedd, yn enwedig mewn parciau cyhoeddus a meysydd chwarae. Sonioch am Cadwch Gymru'n Daclus mewn cyd-destun gwahanol, ond roedd ymchwil ddiweddar ganddo yn dangos y gall bonion sigarêts gymryd hyd at 12 mlynedd i bydru. Mae sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmegu yn gwneud i'n parciau a'n meysydd chwarae edrych yn hyll ac yn anneniadol, a gall achosi problemau iechyd i blant ifanc ac anifeiliaid os cânt eu llyncu. Rwyf yn siŵr eich bod chithau'n credu hefyd y dylai plant gael amgylchedd diogel, di-fwg a glân, yn enwedig pan fyddant yn chwarae mewn maes chwarae i blant. Rydych wedi rhoi manylion y camau ehangach, ond a oes unrhyw gamau penodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmegu mewn parciau cyhoeddus a meysydd chwarae?

Jane Davidson: Rydym yn croesawu ymdrechion ASH Cymru i godi ymwybyddiaeth o beryglon ysmegu a phwysigrwydd lleihau'r risg o ysmegu ail-law o amgylch parciau a meysydd chwarae i blant. Byddwn yn cyhoeddi cynllun gweithredu rheoli tybaco yn ddiweddarach yr hydref hwn ac, fel rhan o hynny, rwyf yn deall y bydd grŵp o bobl sydd ag arbenigedd mewn rheoli tybaco—yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, cynrychiolwyr o lywodraeth leol, y sectorau academiaidd a gwirfoddol, yn ogystal ag arbenigwyr mewn iechyd yn y gweithle a phobl ifanc—yn edrych ar y mater yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn dod i gysylltiad â mwg tybaco yn fwy cyffredinol, gan gynnwys mewn meysydd chwarae i blant a pharciau. Bydd yn helpu i gynghori Llywodraeth Cynulliad

Cymru ynghylch y ffordd ymlaen.

In the context of the amount of litter increasing—and we have seen that from the street surveys, not least since the smoking ban was introduced—we continue to work with Keep Wales Tidy and the local authorities to look at ways of collecting litter expeditiously. Often, one problem is that there are no receptacles for cigarette litter in places where people would want to smoke. We have to be much clearer about preventing the litter in the first place by providing receptacles to ensure that responsible smokers can smoke responsibly.

David Melding: Our beaches are among our greatest glories. In fact, some of the finest beaches in the world, certainly in Europe, are on the Welsh coast. However, there have been disturbing stories that people are visiting Wales with the sole intention of having wild parties on Welsh beaches and, although people should know better, they leave lots of litter here. Do you not think that we should be as hard on these people as we are on those who live in our own communities and who drop litter casually? It is simply not good enough to come and treat a natural glory, like Welsh beaches, in such a way.

Jane Davidson: I do not think that anyone at all should be littering the environment in a casual way. That is a fundamental message that we would all support. When people are using Welsh beaches responsibly, by engaging with the local authority over any events, I hope that the issue of how litter at those events is dealt with is fully taken into account. It is interesting to note that, although we tend to feature pretty poorly on the Marine Conservation Society's surveys of litter on our beaches because of our prevailing wind and tides, the actual litter from land in Wales—that is, the litter created by Welsh people—has reduced substantially and is, in fact, lower than that in most other parts of the UK. Therefore, we can pay tribute to the huge voluntary activity carried out by various third sector organisations in support of that agenda. It is also important to say that, if anyone volunteers to hold a major event, they should also make sure that full

Yng nghyd-destun y swm cynyddol o sbwriel—ac rydym wedi gweld hynny o'r arolygon stryd, yn enwedig ers cyflwyno'r gwaharddiad ar ysmegu—rydym yn parhau i weithio gyda Cadwch Gymru'n Daclus a'r awdurdodau lleol i edrych ar ffyrdd o gasglu sbwriel yn gyflym. Un broblem, yn aml, yw nad oes dim cynwysyddion ar gyfer sbwriel sigarêts mewn mannau lle byddai pobl yn dymuno ysmegu. Mae'n rhaid inni fod yn llawer cliriach ynglŷn ag atal y sbwriel yn y lle cyntaf drwy ddarparu cynwysyddion i sicrhau bod ysmygwyr cyfrifol yn gallu ysmegu'n gyfrifol.

David Melding: Un o'n gogoniannau mwyaf yw ein traethau Yn wir, mae rhai o'r traethau gorau yn y byd, yn sicr yn Ewrop, i'w gweld ar arfordir Cymru. Fodd bynnag, mae straeon sy'n peri pryder ar led bod pobl yn ymweld â Chymru gyda'r bwriad penodol o gael partion gwyllt ar draethau Cymru ac, er y dylai pobl wybod yn well, maent yn gadael llawer o sbwriel yma. Onid ydych yn meddwl y dylem fod mor llawdrwm ar y bobl hyn ag yr ydym ar y rheini sy'n byw yn ein cymunedau ac sy'n gollwng sbwriel yn ddifeddwl? Nid yw'n ddigon da dod i drin gogoniant naturiol, fel traethau Cymru, yn y fath fodd.

Jane Davidson: Nid wyf yn meddwl y dylai neb o gwbl fod yn taflu sbwriel yn ddifeddwl. Dyna neges sylfaenol y byddai pob ohonom yn ei chefnogi. Pan fydd pobl yn defnyddio traethau Cymru yn gyfrifol, drwy gydweithio â'r awdurdod lleol ynghylch unrhyw ddigwyddiadau, rwyf yn gobeithio y rhoddir ystyriaeth lawn i sut yr ymdrinnir â sbwriel yn y digwyddiadau hynny. Mae'n ddiddorol nodi, er ein bod yn dueddol o gael ein portreadu'n eithaf gwael yn arolygon y Gymdeithas Cadwraeth Forol ar sbwriel ar ein traethau oherwydd ein prifwyntoedd a'r llanw, mae lefel y sbwriel a ddaw o'r tir yng Nghymru—hynny yw, y sbwriel a grëir gan bobl Cymru—wedi gostwng yn sylweddol ac mae, mewn gwirionedd, yn is nag yn y rhan fwyaf o rannau eraill o'r DU. Felly, gallwn dalu teyrnged i'r gweithgaredd gwirfoddol enfawr a wneir gan amrywiol sefydliadau'r trydydd sector i gefnogi'r agenda honno. Mae'n bwysig dweud hefyd, os bydd unrhyw

recycling facilities are available and that no litter is left behind to damage the Welsh environment.

3.20 p.m.

Chris Franks: Minister, what discussions have you had to encourage responsible dog ownership so that dog fouling is less of a problem in our parks, particularly where children are likely to be present? What talks have you had regarding the inappropriate use of parks in South Wales Central, leading to anti-social behaviour such as the consumption of alcohol and drug use?

Jane Davidson: We want to prevent dog fouling from becoming a problem in the first place, and a lot of that is about improving education and raising awareness. We provide funding to Keep Wales Tidy to run national campaigns, and it has ensured that we have a range of promotional literature that organisations use. That literature sets out the clear responsibilities from the perspective of local authorities and dog walkers. Interestingly enough, Keep Wales Tidy also provides campaigning materials to make a website feature. They are called Create Your Own Campaign and people can use the materials in their local area. That has been an important new initiative for people to campaign locally on the issue. The Tidy Towns grant that goes to local authorities includes money to tackle dog fouling.

On your second point about anti-social behaviour such as drug use, the Assembly Government has made a large investment to tackle substance misuse generally. We have taken a concerted multi-agency approach to all aspects of anti-social behaviour, which embraces environmental crime, housing management, action on abandoned vehicles, along with more conventional community safety interventions. We provide nearly £1 million of additional money through the Safer Communities fund to community safety partnerships to tackle anti-social behaviour among young people. Therefore, there is a

un yn gwirfoddoli i gynnal digwyddiad mawr, y dylent hefyd wneud yn siŵr bod cyfleusterau ailgylchu llawn ar gael ac nad oes dim sbwriel yn cael ei adael ar ôl i niweidio amgylchedd Cymru.

Chris Franks: Weinidog, pa drafodaethau rydych wedi'u cael i annog perchnogaeth gyfrifol dros gŵn fel bod baw cŵn yn llai o broblem yn ein parciau, yn enwedig lle mae plant yn debygol o fod yn bresennol? Pa drafodaethau rydych wedi'u cael ynghylch defnyddio parciau yng Nghanol De Cymru yn amhriodol, gan arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel yfed alcohol a defnyddio cyffuriau?

Jane Davidson: Rydym am atal baw cŵn rhag bod yn broblem yn y lle cyntaf, ac mae llawer o hynny yn ymwneud â gwella addysg a chodi ymwybyddiaeth. Rydym yn rhoi cyllid i Cadwch Gymru'n Daclus i gynnal ymgyrchoedd cenedlaethol, ac mae hyn wedi sicrhau bod gennym amrywiaeth o ddeunydd hyrwyddo y mae sefydliadau yn ei ddefnyddio. Mae'r deunydd hwnnw'n nodi'r cyfrifoldebau'n glir o safbwynt awdurdodau lleol a cherddwyr cŵn. Yn ddi-ddorol ddigon, mae Cadwch Gymru'n Daclus hefyd yn darparu deunyddiau ymgyrchu ar gyfer gwneud nodwedd ar wefan. Lluniwch eich ymgyrch eich hun yw'r enw arnynt a gall pobl ddefnyddio'r deunyddiau yn eu hardal leol. Mae hynny wedi bod yn fenter newydd bwysig i bobl i ymgyrchu yn lleol ar y mater. Mae'r grant Trefi Taclus sy'n mynd i awdurdodau lleol yn cynnwys arian i fynd i'r afael â baw cŵn.

Ynghylch eich ail bwynt am ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel defnyddio cyffuriau, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi llawer i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn gyffredinol. Mae gennym ddull gweithio ar y cyd rhwng sawl asiantaeth at bob agwedd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae hyn yn rhoi sylw i droseddau amgylcheddol, rheoli tai, gweithredu ar gerbydau wedi'u gadael, ynghyd ag ymyriadau diogelwch cymunedol mwy confensiynol. Rydym yn darparu bron i £1 miliwn o arian ychwanegol drwy'r gronfa Cymunedau Diogelach i bartneriaethau

major multi-agency approach to this. We will continue to want to invest at these levels if sufficient money is made available in the future.

diogelwch cymunedol er mwyn iddynt fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc. Felly, mae gennym ddull gweithredu aml-asiantaeth cynhwysfawr o ymdrin â hyn. Byddwn yn parhau i fod eisiau buddsoddi ar y lefelau hyn os bydd digon o arian ar gael yn y dyfodol.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ateb y cwestiynau.

The Presiding Officer: I thank the Minister for answering the questions.

**Dadl Cyfnod 3, Rheol Sefydlog 23.57, ar Fesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)
Stage 3 Standing Order No. 23.57 Debate on the Proposed Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Measure**

Y Llywydd: Deuwn yn awr at gyfnod arall o ddeddfu. Yng Nghyfnod 3, byddwn yn ystyried gwelliannau yn y Cyfarfod Llawn i Fesurau arfaethedig. Y tro hwn, y Mesur arfaethedig caeau chwarae sydd dan sylw, yn dilyn llwyddiant Dai Lloyd yn y balot. Cyn inni ddechrau, atgoffaf Aelodau y byddwn yn trafod y gwelliannau yn unol â'r rhestr grwpio, gan bleidleisio ar y gwelliannau yn ôl y rhestr o welliannau wedi'u didoli.

The Presiding Officer: We now come to another stage of legislating. At Stage 3, we consider amendments in Plenary to proposed Measures. This time, we are considering the proposed Measure on playing fields, following Dai Lloyd's success in the ballot. Before we begin, I remind Members that we will be debating the amendments in accordance with the groupings list and voting in accordance with the marshalled list.

Grŵp 1: Gweinidogion Cymru yn Gwneud Rheoliadau (Gwelliannau 5, 11, 6, 12, 13, 7, 8, 14, 9 a 10)

Group 1: The Making of Regulations by the Welsh Ministers (Amendments 5, 11, 6, 12, 13, 7, 8, 14, 9 and 10)

Y Llywydd: Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 5, felly galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 5 yn ei enw, ac i siarad am y gwelliant hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

The Presiding Officer: The lead amendment in this group is amendment 5, and so I call on Darren Millar to move amendment 5 in his name and to speak to that amendment and the other amendments in the group.

Darren Millar: I move amendment 5 in my name.

Darren Millar: Cynigaf welliant 5 yn fy enw.

I welcome the opportunity to speak in this important debate, because the proposed Measure seeks to ensure community involvement in decisions by local authorities in Wales on the disposal of playing fields or any outdoor recreational facility. Along with my party, I have been a consistent and vocal supporter of safeguarding playing fields, and we need to pay tribute to the work of Lisa Francis, the former Assembly Member, for her work on this important issue. Playing fields play an important role in our communities, helping our children to get out

Rwyf yn croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon, gan fod y Mesur arfaethedig yn ceisio sicrhau ymgysylltiad cymunedau â phenderfyniadau gan awdurdodau lleol yng Nghymru i waredu caeau chwarae neu unrhyw gyfleuster hamdden awyr agored. Ynghyd â fy mhlaid, rwyf wedi lleisio fy nghefnogaeth yn gyson i ddiogelu caeau chwarae, ac mae angen inni dalu teyrnged i waith Lisa Francis, cyn Aelod o'r Cynulliad, am ei gwaith ar y mater pwysig hwn. Mae caeau chwarae yn chwarae rhan bwysig yn ein cymunedau, gan helpu ein plant i fynd

and exercise and to enjoy sports of all kinds in their areas.

It was a great disappointment and a huge worry when figures published in October 2009 showed that councils across Wales were still selling off these important assets—almost £22 million-worth of school playing fields in the three years to October 2009 alone. That is a disturbing figure as it conveys a worrying trend, and that is why we support this legislation.

Many amendments have been tabled today, and I have been asked to speak to this particular group. Amendment 5 relates to the wording in the legislation that talks of the Welsh Ministers being able to make, by regulation, provision for the involvement of communities in the disposal of playing fields. Our amendment 5 strengthens the proposed Measure to place a requirement on the Welsh Ministers to make such regulations, rather than just enabling them to do so.

Amendment 11 removes any flexibility and would ensure that the Ministers would have to make regulations as outlined in the proposed Measure for all disposals of land that consist, or form part, of a playing field.

Amendment 6 sets a time frame within which Ministers must make regulations under section 1A(1), which would remove any flexibility for the Ministers and future Ministers to put off the development of regulations in respect of playing fields and their protection.

Amendment 12 places a requirement on the Ministers to make regulations. Moving on to amendment 13, it is a redrafting amendment that would ensure that the regulations would apply to disposals of all types of playing field.

If I may, I will also speak to amendments 7 and 8, both of which would restrict the flexibility of the Ministers and ensure that all disposals, not just some or specific kinds, were included within the frame of the

allan ac ymarfer ac i fwynhau chwaraeon o bob math yn eu hardaloedd.

Roedd yn siom fawr ac yn bryder enfawr wrth i ffigurau a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2009 ddangos bod cynghorau ar draws Cymru yn dal i werthu'r asedau pwysig hyn—gwerth bron i £22 miliwn o gaeau chwarae ysgolion yn ystod y tair blynedd hyd at fis Hydref 2009 yn unig. Mae hwnnw'n ffigur sy'n peri pryder gan ei fod yn cyfleu tuedd sy'n peri gofid, a dyna pam ein bod yn cefnogi'r ddeddfwriaeth hon.

Mae llawer o welliannau wedi cael eu cyflwyno heddiw, a gofynnwyd imi siarad â'r grŵp penodol hwn. Mae gwelliant 5 yn ymwneud â'r geiriad yn y ddeddfwriaeth sy'n sôn am Weinidogion Cymru yn gallu gwneud, drwy reoliad, ddarpariaeth ar gyfer ymgysylltu cymunedau wrth waredu caeau chwarae. Mae ein gwelliant 5 yn cryfhau'r Mesur arfaethedig i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau o'r fath, yn hytrach na dim ond eu galluogi i wneud hynny.

Mae gwelliant 11 yn dileu unrhyw hyblygrwydd a byddai'n sicrhau y byddai'n rhaid i'r Gweinidogion wneud rheoliadau fel yr amlinellir yn y Mesur arfaethedig ar gyfer yr holl achosion o waredu tir sy'n cynnwys car chwarae, neu'n rhan o gae chwarae.

Mae gwelliant 6 yn gosod amserlen ac mae'n rhaid i Weinidogion wneud rheoliadau o fewn yr amserlen honno o dan adran 1A (1), a fyddai'n cael gwared ar unrhyw hyblygrwydd i Weinidogion a Gweinidogion y dyfodol oedi cyn datblygu rheoliadau mewn perthynas â chaeau chwarae a'u diogelu.

Mae gwelliant 12 yn gosod gofyniad ar y Gweinidogion i wneud rheoliadau. Gan symud ymlaen at welliant 13, mae'n welliant ailddrafftio a fyddai'n sicrhau bod y rheoliadau yn berthnasol i achosion gwaredu pob math o gaeau chwarae.

Os caf, byddaf hefyd yn siarad am welliannau 7 ac 8. Byddai'r ddau ohonynt yn cyfyngu ar hyblygrwydd y Gweinidogion ac yn sicrhau bod yr holl achosion o waredu, ac nid dim ond rhai mathau neu fathau penodol, yn cael

regulations.

This report answers an awful lot of the issues that I had as an Assembly Member and as a member of the committee, so I speak on behalf of the committee as well. In particular, I thank the Deputy Minister for establishing the independent review panel, which was launched in April 2010. I have read through the information on the whole process extremely quickly. Foster carers need to have the ability to appeal decisions that are made against them, and to appeal the regulations or the caveats on the types of people that they are allowed to work with. They previously did not have that voice, because we treated them as too small a part of the jigsaw. We want to encourage people into foster caring because we greatly need more foster carers in Wales. We need to show them that if things go wrong or if they are unhappy in some way, they do not have to face trying to put it right with social services or healthcare teams, with whom they might have issues, because they can come back to the Deputy Minister and the Welsh Assembly Government to ask for an independent review.

golygu bod gweithwyr cymdeithasol neu'r tîm gofal iechyd wedi chwarae rhan—yr holl ystod. Weithiau gall gofalwr maeth gael ei adael ar y tu allan, yn ceisio gweithio gyda'r plant hynny.

Un o'r pethau a ddaeth i'r amlwg yn gryf yn y dystiolaeth gan blant oedd nad yw rhai pobl ifanc yn cyd-dynnu gyda'u gofalwyr maeth. Felly, y pwynt yr wyf am ei wneud am ofalwyr maeth yw bod yn rhaid inni eu trin yn dda a chyda pharch, gan ein bod yn gofyn iddynt fod yn rhieni i'r plant hyn. Os byddant yn llwyddo yn y dasg honno, byddwn wedi sicrhau bod y plant hynny yn troedio ar lwybr da unwaith eto, ac y byddant yn gallu byw bywyd da, hapus a diogel, gan deimlo bod gwerth iddynt fel unigolion. Fodd bynnag, mae angen inni sicrhau hefyd fod gennym amrywiaeth o ofalwyr maeth, y mae Helen Mary eisoes wedi cyfeirio ato, gan nad yw'r un peth yn addas i bawb. Efallai na fydd gofalwr maeth a all ofalu am un math o bersonoliaeth yn rhywun priodol i ofalu am rywun arall. Yn ein hadolygiad, gwelsom fod plant yn aml yn cael eu rhoi gyda'r gofalwyr maeth a oedd ar gael.

Mae'r adroddiad hwn yn ateb llawer iawn o'r materion a oedd gennyf fel Aelod o'r Cynulliad ac fel aelod o'r pwyllgor, felly rwyf yn siarad ar ran y pwyllgor hefyd. Yn arbennig, hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am sefydlu'r panel adolygu annibynnol, a gafodd ei lansio ym mis Ebrill 2010. Rwyf wedi darllen y wybodaeth am y broses gyfan yn eithriadol o gyflym. Mae angen i ofalwyr maeth gael y gallu i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir yn eu herbyn, ac i apelio yn erbyn y rheoliadau neu'r gwaharddiadau ar y mathau o bobl y caniateir iddynt weithio gyda hwy. Nid oedd ganddynt y llais hwnnw cyn hynny, oherwydd ein bod yn eu trin fel rhan ry fach o'r jig-so. Rydym am annog pobl i gynnig gofal maeth oherwydd mae taer angen mwy o ofalwyr maeth arnom yng Nghymru. Mae angen inni ddangos iddynt, os bydd pethau'n mynd o chwith neu os ydynt yn anhapus mewn rhyw ffordd, nad oes yn rhaid iddynt wynebu ceisio unioni'r sefyllfa gyda'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r timau gofal iechyd, y gall fod problemau rhyngddynt, oherwydd gallant ddod yn ôl at y Dirprwy Weinidog a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ofyn am

adolygiad annibynnol.

I want to ensure that people are not excluded because of the costs of appealing, because I understand that no expenses will be paid to them. If people have been out of work because they cannot foster care for a year, they may not be able to afford it. We should also ensure that it does not exclude foster carers who have left the foster caring system because of issues that they had. We can also use this to try to broaden the base of foster carer agencies. Finally, we should ensure that the panel is made up of completely independent people, because the foster care business is a small pool in Wales, and we do not want people sitting on an independent appeal panel who you may have already come across in a previous life, when you are trying to have a completely non-judgmental second chance or review of a case in which you have been involved as a foster carer.

Joyce Watson: I am grateful for the opportunity to speak in this debate, as it concerns a topic that affects the lives of some of the most, if not the most, vulnerable children in our society. The amount of interest in this debate demonstrates how important it is to so many people.

We decided as a committee to take evidence on this topic because the system governing the placement of children into care needs to be broad in terms of looking at the vastly varying needs of the children, but also specific enough so that clear guidance is given.

4.20 p.m.

The recommendations that we have put together in the report reflect our view that communication is at the heart of the system. As the British Association for Adoption and Fostering told us:

‘nothing can replace knowing the child’s needs inside out. Databases can be a guide and can help, but they will never replace that.’

I hope that the recommendations, which, in the majority of cases, have been accepted by

Rwyf am sicrhau nad yw pobl yn cael eu heithrio oherwydd costau apelio, oherwydd rwyf ar ddeall na thelir dim treuliau iddynt. Os yw pobl wedi bod yn ddi-waith oherwydd nad ydynt yn gallu cynnig gofal maeth am flwyddyn, efallai na fyddant yn gallu ei fforddio. Dylem sicrhau hefyd nad yw'n eithrio gofalwyr maeth sydd wedi gadael y system gofal maeth oherwydd problemau a oedd ganddynt. Gallwn ddefnyddio hyn hefyd i geisio ehangu'r sylfaen o asiantaethau gofalwyr maeth. Yn olaf, dylem sicrhau bod y panel yn cynnwys pobl sy'n gwbl annibynnol, gan fod y busnes gofal maeth yn gymuned fach yng Nghymru, ac nid ydym am weld pobl yn eistedd ar banel apêl annibynnol yr ydych wedi dod ar eu traws cyn hynny efallai, pan fyddwch yn ceisio cael ail gyfle cwbl ddiuedd neu adolygiad o achos yr ydych wedi bod yn ofalwr maeth ynddo.

Joyce Watson: Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl hon, gan ei bod yn ymwneud â phwnc sy'n effeithio ar fywydau rhai o'r plant mwyaf agored i niwed, os nad y mwyaf agored i niwed, yn ein cymdeithas. Mae maint y diddordeb yn y ddadl hon yn dangos pa mor bwysig yw hi i gynifer o bobl.

Penderfynom fel pwyllgor i gymryd tystiolaeth ar y pwnc hwn oherwydd mae angen i'r system sy'n rheoli lleoli plant mewn gofal fod yn eang o ran edrych ar anghenion amrywiol iawn y plant, ond hefyd yn ddigon penodol fel bod canllawiau clir yn cael eu rhoi.

Mae'r argymhellion rydym wedi'u rhoi at ei gilydd yn yr adroddiad yn adlewyrchu ein barn fod cyfathrebu wrth wraidd y system. Fel y dywedodd Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain wrthym:

nid oes dim byd yn well na gwybod beth yw anghenion plentyn yn llwyr. Gall cronfeydd data fod yn arweiniad ac yn gymorth, ond ni fyddant byth yn well na hynny.

Gobeithiaf y bydd yr argymhellion, sydd, yn y mwyafrif o achosion, wedi cael eu derbyn

the Government, will act to ensure that dialogue between relevant bodies leads to enhanced understanding, clarity and openness in all tiers of the system.

The crux of this issue is that ensuring that children and young people are living in appropriate care is not an issue that is reserved exclusively for local authorities, or for the Welsh Assembly Government for that matter. It is something that everyone must help to resolve. Everyone must be aware of their role. How often do we hear that people knew that there were difficulties concerning a child, but did not feel that it was their role to report it to the authorities? Such a passive disposition towards the wellbeing of a child or children should be transformed into a proactive mentality of assuming responsibility for a child's health. We must become a nation that protects children and not let it be someone else's business.

A point that I care strongly about is the effectiveness of the core assessment. The assessment made of a child before a decision is taken on whether or not to place him or her into care is the foundation upon which all other matters concerning his or her immediate future is decided. If we get that wrong, we are letting the child down. The Deputy Minister, in giving evidence, said that the core assessment is very important. I am sure that she recognises that it is absolutely essential. The committee heard that the number of children in need of an assessment can mean that it is often rushed and superficial. I hope that ensuring that fully competent assessments are carried out will be among the Government's top priorities when considering our report and recommendations. That includes ensuring that social workers' caseloads do not prevent them from doing an effective job.

It is also impossible to underestimate the importance of the timing of the assessment in recognising a child's specific needs. If the timing is not right, even a thorough assessment could prove to be inadequate and miss a vital part of that child's needs. It is up to the Government and local authorities to ensure that social workers can balance their work so that they can make an assessment at the correct moment. I know that the Deputy

gan y Llywodraeth, yn fodd i sicrhau bod deialog rhwng cyrff perthnasol yn arwain at well dealltwriaeth, eglurder a diffuanrwydd ym mhob haen o'r system.

Byrdwn y mater hwn yw nad yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn byw mewn gofal priodol yn fater i'r awdurdodau lleol yn unig, nac i Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran hynny. Mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i bawb helpu i'w ddatrys. Rhaid i bawb fod yn ymwybodol o'i rôl. Pa mor aml rydym yn clywed bod pobl yn gwybod bod problemau gyda phlentyn, ond nad oeddent yn teimlo mai eu lle hwy oedd rhoi gwybod i'r awdurdodau? Dylai'r fath awydd goddefol at les plentyn neu blant gael ei drawsnewid yn feddylfryd rhagweithiol o ysgwyddo cyfrifoldeb dros iechyd y plentyn. Mae'n rhaid inni ddod yn genedl sy'n amddiffyn plant, a pheidio â gadael i hyn fod yn gyfrifoldeb rhywun arall.

Un o'r pwyntiau sy'n bwysig iawn imi yw effeithiolrwydd yr asesiad craidd. Yr asesiad a wneir o blentyn cyn y gwneir penderfyniad ynghylch a ddylid ei roi mewn gofal yw'r sail ar gyfer penderfynu ar yr holl faterion eraill ynghylch ei ddyfodol agos. Os na wnawn hynny'n gywir, nid ydym yn gwneud cyfiawnder â'r plentyn. Dywedodd y Dirprwy Weinidog, wrth roi tystiolaeth, fod yr asesiad craidd yn bwysig iawn. Rwyf yn siŵr ei bod yn cydnabod ei fod yn gwbl hanfodol. Clywodd y pwyllgor y gall nifer y plant y mae angen eu hasesu olygu bod yr asesiad yn aml yn arwynebol ac yn frysiog. Wrth ystyried ein hadroddiad a'n hargymhellion, gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn rhoi blaenoriaeth fawr i sicrhau bod asesiadau cwbl gymwys yn cael eu cynnal. Mae hynny'n cynnwys sicrhau nad yw llwyth achosion gweithwyr cymdeithasol yn eu hatal rhag gwneud eu gwaith yn effeithiol.

Mae'n amhosibl hefyd peidio â sylweddoli pwysigrwydd amseriad yr asesiad i gydnabod anghenion penodol plentyn. Os nad yw'r amseriad yn iawn, gallai hyd yn oed asesiad trylwyr fod yn annigonol a methu rhan hanfodol o anghenion y plentyn hwnnw. Cyfrifoldeb y Llywodraeth ac awdurdodau lleol yw sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn gallu cydbwysu eu gwaith er mwyn iddynt allu gwneud asesiad ar yr adeg briodol. Gwn

Minister will recognise the importance of timing in the assessment of every child and I believe that she will do as much as possible to ensure that that happens correctly.

Another point that I want to make is about the shortage of foster carers. We have heard people talk about that today. We have heard, and I want to reiterate this, about children being placed into inappropriate care, because there are simply not enough foster carers. Angela Burns alluded to that. We have also heard about the difference that could be made in many cases to meeting a child's needs by good communication and good sharing of information with foster carers. That sharing of information has to be looked at more seriously. We cannot have barriers such as the examples that we were given of foster carers not being told about important things such as allergies when children were placed with them.

I broadly welcome the Deputy Minister's response to our recommendations. I know that she fully appreciates what is at stake. I also recognise that the Deputy Minister has already done a lot of work in this area, including the introduction of the Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2008, which collates data on how many children go into their first placements with a care plan in place. I also welcome the work of the social services and social care workforce task group that will look specifically at the need to recruit more foster carers.

The Deputy Presiding Officer: Order. Can you please wind up?

Joyce Watson: Yes, I will. Finally, one of the key things that came through was that the voices of children in care should be heard. I very much welcome the £450,000 investment from WAG in Meic. I would like to pay tribute, as everyone before me has done, to those who work with and give refuge to children in need, because without them, those children would not have a safe place to stay.

y bydd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod pwysigrwydd amseriad wrth asesu pob plentyn a chredaf y bydd yn gwneud cymaint ag y bo modd er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd yn iawn.

Pwynt arall yr wyf am ei wneud yw prinder gofalwyr maeth. Rydym wedi clywed pobl yn siarad am hynny heddiw. Rydym wedi clywed, ac rwyf am ailadrodd hyn, am blant yn cael eu rhoi mewn gofal amhriodol, am nad oes, yn syml iawn, ddigon o ofalwyr maeth. Cyfeiriodd Angela Burns at hynny. Rydym wedi clywed hefyd am y gwahaniaeth y gellid ei wneud mewn sawl achos i ddiwallu anghenion plentyn drwy gyfathrebu da a rhannu gwybodaeth yn dda gyda gofalwyr maeth. Mae angen edrych o ddifrif ar rannu gwybodaeth. Ni allwn gael rhwystrau tebyg i'r enghreifftiau a roddwyd inni lle nad oedd gofalwyr maeth wedi cael gwybod am bethau pwysig fel alergeddau wrth leoli plant gyda hwy.

At ei gilydd, rwyf yn croesawu ymateb y Dirprwy Weinidog i'n hargymhellion. Gwn ei bod yn llwyr sylweddoli'r hyn sydd yn y fantol. Rwyf hefyd yn cydnabod bod y Dirprwy Weinidog eisoes wedi gwneud llawer o waith yn y maes hwn, gan gynnwys cyflwyno Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008, sy'n coladu data ar faint o blant sy'n mynd i'w lleoliadau cyntaf a chynllun gofal ar waith. Croesawaf hefyd waith y gwasanaethau cymdeithasol a'r grŵp gorchwyl gweithlu gofal cymdeithasol a fydd yn edrych yn benodol ar yr angen i recriwtio mwy o ofalwyr maeth.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allwch ddirwyn eich cyfraniad i ben os gwelwch yn dda?

Joyce Watson: Gallaf. Yn olaf, un o'r pethau allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd y dylai lleisiau plant mewn gofal gael eu clywed. Rwyf yn croesawu'n fawr iawn y buddsoddiad o £450,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Meic. Hoffwn dalu teyrnged, fel y mae pawb o'm blaen i wedi'i wneud, i'r rheini sy'n gweithio gyda phlant mewn angen ac yn rhoi lloches iddynt, oherwydd hebddynt, ni fyddai gan y plant hynny le diogel i aros.

Eleanor Burnham: It is a very complex issue and it is a shame that we have such little time. That is not a criticism—it is a fact. Like everyone else, I would like to pay tribute to the committee and all the very worthy witnesses, and primarily to the foster carers and other professionals who work alongside these very vulnerable young people. We are talking not about the matching up of data, but the matching up of youngsters who are very vulnerable with suitable carers. I have written here, exactly as Angela said, that foster carers need to be treated with dignity and respect and maturity. They are very mature people. I am an imperfect parent, and I cannot imagine what it must be like to try to take care of these vulnerable young people, who may have had their lives destroyed or irreparably damaged, and I think that we have to take great care when we are discussing all these issues.

If I may, I would like to just ask whether our very worthy and very respected Deputy Minister would like to reconsider recommendation 22. I am very concerned that you rejected it. The recommendation that we made was that the Welsh Assembly Government should undertake a major campaign to enable the recruitment of foster carers. It is obvious that there are difficulties in recruiting adequate and appropriate foster carers, and one of the issues that came out reminded me of my work in the social services all those years ago, when I was matching up help, such as domiciliary care, with older and disabled people, for example. It was exactly the same, but with even more vulnerability in this instance, with these young people. We discussed it and we heard testimony about the databases. There were two, apparently, running concurrently, and I do not know how that could work—it does not seem right to me. However, we are not talking about data—we are talking about youngsters. I was struck by the fact that the placement of youngsters is often done at a distance, by people who never actually meet these vulnerable young people. That is an important issue that I would hope that we could overcome. This was a thorough investigation into a very complex issue. There is a major shortage of foster carers, so

Eleanor Burnham: Mae'n fater cymhleth iawn ac mae'n drueni fod gennym cyn lleied o amser. Nid beirniadaeth mo hynny—ond ffaith. Fel pawb arall, hoffwn dalu teyrnged i'r pwyllgor a'r holl dystion teilwng iawn, ac yn bennaf i'r gofawyr maeth a'r gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio ochr yn ochr â'r bobl ifanc hyn sy'n agored iawn i niwed. Nid ydym yn sôn am gyfateb data, ond am gyfateb pobl ifanc sy'n agored iawn i niwed gyda gofawyr addas. Rwyf wedi ysgrifennu yma, yn union fel y dywedodd Angela, fod angen i ofalwyr maeth gael eu trin ag urddas a pharch ac aeddfedrwydd. Maent yn bobl aeddfed iawn. Rwyf yn rhiant amherfffaith, ac ni allaf ddychmygu sut beth fyddai ceisio gofalu am y bobl ifanc hyn sy'n agored i niwed, y mae eu bywydau o bosibl wedi cael eu dinistrio neu eu difetha heb fodd o'u hadfer. Credaf fod yn rhaid inni fod yn ofalus iawn pan fyddwn yn trafod yr holl faterion hyn.

Os caf, hoffwn ofyn a fyddai ein Dirprwy Weinidog teilwng iawn ac uchel iawn ei barch yn hoffi ail-ystyried argymhelliad 22. Rwyf yn bryderus dros ben eich bod wedi'i wrthod. Yr argymhelliad a wnaethom oedd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal ymgyrch fawr i alluogi recriwtio gofawyr maeth. Mae'n amlwg bod anawsterau o ran recriwtio gofawyr maeth digonol a phriodol, ac roedd un o'r materion a ddaeth i'r amlwg yn fy atgoffa o fy ngwaith yn y gwasanaethau cymdeithasol flynyddoedd maith yn ôl, pan oeddwn yn trefnu cymorth, fel gofal yn y cartref, ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl, er enghraifft. Roedd yn union yr un fath â hyn, ond mae hyd yn oed mwy o fregusrwydd yn yr achos hwn, gyda'r bobl ifanc hyn. Buom yn trafod hyn a chlywsom dystiolaeth am y cronfeydd data. Roedd dau, i bob golwg, yn cydreddeg, ac nid wyf yn gwybod sut y gallai hynny weithio—nid yw'n ymddangos yn iawn i mi. Fodd bynnag, nid ydym yn sôn am ddata—rydym yn sôn am bobl ifanc. Cefais fy nharo gan y ffaith bod lleoli pobl ifanc yn aml yn digwydd o bell, gan bobl sydd erioed wedi cwrdd â'r bobl ifanc hyn sy'n agored i niwed, mewn gwirionedd. Mae hwnnw'n fater pwysig y byddem yn gallu ei ddatrys, gobeithio. Roedd hwn yn ymchwiliad trylwyr i fater cymhleth iawn. Mae prinder mawr o ofalwyr maeth, felly a wnewch chi edrych eto

please could you revisit recommendation 22? ar argymhelliad 22?

I know that I do not have enough time to appropriately address all the different issues that I wanted to, but I think that the effectiveness, as Joyce mentioned, of the initial and core assessments is absolutely essential and vital. You have to have all the information and treat foster carers with maturity and dignity, so that they have all the relevant information. It is no use hiding behind data protection—it is a load of nonsense, quite frankly, and we must make sure that that does not happen. We know that there is huge pressure on social workers. It is not a criticism of them, either, but we really need to get our act together, because when you think about the dysfunction of some of these vulnerable people, many of whom we have dealt with, many of us, in our past lives, it is very important. In the end, it is not just a matter of cost. The actual cost is in emotional trauma, and perhaps never being able to retrieve the lives of some of these blighted youngsters.

I do hope that our committee has done the work properly, and I hope that the Government does its best, because I know that we are in very difficult circumstances and that we have huge economic constraints. However, I hope that we consider the front line, that we consider the dignity, the maturity and the sharing of information with these wonderful people, and that we can do our best to get some more foster carers. The kinds of skills that many of them have to develop are very complex. It is psychological work and many of us, as parents, would not know where to start. Let us do our best in this very difficult and complex arena.

I would just like to thank the Deputy Minister. Please could you tell us how you will address recommendation 22, which I think is an absolutely vital recommendation. Diolch yn fawr iawn.

David Melding: Thank you, Deputy Presiding Officer, for the chance to speak in this very important debate. I commend the

Gwn nad oes gennyf ddigon o amser i fynd i'r afael yn briodol â'r holl faterion gwahanol yr oeddwn am ei wneud, ond credaf fod effeithiolrwydd yr asesiadau cychwynnol a chraidd, fel y crybwyllwyd gan Joyce, yn gwbl hanfodol. Rhaid ichi gael yr holl wybodaeth, a thrin gofalwyr maeth yn aeddfed a chydag urddas, fel bod ganddynt yr holl wybodaeth berthnasol. Nid oes diben cuddio y tu ôl i ddiogelu data—mae'n lol lwyr, a dweud y gwir, a rhaid inni wneud yn siŵr nad yw hynny'n digwydd. Gwyddom fod pwysau enfawr ar weithwyr cymdeithasol. Nid yw hyn yn feirniadaeth arnynt, ychwaith, ond mae gwir angen inni roi trefn ar bethau, oherwydd pan fyddwch yn meddwl am drafferthion rhai o'r bobl hyn sy'n agored i niwed, llawer ohonynt yn bobl yr ydym, lawer ohonom, wedi delio â hwy, yn ein bywydau yn y gorffennol, mae'n bwysig dros ben. Yn y pen draw, nid dim ond mater o gost ydyw. Y gost wirioneddol yw'r trawma emosiynol ac, efallai, gwybod na ellir byth adfer bywydau rhai o'r bobl ifanc hyn sydd wedi'i ddifetha.

Gobeithiaf fod ein pwyllgor wedi gwneud y gwaith yn iawn, ac rwyf yn gobeithio y bydd y Llywodraeth yn gwneud ei gorau, gan fy mod yn gwybod ein bod mewn amgylchiadau anodd iawn a bod gennym gyfyngiadau economaidd enfawr. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio y byddwn yn ystyried y rheng flaen, ein bod yn ystyried yr urddas, yr aeddfedrwydd a'r rhannu gwybodaeth gyda'r bobl wych hyn, ac y gallwn wneud ein gorau i gael mwy o ofalwyr maeth. Mae'r mathau o sgiliau y mae angen i lawer ohonynt eu meithrin yn gymhleth iawn. Mae'n waith seicolegol ac ni fyddai llawer ohonom, fel rhieni, yn gwybod ymhle i ddechrau. Gadewch inni wneud ein gorau yn y maes hwn sy'n anodd a chymhleth dros ben.

Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog. A allech ddweud wrthym sut y byddwch yn rhoi sylw i argymhelliad 22, sy'n argymhelliad gwbl hanfodol yn fy marn i. Thank you very much.

David Melding: Diolch, Ddirprwy Lywydd, am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig iawn. Rwyf yn cymeradwyo gwaith y Pwyllgor

work of the Children and Young People Committee and particularly the Chair, Helen Mary Jones, who I think has given outstanding leadership to that committee. This report is a prime example of the excellence of the scrutiny work that is done. I also say to Gwenda Thomas: you are greatly respected by all sides of this Assembly for your commitment to looked-after children and for what you do in the Executive. We know that you are completely sincere in forcing forward an agenda to change the outcomes for looked-after children for the better. You will get everyone's support for the actions that you are taking in Government.

4.30 p.m.

We should remember that the number of people now in care has increased significantly in the past 10 years and stands at just under 5,000 in Wales. In the UK, the figure is something like 70,000, so our rate is probably a little higher than you would expect on a population basis. However, whatever the case, more children are taken into care as a result of the fear that many local authorities now have of children being at risk, and so they are taken away from unstable parental homes in greater numbers. That puts a great obligation on us as corporate parents—those who are in positions of responsibility, such as councillors in local authorities and Assembly Members, who have a duty to ensure that a policy is developed that is fit for purpose. I commend Karen Sinclair for her excellent work in the survey that she has undertaken on the corporate parenting role.

I want to pay tribute to the BBC because, last night, a *Panorama* special on this subject appeared at 9 p.m.—peak viewing time. The programme was based on Coventry social services department, and it focused on foster carers, the children and the social workers. It was one of the most humane, uplifting but challenging programmes I have seen for a long time. The dedication of foster carers and social workers shone forth; it was really something. If you missed it, you should try to watch it.

Plant a Phobl Ifanc ac yn enwedig y Cadeirydd, Helen Mary Jones, sydd, yn y fy marn i, wedi rhoi arweiniad rhagorol i'r pwyllgor hwnnw. Mae'r adroddiad hwn yn enghraifft ragorol o wychder y gwaith craffu a wneir. Dywedaf hefyd wrth Gwenda Thomas: fe'ch perchir yn fawr iawn gan ddwy ochr y Cynulliad am eich ymrwymiad i blant sy'n derbyn gofal ac am yr hyn a wnewch yn y Weithrediaeth. Gwyddom eich bod yn gwbl ddiffuant wrth orfodi agenda yn ei blaen i newid y canlyniadau er gwell ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Cewch gefnogaeth pawb i'r camau gweithredu yr ydych yn eu cymryd yn y Llywodraeth.

Dylem gofio bod nifer y bobl sydd mewn gofal erbyn hyn wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ac mai ychydig o dan 5,000 sydd yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn y DU, mae'r ffigur oddeutu 70,000, felly mae'n siŵr bod ein cyfradd ychydig yn uwch nag y byddech yn ei ddisgwyl ar sail poblogaeth. Eto i gyd, beth bynnag yw'r achos, mae mwy o blant yn cael eu rhoi mewn gofal o ganlyniad i'r ofn sydd gan lawer o awdurdodau lleol erbyn hyn fod plant mewn perygl, ac felly mae mwy ohonynt yn cael eu cymryd o gartrefi â rhieni ansefydlog. Mae hynny'n rhoi gorfodaeth fawr arnom fel rhieni corfforaethol—y rheini sydd mewn swyddi cyfrifol, megis cynghorwyr mewn awdurdodau lleol ac Aelodau'r Cynulliad, sydd â dyletswydd i sicrhau bod polisi yn cael ei ddatblygu sy'n addas i'r diben. Rwyf yn cymeradwyo Karen Sinclair am ei gwaith ardderchog yn yr arolwg a wnaeth ar rôl rhianta corfforaethol.

Hoffwn dalu teyrnged i'r BBC oherwydd, neithiwr, darlledwyd rhaglen arbennig o *Panorama* ar y pwnc hwn am 9 p.m.—amser gwyllo brig. Roedd y rhaglen yn seiliedig ar adran gwasanaethau cymdeithasol Coventry, ac roedd yn canolbwyntio ar ofalwyr maeth, y plant a'r gweithwyr cymdeithasol. Roedd yn un o'r rhaglenni mwyaf sensitif, calonogol ond heriol imi ei gweld ers amser maith. Roedd ymroddiad y gofalwyr maeth a'r gweithwyr cymdeithasol i'w weld yn amlwg; roedd wir yn rhywbeth anhygoel. Os na lwyddoch i weld y rhaglen, dylech geisio ei

gwyllo.

What was particularly apposite in Helen Mary's contribution was that the cost of care cannot be a determining factor when we make decisions on the appropriateness of a placement. We are not saying that we want children placed in palaces and given every conceivable comfort; but we are talking about a placement that may cost a few hundred or even thousand pounds more not being chosen because another is cheaper. The evidence is anecdotal at this stage, but witnesses are very concerned about it. We need to ensure that, if it is not happening already, it cannot be permitted to happen. Many of us fear that some choices are affected, at least subliminally, by the relative cost of a number of options.

A recruitment campaign for foster carers is essential, and that came across in last night's *Panorama* programme. There are only three emergency foster carers in Coventry, which I believe is between the size of Swansea and Cardiff, and I suspect that our local authorities are facing similar challenges. No-one has mentioned adoption, of course, because it is beyond 'care' in this respect, but the lack of people willing to adopt children over the age of four is having a profound impact on the outcomes that we can expect for looked-after children. For those looked-after children who have not been able to be placed for adoption, we know that the security of their placement is crucial. It has the most profound effect on their outcomes, particularly their educational attainment. These children, if they do not attain relatively good results at school, face a very bleak adulthood, so we must focus on that.

In conclusion, this is an important piece of work, and I am pleased that the Government has accepted the majority of recommendations. I am particularly pleased by the tone that the Government has adopted on this issue, but I ask it to revisit its reservations. We must all remember that even with this goodwill, we still must redouble our efforts for these most vulnerable children.

Yr hyn a oedd yn arbennig o briodol yng nghyfraniad Helen Mary oedd na all cost gofal fod yn ffactor sy'n penderfynu wrth inni wneud penderfyniadau ar briodoldeb lleoliad. Nid ydym yn dweud ein bod am weld plant yn cael eu lleoli mewn palasau ac yn cael pob cysur posibl; ond rydym yn sôn am leoliad a all gostio sawl can punt neu hyd yn oed mil o bunnoedd yn fwy ddim yn cael ei ddewis oherwydd bod un arall yn rhatach. Mae'r dystiolaeth yn anecdotaidd ar hyn o bryd, ond mae tystion yn bryderus iawn am y peth. Mae angen inni sicrhau, os nad yw'n digwydd eisoes, na fydd hyn yn cael digwydd. Mae llawer ohonom yn ofni bod cost gymharol sawl opsiwn yn effeithio, yn isganfyddol o leiaf, ar ambell ddewis.

Mae ymgyrch recriwtio ar gyfer gofalcwyr maeth yn hanfodol, a chyflëwyd hynny yn y rhaglen *Panorama* neithiwr. Dim ond tri gofalcwr maeth mewn argyfwng sydd yn Coventry, sydd rhwng maint Abertawe a Chaerdydd yn ôl yr hyn a ddeallaf, ac rwyf yn amau bod ein hawdurdodau lleol yn wynebu heriau tebyg. Nid oes neb wedi sôn am fabwysiadu, wrth gwrs, oherwydd ei fod y tu hwnt i 'ofal' yn hyn o beth, ond mae prinder pobl sy'n barod i fabwysiadu plant dros bedair oed yn cael effaith fawr ar y canlyniadau y gallwn eu disgwyl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. I'r plant hynny sy'n derbyn gofal nad ydynt wedi gallu cael eu rhoi i'w mabwysiadu, rydym yn gwybod bod sicrwydd eu lleoliad yn hanfodol. Mae'n cael yr effaith fwyaf dwys ar eu canlyniadau, yn enwedig eu cyrhaeddiad addysgol. Os na fydd y plant hyn yn cael canlyniadau eithaf da yn yr ysgol, maent yn wynebu bywyd llwm iawn fel oedolion, felly mae'n rhaid inni ganolbwyntio ar hynny.

I gloi, mae hwn yn ddarn pwysig o waith, ac rwyf yn falch bod y Llywodraeth wedi derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion. Rwyf yn arbennig o falch o'r agwedd y mae'r Llywodraeth wedi'i mabwysiadu ar y mater hwn, ond gofynnaf iddi ailystyried ei hamheuron. Rhaid i bawb gofio hyd yn oed gyda'r ewyllys da hon, ei bod yn rhaid inni ddyblu ein hymdrechion o hyd er mwyn y plant mwyaf agored i niwed.

The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas): I very much wish that I had the time to respond in detail to each contribution, and I value this debate; however, I have only four and a half minutes, and I have decided that perhaps the best way to respond is to offer examples of how we are progressing against the recommendations. By doing that, I will be able to refer to most of the points that have been brought up this afternoon.

I have written to local authorities, elected Members and officers and Assembly Members to bring to their attention the inquiry and our duties as corporate parents, which David mentioned—and I, too, am thinking of Karen’s efforts. Enhancements have been made to the children’s commissioning support resource to meet commissioners’ and cross-sector providers’ requirements for management information to inform placement intelligence on placement trends and capacities. That is essential given the increased numbers of looked-after children, which David referred to, and the higher demands on the service.

In September, we commissioned an evaluation of CCSR, the children’s commissioning support resource. Bids will be considered later this month, and all sector providers and commissioners will be involved in commenting on the alternativeness of CCSR and the benefits of extending its use to all placements made by local authorities, including those with in-house approved foster carers.

The cross-sector adoption and fostering care advisory group—and we can consider the issue of adoption here—has considered the report of the Children and Young People Committee, and is developing a number of tools and an information guide to enhance practice. This week I will publish LE Wales’s research into foster care fees and allowances. Later this month, I will consult on the introduction of the framework and, in April 2011, I propose to introduce a national minimum allowance. We will be testing information-sharing protocols based on the

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Hoffwn yn fawr iawn pe bai gennyf yr amser i ymateb yn fanwl i bob cyfraniad, ac rwyf yn gwerthfawrogi'r ddadl hon; fodd bynnag, dim ond pedwar munud a hanner sydd gennyf, ac rwyf wedi penderfynu efallai mai'r ffordd orau o ymateb yw cynnig enghreifftiau o sut rydym yn gwneud cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Drwy wneud hynny, byddaf yn gallu cyfeirio at y rhan fwyaf o'r pwyntiau a godwyd y prynhawn yma.

Rwyf wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol, Aelodau etholedig a swyddogion ac Aelodau'r Cynulliad i ddwyn eu sylw at yr ymchwiliad ac at ein dyletswyddau fel rhieni corfforaethol, y soniodd David amdano—ac rwyf finnu, hefyd, yn meddwl am ymdrechion Karen. Mae gwelliannau wedi eu gwneud i'r adnodd cefnogi comisiynwyr plant er mwyn bodloni gofynion comisiynwyr a darparwyr traws-sector o ran gwybodaeth reoli i lywio gwybodaeth am leoliadau yng nghyswllt tueddiadau lleoli a chapasiti. Mae hynny'n hanfodol o gofio nifer cynyddol y plant sy'n derbyn gofal, y cyfeiriodd David atynt, a'r gofynion uwch sydd ar y gwasanaeth.

Ym mis Medi, comisiynwyd gwerthusiad o CCSR, adnodd cefnogi comisiynwyr plant. Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried yn ddiweddarach y mis hwn, a bydd yr holl ddarparwyr sector a chomisiynwyr yn cael rhoi sylwadau am natur CCSR o ran cynnig dewis a manteision ymestyn ei ddefnydd i bob lleoliad a wneir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys y rheini gyda gofalwyr maeth sydd wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdodau lleol.

Mae'r grŵp cynghori traws-sector ar fabwysiadu a gofal maeth—a gallwn ystyried mabwysiadu yma—wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ac mae wrthi'n datblygu nifer o ddulliau a chanllaw gwybodaeth i wella ymarfer. Yr wythnos hon byddaf yn cyhoeddi ymchwil LE Wales ar ffioedd a lwfansau gofal maeth. Yn ddiweddarach y mis hwn, byddaf yn ymgynghori ynghylch cyflwyno'r fframwaith ac, ym mis Ebrill 2011, bwriadaf gyflwyno isafswm lwfans cenedlaethol. Byddwn yn profi protocolau rhannu gwybodaeth yn

'Wales Accord on the Sharing of Personal Information' between the integrated family support team pioneers, and we know that those went live on September 1. The effectiveness of information sharing in the IFSTs will form part of the evaluation and inform the work of the national stakeholder forum on information sharing.

With the support of the health exchange for looked-after children, we are strengthening the arrangements for the assessment and healthcare of looked-after children. That will form part of a wider consultation on regulation and guidance on care and placement planning, to be issued this autumn. Key workshops have taken place with the all-Wales independent reviewing officer group, ADSS Cymru and the heads of children's services on ways to strengthen the role of the IRO. I believe that that is very important indeed. We will consult on proposals in the coming weeks, which will include systems.

A group has been established to review the integrated children's systems. Its remit is to reduce the administrative burden on social workers and to develop a common approach to the simplification of the ICSs so that there is an effective case management system. Most importantly of all, to strengthen the voice of the child in the process, we have commissioned Voices from Care to consult children and young people on the new arrangements to strengthen the care system and IFSTs.

Our commitment to each recommendation—and I hear what has been said about the ones that I have rejected—will provide the necessary levers to enhance services for children in care. However, it is the front-line practitioners and the people who care for them, whether through foster care, residential care or care with the extended family, who can make a difference to these children. I also take on board Angela's point about the independent reviewing panel, and it is important for people to be aware of that.

seiliedig ar 'Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru' rhwng arloeswyr y tîm integredig cymorth i deuluoedd, ac rydym yn gwybod bod y rheini wedi bod ar waith ers 1 Medi. Bydd effeithiolrwydd rhannu gwybodaeth yn y Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn dod yn rhan o'r gwerthusiad a bydd yn llywio gwaith fforwm y rhanddeiliaid cenedlaethol ar rannu gwybodaeth.

Gyda chefnogaeth cyfnewidfa iechyd i blant sy'n derbyn gofal, rydym yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer asesu plant sy'n derbyn gofal a'u gofal iechyd. Bydd hynny'n rhan o ymgynghoriad ehangach ar reoliadau a chanllawiau ar gynllunio gofal a lleoliadau, a gyhoeddir yn ystod yr hydref hwn. Mae gweithdai allweddol wedi'u cynnal gyda grŵp swyddogion adolygu annibynnol Cymru gyfan, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a phenaethiaid gwasanaethau plant ar ffyrdd i gryfhau rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol. Credaf fod hyn yn bwysig iawn yn wir. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion yn yr wythnosau nesaf, a fydd yn cynnwys systemau.

Mae grŵp wedi'i sefydlu i adolygu'r systemau integredig ar gyfer plant. Ei gylch gwaith yw lleihau'r baich gweinyddol ar weithwyr cymdeithasol a datblygu dull gweithio cyffredin i symleiddio'r Systemau Integredig ar gyfer Plant fel bod system rheoli achosion effeithiol ar gael. Yn bwysicaf oll, er mwyn cryfhau llais y plentyn yn y broses, rydym wedi comisiynu Lleisiau mewn Gofal i ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar y trefniadau newydd i gryfhau'r system gofal a'r Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd.

Bydd ein hymrwymiad i bob argymhellid—ac rwyf wedi clywed yr hyn a ddywedwyd am y rhai yr wyf wedi'u gwrthod—yn darparu'r dulliau angenrheidiol i wella gwasanaethau ar gyfer plant mewn gofal. Fodd bynnag, yr ymarferwyr rheng flaen a'r bobl sy'n gofalu amdanynt, boed hynny drwy ofal maeth, gofal preswyl neu ofal gyda'r teulu estynedig, sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i'r plant hyn. Rwyf hefyd yn derbyn pwynt Angela am y panel adolygu annibynnol, ac mae'n bwysig bod pobl yn

ymwybodol o hynny.

I conclude by thanking the committee again, under Helen Mary's chairmanship, on behalf of the Welsh Assembly Government for its excellent inquiry, which will help us to focus on the major challenges that children in care face. It will act as a salutary reminder to us all of our collective responsibility to improve the lives of children where the state has intervened.

4.40 p.m.

Helen Mary Jones: I begin by thanking all the Members who have contributed to the debate for their thoughtful contributions. I will return to the Deputy Minister's contribution at the end of my response, and so I begin by thanking Angela Burns for her contribution to the committee. She is taking a brief break from the Children and Young People Committee for the rest of this term because of other responsibilities, but Angela is right to highlight the unique role of foster carers and the importance of having a range of placements and treating foster carers with respect. So much of what we heard about what went wrong—such as not sharing information, not listening to what the foster carers were saying, and not allowing foster carers to make decisions for the children and young people they were looking after about things such as staying overnight with friends—comes from the basis of an issue with respect. We feel that that is vital to address, and I know that the Deputy Minister is well aware of it.

I thank Joyce Watson for her keen personal interest in this topic and for her contribution today. If I am to be entirely frank, I will say that her direct experience in local government was invaluable as a reality check for some of the things that we were being told by some witnesses. She is right to highlight, as did Eleanor Burnham, the issues of communication and the importance of that core assessment at the beginning. If the core assessment is not right, it is impossible to put the child in the right placement. I cannot stress that strongly enough. I also endorse what Joyce said about looking after children being a matter for us all, and I was struck by her concept of a nation that protects, to which

Hoffwn gloi drwy ddiolch i'r pwyllgor unwaith eto, o dan gadeiryddiaeth Helen Mary, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru am ei ymchwiliad rhagorol, a fydd yn ein helpu i ganolbwyntio ar y prif heriau sy'n wynebu plant mewn gofal. Bydd hyn yn atgoffa pob un ohonom o'n cyfrifoldeb ar y cyd i wella bywydau plant lle mae'r wladwriaeth wedi ymyrryd.

Helen Mary Jones: Dechreuaf drwy ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddatl am eu cyfraniadau ystyriol. Deuaf yn ôl at gyfraniad y Dirprwy Weinidog ar ddiwedd fy ymateb, ac felly dechreuaf drwy ddiolch i Angela Burns am ei chyfraniad i'r pwyllgor. Mae hi'n cymryd seibiant byr o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am weddill y tymor hwn oherwydd cyfrifoldebau eraill, ond mae Angela yn iawn i dynnu sylw at rôl unigryw gofalwyr maeth a'r pwysigrwydd o gael amrywiaeth o leoliadau ac i drin gofalwyr maeth â pharch. Mae cymaint o'r hyn yr ydym wedi'i glywed am yr hyn a aeth o'i le—fel peidio â rhannu gwybodaeth, peidio â gwrando ar yr hyn roedd gofalwyr maeth yn ei ddweud, a pheidio â gadael i ofalwyr maeth wneud penderfyniadau dros y plant a'r bobl ifanc yr oeddent yn gofalu amdanynt am bethau fel aros dros nos gyda ffrindiau—yn seiliedig ar barch. Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol mynd i'r afael â hynny, a gwn fod y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol o hyn.

Hoffwn ddiolch i Joyce Watson am ei diddordeb brwd personol yn y pwnc hwn, ac am ei chyfraniad heddiw. Os wyf am fod yn hollol onest, dywedaf fod ei phrofiad uniongyrchol mewn llywodraeth leol wedi bod yn amhrisiadwy o ran wynebu realiti rhai o'r pethau y dywedodd ambell dyst wrthym. Mae hi'n iawn i dynnu sylw, fel y gwnaeth Eleanor Burnham, at y materion cyfathrebu a phwysigrwydd yr asesiad craidd hwnnw ar y dechrau. Os nad yw'r asesiad craidd yn iawn, mae'n amhosibl rhoi'r plentyn yn y lleoliad iawn. Ni allaf bwysleisio hynny yn ddigon cryf. Rwyf hefyd yn cefnogi'r hyn a ddywedodd Joyce fod gofalu am blant yn fater i bob un ohonom, a chefais fy nharo gan

we all aspire. I also endorse the emphasis that Joyce and others gave to the importance of children's voices being heard. Things go horribly wrong when we do not listen to what they say and do not hear what that means and act upon it.

I was struck by Eleanor Burnham's stress on the importance of treating the child as an individual with individual needs, and the point that you cannot assess those needs by means of data; you have to spend time with that child. She is also right to raise the issues that we have already touched on in this debate about the recruitment of carers. We need that broad range, and we also need to acknowledge that, sadly, for some children, a domestic home will never feel like a safe place. Some children, especially older ones, may feel safer and may thrive more in a stable care home setting. As our report makes clear, there is a risk that perhaps we have swung too far away from that and that, when they need a residential placement rather than a foster placement, children can end up out of county. I know that the Deputy Minister will be keen to address those issues.

Credaf fod angen inni hefyd edrych ar y maes rhyngwladol am enghreifftiau. Byddaf yn canolbwyntio ar un rhan benodol o Ewrop sydd wedi gweld twf economaidd eithaf cyflym dros lai na 20 mlynedd. Pe byddech yn edrych ar ddwyrain yr Almaen, yn enwedig Dresden, byddech yn rhyfeddu at y cynnydd cyflym yn ei CMC dros 10 mlynedd. Rhwng 2000 a 2010, cynyddodd CMC yn Sacsoni 11.2 y cant, sy'n swm aruthrol. Mae Dresden bellach yn cael ei ddefnyddio'n enghraifft o'r hyn y gellir ei wneud i ddenu buddsoddiad o'r tu allan drwy ddatblygu talent busnes cynhenid a sectorau penodol. Mae TG a'r sectorau fferyllol yn ddau faes lle gwelwyd llwyddiant arbennig. O ganlyniad i ganolbwyntio ar sectorau penodol, a Llywodraeth sydd yn hynod gefnogol i fusnes, mae'r rhan honno o'r Almaen wedi gallu denu cwmnïau nodedig dros ben. Dros y 10 mlynedd hynny, mae'r cynnydd yn y CMC yn Sacsoni wedi bod yn llawer uwch na CMC unrhyw un o 15 gwladwriaeth ffederal arall yr Almaen.

Mae'r ardal wedi llwyddo i ddenu cwmnïau fel Advanced Micro Devices, sy'n un o'r gweithgynhyrchwyr mwyaf ym maes technoleg sglodion cyfrifiadurol. Roedd y cwmni wedi bwriadu buddsoddi yn Iwerddon, ond sylweddolodd fod cyfle llawer gwell i fuddsoddi yn Sacsoni, gan fod ei Llywodraeth yn hynod gefnogol i fusnes ac eisoes wedi buddsoddi yn y farchnad arbenigol honno. O ganlyniad i fuddsoddiad y cwmni hwnnw, Dresden yn awr yw'r gweithgynhyrchwr mwyaf ym maes technoleg sglodion cyfrifiadurol yn Ewrop, ac un o'r rhai blaengar yn y byd.

Dros y cyfnod hwnnw, roedd y Llywodraeth yn Sacsoni wedi nodi marchnadoedd arbenigol lle gwelir twf clir a chyfoeth o gwmnïau rhyngwladol sy'n dymuno gweld y marchnadoedd hyn yn gwella. Roedd y Llywodraeth benodol honno wedi llwyddo i afael yn y twf rhyngwladol hwnnw. Mae

coincidence that Ireland became the second largest exporter of computer software in the world, second only to America. It focused on a niche market and spent time and resources attracting and developing that sort of business. We cannot afford to ignore international markets, because the examples are there for us to follow and we need to take note of such achievements. If we do, it will enhance the development of businesses throughout Wales and give us something to celebrate.

Brian Gibbons: I am pleased to have an opportunity to participate. It is crucial that we get our economic renewal process right, as we are on the verge of very difficult economic times indeed, as was suggested by the Recruitment and Employment Confederation in the Enterprise and Learning Committee this morning. Its estimates in relation to employment, which was a key indicator for the Office for Budgetary Responsibility, have changed from being positive six months ago to being negative. We are entering into a very difficult period in our economy, so our economic renewal programme is not just about what happens in Wales—it must look at what is happening more widely across the United Kingdom and, possibly, globally.

One good thing that the Westminster Government has done is to abolish regional development agencies in England. That was a pretty stupid decision from the point of view of regional regeneration in England, because we know that the investment return from those agencies, particularly the best-performing ones, was quite substantial. However, it removes significant competitors at a regional level from the market. That provides Wales with a range of opportunities that would not have been available to us previously. Therefore, we should be thankful for small mercies.

The success or failure of the economic renewal programme is down to the issues raised in a number of questions asked by colleagues in this debate, but it will be even more influenced by the sense of direction and purpose at a Westminster level. I do not see

angen inni wneud yr un peth. Nid yw'n gyddigwyddiad mai Iwerddon oedd yr ail allforiwr mwyaf yn y byd o ran meddalwedd cyfrifiadurol, gydag America yn gyntaf. Canolbwyntiodd ar farchnad arbenigol a threuliodd amser a defnyddio adnoddau yn denu ac yn datblygu'r math hwnnw o fusnes. Ni allwn fforddio anwybyddu marchnadoedd rhyngwladol, oherwydd mae'r enghreifftiau yno inni eu dilyn ac mae angen inni roi sylw i gyflawniadau o'r fath. Os gwnawn hynny, bydd yn gwella datblygiad busnesau ledled Cymru ac yn rhoi rhywbeth inni ei ddathlu.

Brian Gibbons: Rwyf yn falch o gael cyfle i gymryd rhan. Mae'n hanfodol bod yn ein proses adnewyddu'r economi yn un llwyddiannus, gan ein bod ar drothwy cyfnod economaidd anodd iawn yn wir, fel yr awgrymwyd gan y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth yn y Pwyllgor Menter a Dysgu y bore yma. Mae ei amcangyfrifon mewn perthynas â chyflogaeth, a oedd yn un o ddangosyddion allweddol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, wedi newid o fod yn gadarnhaol chwe mis yn ôl i fod yn negyddol. Rydym yn camu i gyfnod anodd iawn yn ein heconomi, felly nid yw ein rhaglen adnewyddu'r economi ond yn ymwneud â'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru yn unig — rhaid iddi edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn fwy cyffredinol ar draws y Deyrnas Unedig ac, o bosibl, yn fyd-eang.

Un peth da y mae Llywodraeth San Steffan wedi ei wneud yw dileu asiantaethau datblygu rhanbarthol yn Lloegr. Roedd hwnnw'n benderfyniad eithaf gwirion o safbwynt adfywio rhanbarthol yn Lloegr, gan ein bod yn gwybod bod elw buddsoddiad yr asiantaethau hynny, yn enwedig y rhai a oedd yn perfformio orau, yn eithaf sylweddol. Fodd bynnag, mae'n cael gwared ar gystadleuwyr sylweddol o'r farchnad ar lefel ranbarthol. Mae hynny'n rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i Gymru na fyddai wedi bod ar gael inni o'r blaen. Felly, dylem fod yn ddiolchgar am fân drugareddau.

Mae llwyddiant neu fethiant y rhaglen adnewyddu'r economi yn dibynnu ar y materion a godwyd mewn sawl cwestiwn a ofynnwyd gan gyd-Aelodau yn y ddadl hon, ond bydd y rhaglen yn cael ei dylanwadu'n fwy fyth gan yr ymdeimlad o gyfeiriad a

anything going on at a UK Government level that encourages or promotes economic expansion. Wales's manufacturing sector is heavily dependent on export into Europe, but we know that demand in Europe is pretty flat, the only bright area being the export performance of Germany. In the next few weeks, we face the real prospect of demand being stripped out of the domestic market by the comprehensive spending review, which will have serious implications, particularly for the indigenous service sector in Wales and the United Kingdom.

5.10 p.m.

All that is being done in the name of 'tackling Labour's debt'. Let us look at that claim. In the last three years of the last Tory Government regime, the net public sector debt as a percentage of GDP was 41.5 per cent, 42.5 per cent and 41.7 per cent. For the following 10 years, under a Labour Government, in every single year the level of public sector debt was significantly below those last three years of Conservative rule, by at least a tenth of the worst of those years. Yet we are now supposed to believe that, because of the mad rush for deficit reduction, those were 10 years of profligacy and maxing out the credit card. If those 10 years were maxing out the credit card, what for heaven's sake were the last three years of Tory rule?

Let us not forget that in September 2007 George Osborne made a commitment to match future Labour spending pledges. If the Tories were correct in 2007, they cannot be correct today. George Osborne said:

'The result of adopting these spending totals is that under a Conservative government there will be real increases in spending on public services'.

Who is maxing out the credit card? This will happen year after year. In case you did not get the message in relation to the profligacy of the Tory Government, it was also going to

phwrpas ar lefel San Steffan. Ni welaf unrhyw beth yn digwydd ar lefel Llywodraeth y DU sy'n annog neu'n hybu twf economaidd. Mae sector gweithgynhyrchu Cymru yn ddibynnol iawn ar allforio i Ewrop, ond gwyddom fod y galw yn Ewrop yn eithaf fflat, a'r unig faes cryf yw perfformiad allforio yr Almaen. Dros yr wythnosau nesaf, rydym yn wynebu'r posibilrwydd gwirioneddol y bydd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn tynnu'r galw o'r farchnad ddomestig, a bydd gan hyn oblygiadau difrifol, yn enwedig i'r sector gwasanaeth cynhenid yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Mae hynny i gyd yn cael ei wneud er mwyn 'mynd i'r afael â dyled Llafur'. Gadewch inni edrych ar yr honiad hwnnw. Yn nhair blynedd olaf teyrnasiad diwethaf Llywodraeth y Torïaid, roedd dyled net y sector cyhoeddus fel canran o'r CMC yn 41.5 y cant, 42.5 y cant a 41.7 y cant. Dros y 10 mlynedd ddilynol, o dan Lywodraeth Lafur, ym mhob blwyddyn unigol roedd lefel dyled y sector cyhoeddus yn sylweddol is na'r tair blynedd olaf dan deyrnasiad y Ceidwadwyr, o leiaf degfed ran o'r gwaethaf o'r blynyddoedd hynny. Eto rydym i fod i gredu erbyn hyn, oherwydd y rhuthr mawr i leihau diffyg, fod hynny yn 10 mlynedd o afradlonedd a defnyddio'r cerdyn credyd i'r pen un. Os oedd y 10 mlynedd hynny yn enghraifft o ddefnyddio'r cerdyn credyd i'r eithaf un, beth er mwyn nefoedd oedd tair blynedd olaf teyrnasiad y Torïaid?

Gadewch inni gofio bod George Osborne, ym mis Medi 2007, wedi ymrwymo i gyfateb i addewidion gwariant Lafur ar gyfer y dyfodol. Os oedd y Torïaid yn gywir yn 2007, ni allant fod yn gywir heddiw. Dywedodd George Osborne:

Canlyniad mabwysiadu'r holl gyfansymiau gwariant hyn yw y ceir cynnydd gwirioneddol mewn gwariant ar wasanaethau cyhoeddus o dan lywodraeth Geidwadol.

Pwy sy'n defnyddio'r cerdyn credyd i'r eithaf un? Bydd hyn yn digwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn. Rhag ofn na wnaethoch ddeall y neges mewn perthynas ag afradlonedd y

give significant tax cuts. That policy persisted from 2007 to October or November 2008, when we had a global recession and the Government of the day had to invoke massive public expenditure, as did every other country in the world, to rescue the banks. At least 10 per cent of the deficit was spent directly on rescuing the banks. The only organisation that did not agree with that approach was the party that is currently in Government in Westminster. It was wrong then; sadly, it is wrong now, and the future of the economy in Wales does not look good.

Nick Ramsay: I am pleased to be called to speak in this debate. You will never see a better example of deficit denial than in the contribution that Brian Gibbons has just made. You often speak a lot of sense, Brian. I listen to what you say, and, if we listen to you, we can tease out facts that are beneficial to us.

David Melding: Today is an off day.

Nick Ramsay: Sadly, as David Melding has just said, you are having an off day. What was almost a deficit denial rant shows how your party is part of the problem, not part of the solution. Thankfully, two other parties here are trying to provide that solution.

Brian Gibbons: There are limits to the time that one has to develop one's point. No-one is arguing that there is not a significant deficit and a growing debt to be addressed. My point is that the draconian regime that is being imposed on us by the coalition in London is said to be down to 'Labour overspending', yet the exact same spending policy was being pursued by the Conservative party with spurs on up to September or October 2008, and, at the end of its previous regime, its record was significantly worse.

Nick Ramsay: If I still have time—

The Deputy Presiding Officer: Order. What is this obsession with time this afternoon? I am very fair. You have five minutes, and if

Llywodraeth Doriäidd, roedd hefyd am roi toriadau treth sylweddol. Parhaodd y polisi hwnnw o 2007 i fis Hydref neu fis Tachwedd 2008, pan gawsom ddirwasgiad byd-eang ac roedd yn rhaid i Lywodraeth y dydd ddefnyddio swm enfawr o wariant cyhoeddus, fel y gwnaeth pob gwlad arall yn y byd, i achub y banciau. Cafodd o leiaf 10 y cant o'r diffyg ei wario'n uniongyrchol ar achub y banciau. Yr unig sefydliad nad oedd yn cytuno â'r dull hwnnw oedd y blaid sydd yn Llywodraeth yn San Steffan ar hyn o bryd. Roedd yn anghywir bryd hynny; yn anffodus, mae'n anghywir yn awr hefyd, ac nid yw dyfodol yr economi yng Nghymru yn edrych yn dda.

Nick Ramsay: Rwyf yn ddiolchgar am gael fy ngalw i siarad yn y ddadl hon. Ni welwch enghraifft well o rywun yn gwadu diffyg nag a welsoch yng nghyfraniad Brian Gibbons yn awr. Mae'r hyn rydych yn ei ddweud yn aml yn gwneud llawer o synnwyr, Brian. Rwyf yn gwranddo ar yr hyn a ddywedwch, ac, os byddwn yn gwranddo arnoch, gallwn dynnu'r ffeithiau sydd o fudd inni.

David Melding: Mae heddiw yn eithriad.

Nick Ramsay: Yn anffodus, fel y mae David Melding newydd ei ddweud, mae heddiw yn eithriad. Mae'r hyn a oedd bron â bod yn rhefru am wadu diffyg yn dangos sut y mae eich plaid yn rhan o'r broblem, nid yn rhan o'r ateb. Diolch byth, mae dwy blaid arall yma yn ceisio darparu'r ateb hwnnw.

Brian Gibbons: Dim ond hyn a hyn o amser sydd ar gael i ddatblygu pwynt rhywun. Nid oes neb yn dadlau nad oes diffyg sylweddol a dyled gynyddol i fynd i'r afael â hwy. Fy mhwynt i yw mai'r rheswm a roddwyd dros y drefn lem sy'n cael ei gosod arnom gan y glymblaid yn Llundain yw 'gorwariant y blaid Lafur', ac eto roedd y blaid Geidwadol yn mynd ar ôl yr un polisi gwariant ar frys hyd at fis Medi neu fis Hydref 2008, ac, ar ddiwedd ei theyrnasiad blaenorol, roedd ei record yn waeth o lawer.

Nick Ramsay: Os oes gennyf amser o hyd—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Beth yw'r obsesiwn gydag amser y prynhawn yma? Rwyf yn deg iawn. Mae gennych bum

someone intervenes I allow for it. Carry on.

Nick Ramsay: You are very fair, Deputy Presiding Officer. I listened to what you said, Brian, and I would rather listen to you than Ed Miliband any day.

I support the motion and the Liberal Democrat amendment. It does not seem that long ago that I attended a meeting that the Deputy First Minister held with the economic and finance spokespersons from the different parties here, for which we were grateful. In that meeting, Deputy First Minister, you set out your intentions behind bringing forward the new economic renewal programme. Many of the things that you have proposed are things that the opposition parties have been proposing for a number of years. The Assembly Government's previous failures in the areas identified have contributed considerably to our poor GVA—which I know the Government does not like us talking about, but I will mention anyway—despite increased resources from the Treasury and the cash injection over a number of years from European funds. The sort of fundamental reform that you are talking about, Deputy First Minister, is to be welcomed, but it is important that we see and measure the outcomes that come from what you are proposing and not just the good wishes at the start of the process.

I certainly do not want to talk Wales down; I want to talk Wales up. We have a great skills and commercial potential, which is seen in the performance of Welsh graduates. Accordingly, I welcome the Deputy First Minister's commitment to broadening and deepening the skills base, to encourage innovation and invest in high-quality infrastructure, which will hopefully make Wales a more attractive place to do business.

As I said, the economic renewal programme will be judged on its outcomes. It remains to be seen whether the Deputy First Minister's desire for a more innovative and less centralised system will be put into practice. As others have pointed out, the economic renewal programme must set out a clear

munud, ac os bydd rhywun yn ymyrryd, byddaf yn ei ganiatáu. Ewch ymlaen.

Nick Ramsay: Rydych yn deg iawn, Ddirprwy Lywydd. Gwrandewais ar yr hyn a ddywedoch, Brian, a byddai'n well gennyf wrando arnoch chi nag Ed Miliband unrhyw bryd.

Cefnogaf y cynnig a gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol. Nid oes llawer o amser wedi mynd heibio ers imi fynd i gyfarfod a gynhaliodd y Dirprwy Brif Weinidog â llefarwyr y pleidiau gwahanol yma ar faterion economaidd a chyllid, ac rydym yn ddiolchgar am y cyfarfod hwnnw. Yn y cyfarfod hwnnw, Ddirprwy Brif Weinidog, cyflwynoch eich bwriadau i gyflwyno'r rhaglen newydd i adnewyddu'r economi. Mae llawer o'r pethau yr ydych wedi'u cynnig yn bethau y mae'r gwrthbleidiau wedi eu cynnig ers sawl blwyddyn. Mae methiannau blaenorol Llywodraeth y Cynulliad yn y meysydd a nodwyd wedi cyfrannu'n sylweddol at ein GYC gwael—gwn nad yw'r Llywodraeth yn hoffi inni siarad am hyn, ond gwnaf sôn amdano beth bynnag—er gwaethaf mwy o adnoddau gan y Trysorlys a'r hwb ariannol dros nifer o flynyddoedd gan gronfeydd Ewropeaidd. Croesewir y math o ddiwygio sylfaenol yr ydych yn sôn amdano, Ddirprwy Brif Weinidog, ond mae'n bwysig ein bod yn gweld ac yn mesur y canlyniadau a ddaw o'r hyn yr ydych yn ei gynnig ac nid dim ond y dymuniadau da ar ddechrau'r broses.

Yn sicr, nid wyf am ddiraddio Cymru; rwyf am ganu clodydd Cymru. Mae gennym botensial masnachol a sgiliau gwych, a welir ym mherfformiad graddedigion Cymru. Yn unol â hynny, rwyf yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Brif Weinidog i ehangu a chryfhau'r sylfaen sgiliau, i annog arloesi a buddsoddi mewn seilwaith o ansawdd uchel, a fydd gobeithio yn gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i wneud busnes.

Fel y dywedais, caiff y rhaglen adnewyddu'r economi ei barnu ar ei chanlyniadau. Rhaid aros i weld a fydd dymuniad y Dirprwy Brif Weinidog i gael system fwy arloesol a llai canolog yn cael ei wireddu. Fel y mae eraill wedi'i nodi, rhaid i'r rhaglen adnewyddu'r economi osod cyfeiriad clir ar gyfer busnesau

direction for small and medium-sized businesses. We need to encourage more graduate start-ups, micro-businesses and clusters of high-tech firms around universities. We must also eliminate barriers to business development. My party has been at the forefront of championing business rate reform for small businesses in Wales. Reforming business rates is how we believe a responsible Government would ensure that local businesses are not financially disadvantaged, relative to those in England and Scotland. One of the saddest judgments on devolution would be that, after the considerable time that we have had in this place, we still do not have an effective business rate relief scheme.

I am concerned about the lack of consultation before and after the publication of the economic renewal programme. For example, small firms have not necessarily been told about the fate of their business plan after the Flexible Support for Business scheme is disbanded. I have lost count of the constituents who have contacted me about particular business projects that they believe are in jeopardy. I know that the former Minister for finance upset many people by saying that there was systemic management failure within the Welsh Assembly Government and that major change was needed. I am reluctant to describe any organisation as systemically flawed, but his concerns need to be taken on board, and a lot more needs to be done to address the concerns raised by businesses.

I welcome many things within this economic renewal programme, but it will ultimately be judged on the outcomes and not on a lot of good words at the start of the process.

Gareth Jones: Yr wyf innau hefyd yn croesawu'r cyfle i gyfrannu y prynhawn yma. Mae'r Ceidwadwyr yn iawn i dynnu sylw drwy'r ddadl hon at fusnesau bach a chanolig, gan mai nhw, wedi'r cyfan, yw asgwrn cefn economi Cymru. Fodd bynnag, gresyn eu bod, drwyddi draw, yn siarad yr economi i lawr, gan gyfeirio at ddadrithiad y sector, er bod rhaglen adnewyddu'r economi yn canolbwyntio ar faterion a all fod o fudd a mantais i'r busnesau hyn.

bach a chanolig. Mae angen inni annog mwy o raddedigion i gychwyn busnesau newydd, mwy o ficrofusnesau a chlystyrau o gwmnïau technolegol iawn o amgylch prifysgolion. Rhaid inni ddileu'r rhwystrau rhag datblygu busnesau hefyd. Mae fy mhlaid wedi bod ar flaen y gad yn hyrwyddo'r ymgyrch i ddiwygio ardrethi busnes ar gyfer busnesau bach yng Nghymru. Drwy ddiwygio ardrethi busnes, rydym yn credu y byddai Llywodraeth gyfrifol yn sicrhau nad yw busnesau lleol o dan anfantais yn ariannol, o'i gymharu â'r rheini yn Lloegr a'r Alban. Un o'r safbwyntiau tristaf am ddatganoli, ar ôl yr amser sylweddol rydym wedi'i gael yma, fyddai nad oes gennym gynllun rhyddhad ardrethi busnes effeithiol ar waith o hyd.

Rwyf yn bryderus ynghylch y diffyg ymgynghori cyn ac ar ôl cyhoeddi'r rhaglen adnewyddu'r economi. Er enghraifft, nid yw cwmnïau bach wedi cael gwybod o reidrwydd am dynged eu cynllun busnes ar ôl i'r cynllun Cymorth Hyblyg i Fusnes gael ei ddiwyddu. Ni allaf gofio faint o'm hetholwyr sydd wedi cysylltu â mi am brosiectau busnes penodol y maent yn credu eu bod yn y fantol. Gwn fod y cyn Weinidog dros Gyllid wedi tramgwyddo llawer o bobl drwy ddweud bod methiant rheoli systematig o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru a bod angen newid mawr. Rwyf yn gyndyn o ddisgrifio unrhyw sefydliad fel un ddiffygiol yn systematig, ond mae angen rhoi sylw i'w bryderon, ac mae angen gwneud llawer mwy i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan fusnesau.

Croesawaf lawer o bethau yn y rhaglen adnewyddu'r economi, ond bydd, yn y pen draw, yn cael ei barnu ar sail y canlyniadau ac nid ar sail llawer o eiriau da ar ddechrau'r broses.

Gareth Jones: I also welcome the opportunity to contribute this afternoon. The Conservatives are right to draw attention to small and medium-sized businesses through this debate, which are, after all, the backbone of the Welsh economy. However, it is regrettable that, without exception, they talk the economy down, referring to the disengagement of the sector, despite the fact that the economic renewal programme focuses on issues that could be of benefit and

advantage to these businesses.

Fe'n hatgoffir yn gyson gan y Ceidwadwyr am annhegwch trethi busnes, fel y clywsom gan Nick Ramsay. Fodd bynnag, nid trethi busnes yw'r unig broblem o ran ffyniant ein busnesau bychain; mae lluo o bethau eraill sy'n rhwystro twf economaidd, a dyna pam y mae Ieuan Wyn Jones wedi mynd ati i newid pethau, a gwneud hynny mewn modd radicalaidd. Wrth reswm, nid yw newid radical yn boblogaidd â phawb, yn enwedig, fe ymddengys, gyda'r Ceidwadwyr, ond nid yw hynny'n rheswm i ddal economi Cymru yn ôl. Camgymeriad yw meddwl mai gwasanaethu cwsmeriaid Cymreig yn unig a wna'n busnesau bach, oherwydd y gwirionedd yw bod yn rhaid iddynt farchnata a chystadlu mewn meysydd llawer ehangach. Dyna pam mae'r pwyslais ar fuddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o safon yn ganolog i raglen adnewyddu'r economi. Bydd busnesau bach yn medru cystadlu'n rhyngwladol a chreu cysylltiadau cryf drwy fuddsoddi mewn seilwaith megis band eang y genhedlaeth nesaf. Bydd busnesau bach ar eu hennill hefyd wrth gyflawni un o amcanion pwysig rhaglen adnewyddu'r economi, sef gwneud Cymru'n lle mwy deniadol i wneud busnes.

5.20 p.m.

Y bwriad yw buddsoddi mewn iechyd a sgiliau pobl weithiol, a fydd yn galluogi busnesau i wrthsefyll costau, diffygion capasiti ac absenoldebau o'r gweithle oherwydd salwch. Mae nifer o bethau yn y rhaglen er lles busnesau bach: ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau; annog arloesedd, lle bydd busnesau bach yn manteisio ar gyfleoedd ymchwil a datblygu yn y gadwyn fasnachol; cynnig cymorth hyblyg i holl fusnesau Cymru; a bydd defnyddio cronfa JESSICA yn galluogi busnesau bach i ddatblygu eu hadnoddau.

Why are the Tories taking such a negative approach? They have made some positive points this afternoon, I admit, but generally, they are pretty negative. Surely, they are not advocating a do-nothing approach; some things need to be changed. Since 2001, almost £2 billion has been spent on economic

We are reminded frequently by the Conservatives about the unfairness of business rates, as we heard from Nick Ramsay. However, business rates are not the only problem affecting the prosperity of our small businesses; a host of other things are impeding economic growth, which is why Ieuan Wyn Jones has set out to change things, and is doing so in a radical manner. Of course, radical change is not popular with everyone, especially, it seems, with the Conservatives, but that is no reason to hold back the economy of Wales. It is a mistake to think that our small businesses serve only Welsh customers, because the reality is that they must market themselves and compete in a much wider field. That is why the emphasis on investing in a high-quality, sustainable infrastructure is central to the economic renewal programme. Small businesses will be able to compete internationally and create strong links through investment in infrastructure such as next generation broadband. Small businesses will also benefit by achieving one of the important objectives of the economic renewal programme, namely to make Wales a more attractive place to do business.

The intention is to invest in the health and skills of our working people, who will then enable businesses to reduce the costs and capacity problems caused by absences from work due to sickness. Many aspects of the programme will benefit small businesses: expanding and enhancing the skills base; encouraging innovation, whereby small businesses will benefit from research and development opportunities in the commercial arena; offering flexible support to all businesses in Wales; and the use of the JESSICA fund to enable small businesses to develop their resources.

Pam mae gan y Toriaid y fath agwedd negyddol? Maent wedi gwneud ambell bwynt cadarnhaol y prynhawn yma, rwyf yn cyfaddef, ond yn gyffredinol, maent yn eithaf negyddol. Siawns nad ydynt yn dadlau dros ymagwedd gwneud-dim; mae angen newid ambell beth. Er 2001, mae bron i £2 biliwn

development projects in Wales, yet this has not changed Wales's position as the lowest-performing part of the UK—a position held since 1998. We need bold initiatives and a new way of thinking, and this programme offers that new approach. We should feel indebted to our Deputy First Minister, who is willing to challenge the status quo. Through his vision and delivery, Wales will make progress in these tough and challenging times. I look forward to a Wales where people feel that they can venture into business, and that the conditions exist to make that big step as easy as possible. I invite anyone in business to look in detail at this Government's economic renewal programme, and not rely on the negative rhetoric of the Conservative Party.

Mark Isherwood: Sustainable development is development that meets the needs of the present without compromising the ability of future generations to meet their own needs. It was not therefore sustainable that the former Labour UK Government borrowed from future generations to maintain the mirage of an end to boom and bust. When the Conservatives left office in 1997, the UK received the second-highest levels of global investment, and Wales received more of this investment than any other nation or region of the UK. It is therefore not because of sustainable development that Wales has sunk to the bottom of the UK economic league table, despite Welsh Government spending on economic development being the highest per head of population in the UK.

Brian, the UK now has the biggest peacetime budget deficit in a century, double any previous deficit, and larger even than that of Greece; it is the largest of any major economy. The International Monetary Fund has described the UK Government's deficit reduction plan as 'essential' in supporting our debt position. It said that it supported a balanced recovery. Unforgivably, Labour raided the piggy bank of current and future generations, forcing the UK coalition Government to deal with the economic mess left behind while taking measures to boost the capacity of the business community to create wealth and jobs.

wedi'i wario ar brosiectau datblygu economaidd yng Nghymru, ac eto nid yw hyn wedi newid safle Cymru fel rhan o'r DU sy'n perfformio waethaf—safle y bu ynddo er 1998. Mae angen mentrau beiddgar arnom a ffordd newydd o feddwl, ac mae'r rhaglen hon yn cynnig yr agwedd newydd honno. Dylem deimlo'n ddyledus i'n Dirprwy Brif Weinidog, sy'n barod i herio'r sefyllfa bresennol. Drwy ei weledigaeth a'i ffordd o gyflwyno, bydd Cymru yn gwneud cynnydd yn y cyfnod anodd a heriol hwn. Edrychaf ymlaen at Gymru lle mae pobl yn teimlo y gallant fentro i fyd busnes, a bod yr amodau yn bodoli er mwyn gwneud y cam mawr hwnnw mor hawdd â phosibl. Rwyf yn gwahodd unrhyw un mewn busnes i edrych yn fanwl ar raglen y Llywodraeth hon i adnewyddu'r economi, ac i beidio â dibynnu ar rethreg negyddol y Blaid Geidwadol.

Mark Isherwood: Mae datblygu cynaliadwy yn ddatblygiad sy'n bodloni anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Nid oedd yn gynaliadwy felly fod hen Lywodraeth Lafur y DU wedi benthyca gan genedlaethau'r dyfodol i gynnal y rhithlun o ddiwedd i ffyniant a methiant. Pan gollodd y Ceidwadwyr ym 1997, cafodd y DU yr ail lefel uchaf o fuddsoddiad byd-eang, a chafodd Cymru fwy o'r buddsoddiad hwn nag unrhyw wlad neu ranbarth arall o'r DU. Felly, nid oherwydd datblygu cynaliadwy y mae Cymru wedi suddo i waelod tabl cynghrair economaidd y DU, er gwaethaf y ffaith bod gwariant Llywodraeth Cymru ar ddatblygu economaidd yr uchaf y pen o boblogaeth yn y DU.

Brian, gan y DU y mae'r diffyg mwyaf yn y gyllideb mewn cyfnod o heddwch mewn canrif, dwbl unrhyw ddiffyg blaenorol, a hyd yn oed mwy na diffyg gwlad Groeg; dyma'r mwyaf o blith unrhyw economi fawr. Mae'r Gronfa Ariannol Ryngwladol wedi disgrifio cynllun lleihau diffyg Llywodraeth y DU fel rhywbeth 'hanfodol' i gefnogi sefyllfa ein dyled. Dywedodd ei fod yn gymorth i gael adferiad cytbwys. Yn anfaddeuol, ymosododd y blaid Lafur ar gadw-mi-gei cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, gan orfodi Llywodraeth glymblaid y DU i ddelio â'r llanast economaidd a adawyd ar ôl a chymryd camau hefyd i hybu gallu'r

gymuned fusnes i greu cyfoeth a swyddi.

Brian Gibbons: Why was your party supporting increased expenditure and tax cuts in 2007?

Brian Gibbons: Pam roedd eich plaid yn cefnogi gwariant cynyddol a thoriadau treth yn 2007?

Mark Isherwood: As you said, that was before recession—in the hope that the incumbent Government would change strategy.

Mark Isherwood: Fel y dywedoch, roedd hynny cyn y dirwasgiad—yn y gobaith y byddai'r Llywodraeth a oedd mewn grym yn newid strategaeth.

The onus is now on this Welsh Government to follow the business-friendly approach of the UK Government. In early July, this Welsh Government launched its economic renewal programme, or ERP; let me say that this Minister is no Wyatt. In August, the business support sector was stating that although there was some sense in the proposals, the guillotine that had come down on the single investment fund grants left everyone in the dark. Jump forward to late September, and further serious problems were highlighted about the implementation of the programme—problems that could seriously affect economic recovery.

Mae'r cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru yn awr i ddilyn ffordd Llywodraeth y DU sy'n gefnogol i fusnesau. Ar ddechrau mis Gorffennaf, lansiodd Llywodraeth bresennol Cymru ei rhaglen adnewyddu'r economi; gadewch imi ddweud nad yw'r Gweinidog hwn yn Wyatt o ddyn. Ym mis Awst, roedd y sector cymorth i fusnesau yn datgan er bod rhywfaint o synnwyr yn y cynigion, roedd y fwyell a ddaeth i lawr ar grantiau'r gronfa fuddsoddi sengl wedi golygu nad oedd neb yn gwybod dim. Symudwch ymlaen at ddiwedd mis Medi, a thynnwyd sylw at ragor o broblemau difrifol yn ymwneud â gweithredu'r rhaglen—problemau a allai effeithio'n ddifrifol ar adferiad economaidd.

We learned that Welsh Government business support staff have been given guidance concerning how they should deal with contacts from industry and commerce, and that this was concerned with staff continuing to maintain the pretence that the Welsh Government is open for business. However, despite this guidance, staff still had no details of how the new scheme was to operate, and what it was to offer. We learned that the guidance notes stated that the old scheme closed to applications on 5 July, that new arrangements came into place on 1 September, but that there had supposedly been no break in service. In reality, however, the new scheme was in place only in theory, since staff had not been given guidelines on the new scheme and no training had been undertaken.

Clywsom fod staff cymorth i fusnesau Llywodraeth Cymru wedi rhoi arweiniad ynghylch sut y dylent ddelio gyda chysylltiadau o fyd masnach a diwydiant, a bod hyn yn ymwneud â staff yn dal i ymhoni bod Llywodraeth Cymru ar agor i fusnes. Fodd bynnag, er gwaethaf yr arweiniad hwn, nid oedd gan staff dim manylion o hyd o sut y byddai'r cynllun newydd yn gweithio, a beth oedd ganddo i'w gynnig. Clywsom fod y nodiadau cyfarwyddyd yn nodi bod yr hen gynllun yn cau i geisiadau ar 5 Gorffennaf, bod trefniadau newydd yn dod i rym ar 1 Medi, ond na fu dim toriad mewn gwasanaeth yn ôl pob sôn. Ond, mewn gwirionedd, dim ond mewn theori yr oedd y cynllun newydd ar waith, gan nad oedd y staff wedi cael canllawiau ar y cynllun newydd ac nid oedd dim hyfforddiant wedi'i gynnal.

Last week, the Deputy First Minister wrote to Members to state that, over the next few weeks and months, he and his officials would continue to implement the new policy direction. He said that that would include organisational change to ensure that his

Yr wythnos diwethaf, ysgrifennodd y Dirprwy Brif Weinidog at yr Aelodau i ddweud y byddai ef a'i swyddogion, dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, yn parhau i weithredu'r cyfeiriad polisi newydd. Dywedodd y byddai hynny'n cynnwys newid

department would be aligned to deliver. That exhibits a disconnect from the realities of business and the economy, which is both shocking in its implications and devastating in its consequences. The Federation of Small Businesses said that to say that it had been consulted on the economic renewal programme and that it therefore has no right to criticise any of its recommendations is breathtakingly arrogant. It said that the whole process has hardly been the model of engagement espoused by the Welsh Government, and that the programme as it now stands should be going out to consultation, but there is no formal way to respond.

The consultation was undertaken by the ministerial advisory group, which appeared to work in a silo, away from the wider business community. I am advised that the Wales Tourism Alliance was not invited to any meetings, and North Wales Tourism has warned that the economic renewal programme will damage investment in Welsh tourism as it seeks to compete with other nations and regions that are investing in tourism to drive, or help to drive, economic recovery.

The UK coalition Government has started to open Britain for business by creating a new enterprise allowance to get small firms up and running, providing support for the unemployed to set up their own businesses, and creating a new work programme that will give people the tailored support that they need. Labour's job tax has been abolished, regulation has been scrapped, corporation tax has been cut, income tax thresholds have been raised for millions, and 800,000 people have been lifted out of having to pay tax altogether, with more to come. Wales must embrace this enterprise aspiration and entrepreneurial spirit if it, too, is to climb the economic league table once again.

Mohammad Asghar: Our SMEs are the lifeblood of the Welsh economy. As we know, they make up 90 per cent of our private sector and employ over 77 per cent of Wales's private sector employees. We in

yn y sefydliad i sicrhau y byddai ei adran yn cael ei haddasu er mwyn cyflawni. Mae hynny'n dangos datgysylltiad oddi wrth realiti byd busnes a'r economi, sydd yn syfrdanol o ran ei oblygiadau ac yn ddinistriol o ran ei ganlyniadau. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach ei bod yn ofnadwy o haerllug dweud bod rhywun wedi ymgynghori â hwy ar y rhaglen adnewyddu'r economi ac nad oes ganddynt yr hawl felly i feirniadu unrhyw un o'i argymhellion. Dywedodd nad oedd y broses gyfan wedi bod yn fodel o ymgysylltu o bell ffordd fel y cefnogwyd gan Lywodraeth Cymru, ac y dylai'r rhaglen fel y mae ar hyn o bryd fod yn destun ymgynghoriad, ond nid oes ffordd ffurfiol o ymateb.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan grŵp cynghori'r Gweinidog, a oedd, i bob golwg, yn gweithio mewn seilo, i ffwrdd o'r gymuned fusnes ehangach. Dywedir wrthyf na chafodd Cynghrair Twristiaeth Cymru eu gwahodd i unrhyw gyfarfodydd, ac mae Twristiaeth Gogledd Cymru wedi rhybuddio y bydd y rhaglen adnewyddu'r economi yn niweidio buddsoddiad yn nhwristiaeth Cymru wrth iddi geisio cystadlu gyda gwledydd a rhanbarthau eraill sy'n buddsoddi mewn twristiaeth i ysgogi, neu helpu i ysgogi, adferiad economaidd.

Mae Llywodraeth glymblaid y DU wedi dechrau agor Prydain ar gyfer busnes drwy greu lwfans menter newydd i sefydlu cwmnïau bach, gan roi cefnogaeth i bobl ddi-waith sefydlu eu busnesau eu hunain, a chreu rhaglen waith newydd a fydd yn rhoi i bobl y cymorth penodol y mae ei angen arnynt. Mae treth gwaith Llafur wedi cael ei diddymu, mae rheoliadau wedi'u sgrapio, mae'r dreth gorfforaeth wedi ei lleihau, mae trothwyon treth incwm wedi cael eu codi ar gyfer miliynau, ac nid yw 800,000 o bobl yn gorfod talu treth yn gyfan gwbl, gyda mwy i ddod. Rhaid i Gymru goleddu'r uchelgais hwn i fentro a'r meddylfryd entrepreneuriaidd os yw, hefyd, am ddringo tabl y gynghrair economaidd unwaith eto.

Mohammad Asghar: Ein busnesau bach a chanolig yw enaid economi Cymru. Fel y gwyddom, maent yn cyfrif am 90 y cant o'n sector preifat ac maent yn cyflogi dros 77 y cant o gyflogion sector preifat yng

Wales have the least competitive business rate relief scheme of all the United Kingdom nations. It seems that the Assembly Government's new direction for economic renewal is giving small businesses a further headache. This time the headache has been caused by confusion about business support and exactly what the new direction for economic development will mean for them.

Elements of the economic renewal plan were welcomed by Members in the Chamber last July. However, despite the fact that the performance of the plan is so important for Wales's economic future, the process so far seems very muddled and the Assembly Government's future intention and priorities seem uncertain. First of all, that is because of bad practice in the Department for the Economy and Transport, namely staff not being formally consulted on departmental reorganisation before the plan was announced. It is worrying that many small businesses consider the announcement that was made to be too vague. The Assembly Government should be desperate to avoid such disengagement.

Over three months passed between the publication of the documents and the Minister writing to Assembly Members to address the number of high-profile criticisms. That delayed clarification resulted in a summer of doubt and uncertainty for many SMEs, particularly those outside the six key sectors that are outlined in the plan. The Deputy First Minister must eliminate confusion altogether and publish a clear set of intentions in relation to the business support services that will be on offer to small businesses across the country. In his letter to AMs, the Deputy First Minister said that his sectoral approach does not mean that the Welsh Assembly Government will be rigid to the point of being extreme. He needs to give more details on exactly what will be done to reduce uncertainty over the support that will exist, now that the single investment fund has been shelved. How is he reassuring SMEs that this new approach does not solely favour large businesses? How is he communicating this to SMEs in Wales? Businesses in Wales

Nghymru. Gennym ni yng Nghymru y mae'r cynllun rhyddhad ardrethi busnes lleiaf cystadleuol o blith holl wledydd y Deyrnas Unedig. Ymddengys fod cyfeiriad newydd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer adfywio economaidd yn gur pen arall i fusnesau bach. Y tro hwn mae'r cur pen wedi cael ei achosi gan ddryswch ynghylch cymorth i fusnesau a beth yn union y bydd y cyfeiriad newydd ar gyfer datblygu economaidd yn ei olygu iddynt.

Croesawyd elfennau o'r cynllun adnewyddu'r economi gan Aelodau yn y Siambr fis Gorffennaf diwethaf. Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith bod perfformiad y cynllun mor bwysig i ddyfodol economaidd Cymru, mae'r broses hyd yn hyn yn ddryswch iawn ac mae'n ymddangos bod bwriad Llywodraeth y Cynulliad a'i blaenoriaethau yn y dyfodol yn ansicr. Yn gyntaf oll, y rheswm dros hynny yw arfer gwael Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, sef peidio ag ymgynghori'n ffurfiol â staff ynghylch ad-drefnu adrannol cyn i'r cynllun gael ei gyhoeddi. Mae'n peri pryder bod llawer o fusnesau bach yn ystyried bod y cyhoeddiad a wnaethpwyd yn rhy amwys. Dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud unrhyw beth bron i osgoi ymddieithrio o'r fath.

Bu dros dri mis rhwng cyhoeddi'r dogfennau a'r Gweinidog yn ysgrifennu at Aelodau'r Cynulliad i roi sylw i sawl beirniadaeth amlwg. Arweiniodd yr oedi hwnnw o ran cael eglurhad at haf o amheuaeth ac ansicrwydd i lawer o fusnesau bach a chanolig, yn enwedig y rheini y tu allan i'r chwe sector allweddol a amlinellir yn y cynllun. Rhaid i'r Dirprwy Brif Weinidog gael gwared ar y dryswch yn gyfan gwbl a chyhoeddi cyfres glir o fwriadau mewn perthynas â'r gwasanaethau cymorth i fusnesau a fydd ar gael i fusnesau bach ledled y wlad. Yn ei lythyr at Aelodau'r Cynulliad, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog nad oedd ei ddulliau sectoraidd yn golygu y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn anhyblyg at y pwynt o fod yn eithafol. Mae angen iddo roi mwy o fanylion ar beth yn union a wneir i leihau'r ansicrwydd ynghylch y cymorth a fydd yn bodoli, gan fod y gronfa fuddsoddi sengl wedi'i rhoi o'r neilltu erbyn hyn. Sut y mae'n darbwyllo busnesau bach a chanolig nad yw'r dull newydd hwn yn ffafrio busnesau mawr yn

hate uncertainty.

5.30 p.m.

I will briefly focus on the issue of exports. Wales needs to trade outside its borders to unleash its full potential and support in this area should be a priority for the Deputy First Minister. We know that the International Business Wales brand will be integrated into the six new key sector teams. The Deputy First Minister needs to give more information on how this will work. He also needs to outline what international support will be available for businesses outside these sectors, and under what circumstances.

To conclude my comments, I join my colleagues in urging the Assembly Government to publish its intentions for business support as soon as possible and to ensure that thorough and robust consultation is undertaken with Wales's vitally important SME sector. The economic renewal plan proposed a promising new direction in some respects. However, it continues to raise questions that need answering, and the biggest question of all is the impact that this scheme will have on small businesses. Enterprise births have, in recent years, been the second lowest of any UK nation. We cannot afford to disengage and discourage the SME sector, so I call on the Deputy First Minister to confirm a clear direction for small business support services as soon as possible.

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): It is a pleasure to reply to this debate. It gives me an opportunity to expose some of the myths that have arisen. These myths have been mentioned in some of the discussions that have been held today and are at the heart of some of the confusion in the opposition's proposals.

I do not accept that the Government does not have wide-ranging support for businesses as

unig? Sut y mae'n cyfleu hyn i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru? Mae'n gas gan fusnesau yng Nghymru ansicrwydd.

Canolbwyntiaf yn gryno ar allforion. Mae angen i Gymru fasnachu y tu allan i'w ffiniau er mwyn rhyddhau ei photensial llawn a dylai cefnogaeth yn y maes hwn fod yn flaenoriaeth i'r Dirprwy Brif Weinidog. Gwyddom y bydd brand Busnes Rhyngwladol Cymru yn cael ei integreiddio i'r chwe thîm sector allweddol newydd. Mae angen i'r Dirprwy Brif Weinidog roi mwy o wybodaeth am sut y bydd hyn yn gweithio. Mae angen iddo amlinellu hefyd pa gymorth rhyngwladol a fydd ar gael i fusnesau y tu allan i'r sectorau hyn, ac o dan ba amgylchiadau.

I gloi fy sylwadau, rwyf yn ymuno â'm cyd-Aelodau i annog Llywodraeth y Cynulliad i gyhoeddi ei bwriadau ar gyfer cymorth i fusnesau cyn gynted â phosibl ac i sicrhau y cynhelir ymgynghoriad trylwyr a chadarn gyda sector busnesau bach a chanolig hynod bwysig Cymru. Roedd y cynllun adnewyddu'r economi yn cynnig cyfeiriad newydd addawol i ryw raddau. Fodd bynnag, mae'n dal i godi cwestiynau y mae angen eu hateb, a'r cwestiwn mwyaf oll yw'r effaith y bydd y cynllun hwn yn ei chael ar fusnesau bach. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y mentrau sy'n cychwyn wedi bod yr ail isaf o blith unrhyw wlad yn y DU. Ni allwn fforddio ymddieithrio'r sector busnesau bach a chanolig a pheidio â'u cefnogi, felly rwyf yn galw ar y Dirprwy Brif Weinidog i gadarnhau cyfeiriad clir ar gyfer gwasanaethau cymorth i fusnesau bach cyn gynted ag y bo modd.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Mae'n bleser ymateb i'r ddadl hon. Mae'n rhoi cyfle imi ddinoethi rhai o'r mythau sydd wedi codi. Mae rhai o'r mythau hyn wedi cael eu crybwyll yn rhai o'r trafodaethau a gafwyd heddiw ac maent wrth wraidd peth o'r dryswch yng nghynigion y gwrthbleidiau.

Nid wyf yn derbyn nad oes gan y Llywodraeth gymorth eang i fusnesau o ran

regards rate relief. Let us expose that myth to begin with. As from this week, 60 per cent of Welsh businesses will benefit from a significant reduction in their business rates, more than half of Welsh businesses will pay no rates at all, and post offices will continue to receive 100 per cent rate relief for the next 12 months. That is a significant proposal that has been introduced by the Government. I will make it clear that no businesses in Wales that should get this relief should be frightened by the kind of attitude displayed by the Conservatives today.

Darren Millar: Will you give way?

The Deputy First Minister: No, as I have lots to get through.

Let us move on to the programme that we have outlined on economic renewal. I want to answer some of the points that have been raised by opposition Members. There has been a general welcome for the approach that we have adopted, which is that we will move away from a grants culture, we will reduce what we call our direct intervention at the business level, and we will enable many more businesses to benefit from a greater framework. With the approach that we have adopted—which was welcomed by the opposition, and they have acknowledged that today—around half of the money that we were allocating for business support will be directed to infrastructure. That is primarily for the creation of a broadband infrastructure that will put Wales ahead of the game. The immediate benefit of that is that if we achieve our aim of ensuring that all businesses, irrespective of their size, will benefit from fast, new generation broadband by 2016, the Government will have done something that no previous Government was able to do, that is, to help all businesses. Every single business in Wales would benefit from that: small, medium and large. Everybody will benefit.

I think that David needs to acknowledge the reality, which is that no matter how much money is available through the single investment fund, we will reach only a minority of businesses across Wales, because

rhoi rhyddhad ardrethi. Gadewch inni ddinoethi'r myth hwnnw i ddechrau. O'r wythnos hon ymlaen, bydd 60 y cant o fusnesau Cymru yn elwa o ostyngiad sylweddol yn eu hardrethi busnes, ni fydd dros hanner busnesau Cymru yn gorfod talu unrhyw drethi o gwbl, a bydd swyddfeydd post yn parhau i gael 100 y cant o ryddhad ardrethi dros y 12 mis nesaf. Mae hynny'n gynnig sylweddol sydd wedi ei gyflwyno gan y Llywodraeth. Byddaf yn ei gwneud yn glir na ddylai'r un busnes yng Nghymru a ddylai gael y rhyddhad hwn gael ei ddychryn gan y math o agwedd a ddangosir gan y Ceidwadwyr heddiw.

Darren Millar: A wnewch chi ildio?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Na, mae gennyf lawer i'w ddweud.

Gadewch inni symud ymlaen at y rhaglen rydym wedi'i hamlinellu ar adnewyddu'r economi. Rwyf am ateb rhai o'r pwyntiau a godwyd gan Aelodau'r gwrthbleidiau. Cafwyd croeso cyffredinol i'r dulliau a fabwysiadwyd gennym, sef ein bod yn symud i ffwrdd o ddiwylliant grantiau, byddwn yn lleihau'r hyn a alwn yn ymyrryd yn uniongyrchol ar lefel busnes, a byddwn yn galluogi llawer mwy o fusnesau i elwa o fframwaith mwy. Gyda'r dull a fabwysiadwyd gennym—a groesawyd gan yr wrthblaid, ac maent wedi cydnabod hynny heddiw—bydd oddeutu hanner yr arian rydym yn ei ddyrannu ar gyfer cymorth i fusnesau yn cael ei gyfeirio at seilwaith. Mae hynny'n bennaf ar gyfer creu seilwaith band eang a fydd yn rhoi Cymru ar flaen y gad. Budd uniongyrchol hynny yw, os byddwn yn cyflawni ein nod o sicrhau bod pob busnes, beth bynnag yw ei faint, yn elwa o fand eang cenhedlaeth newydd, cyflym erbyn 2016, y bydd y Llywodraeth wedi gwneud rhywbeth nad oes dim Llywodraeth flaenorol wedi gallu ei wneud, hynny yw, helpu pob busnes. Byddai pob busnes unigol yng Nghymru yn elwa o hynny: bach, canolig a mawr. Bydd pawb yn elwa.

Rwyf yn meddwl bod angen i David gydnabod y realiti, sef ni waeth faint o arian sydd ar gael drwy'r gronfa fuddsoddi sengl, dim ond lleiafrif y busnesau ledled Cymru y byddwn yn eu cyrraedd, oherwydd mae maint

the size of the fund means that you cannot reach everybody. In fact, we conducted a survey of 1,000 businesses across Wales that have never accessed any business support in their lifetimes. There are hundreds of businesses out there that never access Government support at all. That is because of the way in which the grant structure was delivered. So, what we are doing through economic renewal is making it possible for all businesses to benefit, irrespective of size. This idea that this economic renewal programme is driven by the needs of big business is bunkum. It is not true. We have said that all businesses need to benefit from the support of the Government. Let us therefore put that myth aside, as it simply is not the case; we want all businesses to benefit. Half the investment will go into infrastructure.

Jonathan Morgan raised the point made by the First Minister about broadband in an interview in *Business in Wales*, one of the *Western Mail's* supplementary magazines. That shows the Government's commitment to having fast broadband. Let me make it clear to the Conservatives: we will be ahead of the UK Government on this. The UK Government has not given a commitment to businesses that it will deliver fast broadband by 2016. We will be ahead of the game. In fact, we will be one of the first countries in Europe to deliver it, and that needs to be acknowledged.

Jonathan also mentioned the important wider levers, such as training, transport, and the other things that businesses talk to us about. What we have done, therefore, is to approach this issue holistically. The needs of business are wider than grant support, so they will benefit from broadband, new transport investment, and new skills investment. A new planning framework is being adapted to assist businesses, and the entire area of procurement will also be looked at. This is a whole-Government approach, which is something that the opposition seems to have forgotten. This is very much a broader prospect.

I want to deal with the issue of consultation,

y gronfa yn golygu na allwch gyrraedd pawb. Yn wir, gwnaethom gynnal arolwg o 1,000 o fusnesau ledled Cymru nad ydynt erioed wedi cael unrhyw gymorth i fusnesau yn ystod eu hoes. Mae cannoedd o fusnesau nad ydynt byth yn cael cymorth y Llywodraeth o gwbl. Y rheswm dros hynny oedd y ffordd roedd y strwythur grant yn cael ei gyflwyno. Felly, mae'r hyn rydym yn ei wneud drwy adnewyddu'r economi yn ei gwneud yn bosibl i bob busnes elwa, waeth beth yw eu maint. Nonsens yw'r syniad hwn bod y rhaglen hon i adnewyddu'r economi yn cael ei hysgogi gan anghenion busnesau mawr. Nid yw hyn yn wir. Rydym wedi dweud bod angen i bob busnes elwa o'r cymorth gan y Llywodraeth. Gadewch inni felly roi'r myth hwnnw o'r neilltu, gan nad yw'n wir; rydym am i bob busnes gael budd. Bydd hanner y buddsoddiad yn mynd ar seilwaith.

Cododd Jonathan Morgan y pwynt a wnaed gan y Prif Weinidog am fand eang mewn cyfweiliad yn *Business in Wales*, un o gylchgronau atodol y *Western Mail*. Mae hynny'n dangos ymrwymiad y Llywodraeth i gael band eang cyflym. Gadewch imi ddatgan yn glir i'r Ceidwadwyr: byddwn ar y blaen i Lywodraeth y DU ar hyn. Nid yw Llywodraeth y DU wedi addo i fusnesau y bydd yn darparu band eang cyflym erbyn 2016. Byddwn ar y blaen. Yn wir, y ni fydd un o'r gwledydd cyntaf yn Ewrop i gyflawni hyn, ac mae angen cydnabod hynny.

Soniodd Jonathan hefyd am y dulliau ysgogi ehangach pwysig, fel hyfforddiant, trafnidiaeth, a'r pethau eraill y mae busnesau yn eu trafod gyda ni. Yr hyn rydym wedi'i wneud, felly, yw ymdrin â'r mater hwn mewn modd cyfannol. Mae anghenion busnes yn ehangach na chymorth grant, felly byddant yn elwa o fand eang, buddsoddiad newydd mewn trafnidiaeth, a buddsoddiad newydd mewn sgiliau. Mae fframwaith cynllunio newydd yn cael ei addasu i gynorthwyo busnesau, a byddwn yn edrych ar faes caffael yn gyfan gwbl hefyd. Mae hwn yn ddull Llywodraeth gyfan, sy'n rhywbeth y mae'r gwrthbleidiau wedi anghofio amdano, i bob golwg. Mae hyn yn sicr yn bosibilrwydd ehangach.

Rwyf am ymdrin â'r mater o ymgynghori, y

which I think a number of Members have raised today. We decided, quite deliberately, to take a new approach to consultation. The traditional approach would have been for the Government to produce a document as part of the consultation process, send it to all the stakeholders, wait for the response to come and then respond in turn to them. We decided to adopt a new approach, in which we did not go to business with a set programme. We told them that we wanted to hear what they had to say about the current plans, and if they could think of ways in which we could improve it; we wanted them to tell us without constraints and without the framework of a consultation document. We had 30 round-table meetings. I attended a number of them, and my officials attended others, and we had advocates such as Gerald Davies to attend some of the meetings. We had a massive consultation exercise in which businesses were met face-to-face. Some of the lessons that came back were very hard for the Government to take; they were very critical. We accepted some of the criticism and that is why we have adopted some of the changes, because businesses were being critical of the way we were delivering business support and the wider levers that we needed to address. We reached hundreds of businesses through that consultation. Every sector of the business community was consulted, so I do not accept for a moment that the consultation exercise that we undertook was something that we should be ashamed of in any way. Indeed, I applaud it. It is a model for future consultation.

I do accept that some people harbour a perception that the economic renewal programme is more aligned to big business than it is to small and medium-sized enterprises. I am here today to help to break down that perception. We want to make it clear that this is a programme for small businesses as well as for everybody else. We have undertaken a great deal of research into the kind of programmes that we should have. Yes, there will be the sectoral approach. Jonathan talked about what was happening in

mae nifer o Aelodau wedi ei grybwyll heddiw, rwyf yn credu. Gwnaethom benderfynu, yn hollol fwriadol, ddefnyddio dull newydd o ymgynghori. Y dull traddodiadol a fyddai wedi cael ei ddefnyddio fyddai'r Llywodraeth yn cynhyrchu dogfen fel rhan o'r broses ymgynghori, ei hanfon at yr holl randdeiliaid, aros am yr ymateb i ddod ac yna ymateb iddynt hwy wedyn. Gwnaethom benderfynu mabwysiadu dull newydd, lle nad oeddem yn mynd at fusnesau gyda rhaglen set. Gwnaethom ddweud wrthynt ein bod yn awyddus i glywed yr hyn a oedd ganddynt i'w ddweud am y cynlluniau presennol, ac a allent feddwl am ffyrdd y gallem eu gwella; roeddem am iddynt ddweud wrthym heb orfodaeth a heb fframwaith y ddogfen ymgynghori. Cawsom 30 o gyfarfodydd o amgylch bwrdd. Mynychais nifer ohonynt, ac aeth fy swyddogion i rai eraill, a chawsom eiriolwyr fel Gerald Davies i fynychu rhai o'r cyfarfodydd. Cawsom ymarfer ymgynghori enfawr lle cafwyd cyfle i gwrdd â busnesau wyneb-yn-wyneb. Roedd rhai o'r gwersi a ddaeth yn ôl yn anodd iawn i'r Llywodraeth eu derbyn; roeddent yn feirniadol iawn. Gwnaethom dderbyn rhywfaint o'r feirniadaeth a dyna pam rydym wedi mabwysiadu rhai o'r newidiadau, oherwydd roedd busnesau yn ein beirniadu am y ffordd roeddem yn darparu cymorth i fusnesau a'r dulliau ysgogi ehangach yr oedd angen i ni roi sylw iddynt. Gwnaethom gyrraedd cannoedd o fusnesau drwy'r ymgynghoriad hwnnw. Ymgynghorwyd â phob sector o'r gymuned fusnes, felly nid wyf yn derbyn am eiliad bod yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd gennym yn rhywbeth y dylem fod â chywilydd ohono o gwbl. Yn wir, rwyf yn ei gymeradwyo. Mae'n fodel ar gyfer ymgynghori yn y dyfodol.

Rwyf yn derbyn bod rhai pobl o dan yr argraff bod y rhaglen adnewyddu'r economi yn ochri mwy â busnesau mawr nag yw â mentrau bach a chanolig. Rwyf yma heddiw i helpu i chwalu'r dybiaeth honno. Rydym am ei gwneud yn glir bod y rhaglen hon ar gyfer busnesau bach yn ogystal ag ar gyfer pawb arall. Rydym wedi gwneud llawer iawn o ymchwil i'r math o raglenni y dylem eu cael. Wrth gwrs, defnyddir y dull sectoraidd. Siaradodd Jonathan am yr hyn a oedd yn digwydd yn nwyrain Ewrop a mynd am

eastern Europe and going for niche markets, but the sectoral approach is about focus. It is about looking at those sectors that we believe can grow in future. We want to make sure that the sectoral approach offers benefits.

5.40 p.m.

Finally, because I know that time is short, I will talk about the future of International Business Wales. That was a brand, but the problem that we had with it was that there was no coherent plan for the delivery of some of the investment that we needed. The sectoral approach will enable us to look at the needs of indigenous businesses and potential inward investors, but these needs will be worked on by one team; we will not have an International Business Wales organisation separated from the rest of the department. This will be one department, pulling together, with the sectoral teams having experts to deliver and assist indigenous businesses and attract inward investment. These teams will have a much greater focus than in the past.

All this is good news, and the nature of the offer now is much clearer, so that businesses understand that they will no longer be given grants. They will be given repayable grants instead—they are not loans in the traditional sense—and the terms of repayment will depend on the nature of the project. The reason that they are repayable grants and not loans is that we are not structured like a bank. A regulatory framework is needed to deliver loans; we do not have that, so we will be offering repayable grants on terms that we believe that most companies can deliver on. I am sorry that I was not able to answer all of the points raised, but I ask the Chamber to support the amendment in the name of Jane Hutt, to reject the amendment in the name of the Liberal Democrats and to support the amended motion.

William Graham: In his inimitable style, David gave the Deputy First Minister credit for the items that we can agree on, but pointed out many things that are broadly unacceptable to business in Wales. In the

farchnadoedd arbenigol, ond hanfod y dull sectoraidd yw ffocws. Mae'n golygu edrych ar y sectorau hynny a fydd yn gallu tyfu yn y dyfodol, yn ein barn ni. Rydym am wneud yn siŵr bod y dull sectoraidd yn cynnig manteision.

Yn olaf, oherwydd rwyf yn gwybod bod amser yn brin, byddaf yn siarad am ddyfodol Busnes Rhyngwladol Cymru. Brand oedd hwnnw, ond y broblem a gawsom gyda hynny oedd nad oedd cynllun cydlynol ar gael ar gyfer rhywfaint o'r buddsoddiad roedd ei angen arnom. Bydd y dull sectoraidd yn ein galluogi i edrych ar anghenion busnesau cynhenid a buddsoddwyr posibl o'r tu allan, ond bydd un tîm yn gweithio ar yr anghenion hyn; ni fydd gennym gorff Busnes Rhyngwladol Cymru sydd ar wahân i weddill yr adran. Un adran fydd hon, a fydd yn tynnu ynghyd, gyda'r timau sectoraidd a chydag arbenigwyr i gyflwyno a chynorthwyo busnesau cynhenid a denu buddsoddiad o'r tu allan. Bydd gan y timau hyn lawer mwy o ffocws na'r hyn a welwyd yn y gorffennol.

Mae hyn i gyd yn newyddion da, ac mae natur y cynnig yn llawer cliriach erbyn hyn, fel bod busnesau'n deall na fyddant yn cael grantiau mwyach. Byddant yn cael grantiau ad-daladwy yn eu lle—nid benthyciadau yn yr ystyr traddodiadol mo'r rhain—a bydd y telerau ad-dalu yn dibynnu ar natur y prosiect. Y rheswm pam mai grantiau ad-daladwy ydynt ac nid benthyciadau yw nad ydym oes gennym strwythur banc. Mae angen fframwaith rheoleiddio i ddarparu benthyciadau; nid oes gennym hynny, felly byddwn yn cynnig grantiau ad-daladwy ar delerau y gall y rhan fwyaf o gwmnïau weithredu arnynt, yn ein tyb ni. Mae'n ddrwg gennyf nad oeddwn yn gallu ateb yr holl bwyntiau a godwyd, ond gofynnaf i'r Siambr gefnogi'r gwelliant yn enw Jane Hutt, i wrthod y gwelliant yn enw'r Democratiaid Rhyddfrydol, ac i gefnogi'r cynnig diwygiedig.

William Graham: Yn ei arddull unigryw, rhoddodd David glod i'r Dirprwy Brif Weinidog am yr eitemau y gallwn gytuno arnynt, ond nododd lawer o bethau sy'n annerbyniol yn gyffredinol i fusnesau yng

time available to him, the Deputy First Minister attempted to address some of the points that we raised, but he refused to acknowledge that the Conservative proposal for business rates is much more generous than his own. His promises on broadband are to be welcomed, and we all hope that they will come to fruition. However, for all the years that I have been in the Assembly, raising this matter with various Ministers, there are still businesses within two miles of this Assembly building that do not have a broadband connection. If they have a fast connection by 2016, I hope that I will be here to commend the Deputy First Minister for that innovation.

He has given us a wide range of promises on training, transport and a holistic approach, and these are to be welcomed. However, his confidence in the new approach to consultation is not shared by business, as we have heard this afternoon. The perception that he has not adequately consulted all parts of business in Wales is yet to be challenged. He has explained a little about International Business Wales and the way in which he hopes that there will be coherent delivery. We welcome that, and hope that the sectoral teams will be able to deliver in the way that he has suggested. However, perhaps because of a shortage of time, he was unable to deal with a very important part of the programme, that is, the manufacturing strategy. All of us wanted to hear about that today, particularly the engagement between his officials and business to ensure that the grants—which we continue to welcome—are targeted correctly at those firms that will give export growth.

The Deputy First Minister: I apologised for being unable to speak about that issue due to time constraints. Would Members accept a written response regarding the latest position on the manufacturing strategy?

William Graham: We would accept that, and I am grateful for your offer.

Members—Jenny Randerson in particular—asked for more detail on the programme,

Nghymru. Yn yr amser a roddwyd iddo, ceisiodd y Dirprwy Brif Weinidog roi sylw i rai o'r pwyntiau a godwyd gennym, ond gwrthododd gydnabod bod cynnig y Ceidwadwyr ar gyfer ardrethi busnes yn llawer mwy hael na'i gynnig ei hun. Mae ei addewidion ar fand eang i'w croesawu, ac mae pob un ohonom yn gobeithio y byddant yn dwyn ffrwyth. Fodd bynnag, dros yr holl flynyddoedd rwyf wedi bod yn y Cynulliad, yn codi'r mater hwn gydag amrywiol Weinidogion, ceir ambell fusnes o hyd o fewn dwy filltir i adeilad y Cynulliad heb gysylltiad band eang. Os byddant yn cael cysylltiad cyflym erbyn 2016, rwyf yn gobeithio y byddaf yma i ganmol y Dirprwy Brif Weinidog am y datblygiad hwnnw.

Mae wedi rhoi inni ystod eang o addewidion ar hyfforddiant, trafniadaeth a dulliau cyfannol, ac mae'r rhain i'w croesawu. Fodd bynnag, nid yw busnesau yn rhannu ei hyder yn y dull newydd o ymgynghori, fel rydym wedi'i glywed y prynhawn yma. Mae'r farn nad yw wedi ymgynghori'n ddigonol â phob rhan o fyd busnes yng Nghymru eto i'w herio. Mae wedi esbonio rhywfaint am Fusnes Rhyngwladol Cymru a'r ffordd y mae'n gobeithio y cyflawnir hyn yn gydlynol. Rydym yn croesawu hynny, a gobeithio y bydd y timau sectoraidd yn gallu cyflawni yn y ffordd y mae wedi'i hawgrymu. Fodd bynnag, oherwydd prinder amser efallai, nid oedd yn gallu ymdrin â rhan bwysig iawn o'r rhaglen, sef, y strategaeth gweithgynhyrchu. Roedd pob un ohonom yn awyddus i glywed am hynny heddiw, yn enwedig yr ymgysylltu rhwng ei swyddogion a busnesau i sicrhau bod y grantiau—rydym yn dal i'w croesawu—yn cael eu targedu'n briodol at y cwmnïau hynny a fydd yn rhoi twf allforio.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Rwyf yn ymddiheuro am beidio â siarad am y mater hwnnw oherwydd cyfyngiadau amser. A fyddai'r Aelodau yn derbyn ymateb ysgrifenedig ynghylch sefyllfa ddiweddaraf y strategaeth gweithgynhyrchu?

William Graham: Byddem yn derbyn hynny, ac rwyf yn ddiolchgar am eich cynnig.

Gofynnodd Aelodau—Jenny Randerson yn arbennig—am fwy o fanylion am y rhaglen,

which is a request that is echoed by all the businesses organisations. They want more detail on the loan-repayment terms, for example. What are they going to be? You have outlined the reasons why the Assembly is not a bank, but how are your grants going to be repaid, and how stringent will the repayment terms be? You might also care to mention the techniums in your letter; these have been a feature of business in Wales, and some have been extremely successful.

Jonathan Morgan offered Dresden as a good example of how home-grown business talent was able to take advantage of niche markets. Sadly, Brian Gibbons remains a prophet of doom. [*Laughter.*]

Jonathan Morgan: He is a deficit denier.

William Graham: This deficit denial, Brian, does not ring true with your normal persona. I hope that he is wrong, and I suspect that he himself hopes that he is wrong. Such deficit denial is difficult for us all to accept.

Gareth Jones made a valid point that we must be careful not to talk the Welsh economy down. Today, we have tried to focus on those aspects of Government policy that we do not find acceptable and for which we hope to give a radical alternative. Restructuring the JESSICA fund and the applications to that is necessary. However, I recall that, in 1998, it was not the Conservatives in Government. Since that time, Wales has become the poorest part of the United Kingdom, so perhaps your criticism would be better made of the party you are in coalition with here in the Assembly.

Mark gave us his usual telling statistics—

Mark Isherwood: Facts. [*Laughter.*]

William Graham: He reminded us of the debt position in which this country finds itself. He also reiterated the stringent criticism made by the FSB and the concrete achievements of the coalition Government in just a few short months by taking 800,000 people out of the tax. Ieuan, we would never doubt your sincerity; it is your effectiveness

ac mae hwn yn gais sy'n cael ei adleisio gan yr holl sefydliadau busnes. Maent yn gofyn am fwy o fanylion am delerau ad-dalu benthyciad, er enghraifft. Beth fydd y telerau hynny? Rydych wedi amlinellu'r rhesymau pam nad yw'r Cynulliad yn fanc, ond sut caiff eich grantiau eu had-dalu, a pha mor llym y bydd y telerau ad-dalu? Efallai yr hoffech sôn hefyd am yr amrywiol technium yn eich llythyr; mae'r rhain wedi bod yn nodwedd o fyd busnes yng Nghymru, ac mae rhai ohonynt wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Cynigiodd Jonathan Morgan Dresden fel enghraifft dda o sut roedd talent busnes cynhenid yn gallu manteisio ar farchnadoedd arbenigol. Yn anffodus, mae Brian Gibbons yn dal i ddisgwyl y gwaethaf. [*Chwerthin.*]

Jonathan Morgan: Mae'n gwadu'r diffyg.

William Graham: Nid yw'r gwadu diffyg, Brian, yn gydnaws â'ch persona arferol. Rwyf yn gobeithio ei fod yn anghywir, ac rwyf yn amau ei fod yntau'n gobeithio ei fod yn anghywir hefyd. Mae gwadu diffyg o'r fath yn anodd i bob un ohonom ei dderbyn.

Gwnaeth Gareth Jones bwynt dilys bod yn rhaid inni fod yn ofalus i beidio â diraddio economi Cymru. Heddiw, rydym wedi ceisio canolbwyntio ar yr agweddau hynny o bolisi'r Llywodraeth nad ydynt yn dderbyniol inni ac yr ydym yn gobeithio rhoi dewis arall radical yn eu lle. Mae'n angenrheidiol ailstrwythuro cronfa JESSICA a'r ceisiadau i'r gronfa honno. Fodd bynnag, rwyf yn cofio nad y Ceidwadwyr oedd mewn grym yn y Llywodraeth ym 1998. Ers hynny, Cymru yw rhan dlotaf y Deyrnas Unedig, felly efallai y byddai'n well ichi feirniadu'r blaid yr ydych mewn clymblaid â hi yma yn y Cynulliad. Rhoddodd Mark ei ystadegau effeithiol arferol—

Mark Isherwood: Ffeithiau. [*Chwerthin.*]

William Graham: Gwnaeth ein hatgoffa o sefyllfa ddyled y wlad hon. Ailadroddodd hefyd y feirniadaeth lem a wnaed gan Ffederasiwn y Busnesau Bach a chyflawniadau concriid y Llywodraeth glymblaid mewn dim ond ychydig fisoedd drwy gymryd 800,000 o bobl allan o'r system dreth. Ieuan, ni fyddem byth yn amau eich

we doubt.

didwylledd; amau eich effeithiolrwydd rydym ni.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there are objections. Therefore, I defer all voting on this item until voting time.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw ein bod yn cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, rwyf yn gohirio pob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.

Votes deferred until voting time.

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Cynnig NDM4547: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
Motion NDM4547: For 14, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y cynnig.
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4547: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 14.
Amendment 1 to NDM4547: For 29, Abstain 0, Against 14.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad

Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce

Bates, Mick
 Black, Peter
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 German, Veronica
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4547: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
 Amendment 2 to NDM4547: For 14, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
 Bates, Mick
 Black, Peter
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 German, Veronica
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn

Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.*

Cynnig NDM4547 fel y'i diwygiwyd:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r polisi a fabwysiadwyd yn 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd', sy'n amlinellu'r rhan y gall Llywodraeth y Cynulliad ei chwarae wrth gynnig yr amodau gorau i bob busnes dyfu a ffynnu.

2. Yn cydnabod bod y cyfeiriad polisi hwn yn cynnig bargaen decach a gwell i fusnesau bach a chanolig, drwy sianelu adnoddau Llywodraeth y Cynulliad i'r materion sy'n cyfyngu ar gystadleurwydd pob busnes.

3. Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgysylltu'n helaeth wrth ddatblygu 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' ac yn nodi'r ymrwymiad sy'n parhau i ymgysylltu'n barhaus â'r sector busnesau bach a chanolig wrth roi'r polisi ar waith.

Motion NDM4547 as amended:

The National Assembly for Wales:

1. Welcomes the policy adopted in 'Economic Renewal: a new direction', which sets out the role the Assembly Government can play in providing the best conditions for all businesses to grow and flourish.

2. Acknowledges that this policy direction provides a fairer and better deal for SMEs, by channelling the Assembly Government's resources into issues that constrain the competitiveness of all businesses.

3. Welcomes the Assembly Government's extensive engagement in the development of 'Economic Renewal: a new direction' and notes the continued commitment to ongoing engagement with the SME sector in delivering the policy.

Cynnig NDM4547 fel y'i diwygiwyd: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 14.

Motion NDM4547 as amended: For 29, Abstain 0, Against 14.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Watson, Joyce

*Derbyniwyd cynnig NDM4547 fel y'i diwygiwyd.
 Motion NDM4547 as amended agreed.*

Dadl Fer Short Debate

Parchu ein Lluoedd Arfog Respecting our Armed Forces

Jeff Cuthbert: I am very pleased to introduce this debate to the Assembly today. I have given one minute each to Val Lloyd, Helen Mary Jones, Mohammad Asghar, Angela Burns and Kirsty Williams to make their contributions. I would also like to put on record my thanks to Rhydian Birkenshaw, a work experience student placed in my office, who helped with the research for this speech.

The weekend before last, I was in Caerphilly town centre to attend a ceremony in which the 1st Battalion the Royal Welsh was given the freedom of Caerphilly county borough. This battalion, which is also known as the Royal Welsh Fusiliers, marched through the town centre underneath the looming edifice of Caerphilly castle, as members of the public looked on in admiration. I was deeply honoured to be there in recognition of the service that these brave men and women give to their country—nowadays in the war in Afghanistan on operation Herrick, but in times past all over the world.

Attending that ceremony made me think that it would be appropriate to have a short debate to discuss how important it is that we respect our armed forces and recognise the important sacrifices that they make on our behalf. I realise that defence is a non-devolved matter and that the Welsh Assembly Government has no responsibility for defence policy. However, Wales provides a disproportionately large number of personnel to Britain's armed forces, and to the army in particular, and several regiments are based in Wales. Furthermore, we have a duty to do what we can to look after the welfare of serving soldiers and veterans who live in Wales, as well as to promote the charitable

Jeff Cuthbert: Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r ddadl hon i'r Cynulliad heddiw. Rwyf wedi rhoi munud yr un i Val Lloyd, Helen Mary Jones, Mohammad Asghar, Angela Burns a Kirsty Williams i wneud eu cyfraniadau. Hoffwn hefyd ddiolch ar goedd i Rhydian Birkenshaw, myfyriwr ar brofiad gwaith yn fy swyddfa, a fu'n helpu gyda'r ymchwil ar gyfer yr araith hon.

Y penwythnos cyn yr un diwethaf, roeddwn yng nghanol tref Caerffili mewn seremoni lle rhoddwyd rhyddfrait bwrdeistref sirol Caerffili i Fataliwn 1af y llu Brenhinol Cymreig. Bu'r bataliwn hwn, sy'n cael ei adnabod hefyd fel y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, yn gorymdeithio drwy ganol y dref o dan gysgod castell Caerffili, wrth i aelodau'r cyhoedd edrych arnynt gan eu hedmygu. Roedd yn anrhydedd mawr imi fod yno i gydnabod y gwasanaeth y mae'r dynion a'r menywod dewr hyn yn ei roi i'w gwlad—y dyddiau hyn yn y rhyfel yn Afghanistan fel rhan o ymgyrch Herrick, ond yn y gorffennol ar draws y byd i gyd.

Roedd bod yn y seremoni wedi gwneud imi feddwl y byddai'n briodol cael dadl fer i drafod pa mor bwysig yw ein bod yn parchu ein lluoedd arfog ac yn cydnabod yr aberthau pwysig y maent yn eu gwneud ar ein rhan. Rwyf yn sylweddoli nad yw amddiffyn yn fater sydd wedi'i ddatganoli ac nad oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfrifoldeb dros bolisi amddiffyn. Fodd bynnag, mae gan Gymru nifer anghymesur o fawr o aelodau yn lluoedd arfog Prydain, ac yn y fyddin yn arbennig, ac mae sawl catrawd wedi'i lleoli yng Nghymru. Ar ben hynny, mae gennym ddyletswydd i wneud yr hyn a allwn i ofalu am les milwyr sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru, yn ogystal â

work of organisations such as the Royal British Legion and the Royal Air Force Association on their behalf.

Last year, we celebrated the sixty-fifth anniversary of the Normandy landings, where, on operation Overlord, allied forces landed on the northern shores of France in an audacious and ultimately successful attempt to open up a third front in Europe and beat the Nazis back into Germany. On a more poignant note, last year also saw the passing of Britain's last two remaining veterans from the trenches of the first world war. The following Remembrance Day services did not quite seem the same without them, although the central message of their long-remembered anecdotes still resonated: the ultimate futility of war.

5.50 p.m.

This year saw the seventieth anniversary of two further pivotal moments of the second world war: the Dunkerque evacuation, where operation Dynamo saw the dramatic evacuation of British troops as Nazi German forces cornered us and our allies in the north of France; and the heroic battle of Britain, which I mentioned in the Chamber a few weeks ago—the first major military campaign fought entirely by air forces, and Nazi Germany's first major defeat in the war. Amid all that historical significance, it seemed appropriate that Cardiff this year host Armed Forces Day, to recognise the contribution of today's serving troops and to honour the sacrifice that they make. I am sure that we all remember the celebrations held here in Cardiff bay on that glorious sunny weekend in June and how proud we felt.

However, while we always honour the sacrifices of the fallen and fully recognise those made by today's serving troops, it is important that we also look at the wider role of the armed forces in modern-day society. We need to consider how we in Wales can provide for serving troops and veterans. The army, Royal Air Force and Royal Navy all have a presence in Wales at locations scattered throughout the country: Cardiff,

hyrwyddo gwaith elusennol sefydliadau fel y Lleng Brydeinig Frenhinol a Chymdeithas y Llu Awyr Brenhinol ar eu rhan.

Y llynedd, buom yn dathlu 65 mlynedd ers yr ymgyrch glanio yn Normandi, lle glaniodd y cynghreiriaid, fel rhan o ymgyrch Overlord, ar lannau gogleddol Ffrainc mewn ymgais beiddgar a llwyddiannus, yn y pen draw, i agor trydydd ffrynt yn Ewrop ac ymlid y Natsïaidd yn ôl i'r Almaen. Ar nodyn mwy ingol, y llynedd hefyd bu farw dau o gyn-filwyr olaf Prydain a frwydrodd yn ffosydd y rhyfel byd cyntaf. Nid oedd gwasanaethau Sul y Cofio yr un fath hebddynt, er bod neges ganolog eu hanesion a fydd yn aros yn y cof am amser hir yn atseinio o hyd: mai ofer yw rhyfel yn y bôn.

Eleni mae 70 mlynedd wedi mynd heibio ers dau ddigwyddiad canolog arall yn yr ail ryfel byd: ymgiliad Dunkerque, lle gwelwyd lluoedd Prydain yn ymgilio'n ddramatig fel rhan o ymgyrch Dynamo wrth i luoedd Natsïaidd yr Almaen ein cornelu ni a'n cynghreiriaid yng ngogledd Ffrainc; ac ymgyrch arwrol Brwydr Prydain, y crybwyllais yn y Siambr ychydig wythnosau yn ôl—yr ymgyrch filwrol fawr gyntaf a wnaed yn gyfan gwbl gan luoedd yr awyr, a'r tro cyntaf i'r Almaen Natsïaidd gael ei threchu'n iawn yn y rhyfel. Yng nghanol yr holl arwyddocâd hanesyddol, roedd yn briodol bod Caerdydd yn cynnal Diwrnod y Lluoedd Arfog eleni, i gydnabod cyfraniad milwyr sy'n gwasanaethu heddiw ac i anrhydeddu'r aberth a wnânt. Rwyf yn siŵr bod pawb yn cofio'r dathliadau a gynhaliwyd yma ym mae Caerdydd ar y penwythnos heulog a gogoneddus hwnnw ym mis Mehefin a pha mor falch roeddem.

Fodd bynnag, er ein bod bob amser yn anrhydeddu aberth y rhai a fu farw ac yn cydnabod yn llawn aberth y milwyr sy'n gwasanaethu heddiw, mae'n bwysig ein bod hefyd yn edrych ar rôl ehangach y lluoedd arfog mewn cymdeithas fodern. Mae angen inni ystyried sut y gallwn yng Nghymru ddarparu ar gyfer milwyr sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr. Mae gan y fyddin, y Llu Awyr Brenhinol a'r Llynges Frenhinol bresenoldeb

Newport, Brecon, Haverfordwest, the Isle of Anglesey, and the site of the proposed defence training academy in the Vale of Glamorgan. I am sure that we all hope that the plans for the academy go ahead in full, despite the inevitable pressures on public finances in the years ahead.

The proposed training academy would provide a rich environment in which those who enter the forces can train not just for their combat careers, but also for post-service careers. In the army, after completing basic training, soldiers are able to undertake their own continuing professional development through trade training. The Royal School of Military Engineering provides training in all engineering disciplines so that the army is equipped with the vital technical know-how that engineers bring to the table. The RAF offers several specialist career development paths after the completion of basic training, many of which include civilian-recognised professional qualifications or credits. The Royal Navy offers similar opportunities after new recruits have completed their initial training aboard HMS Raleigh. A new academy at MOD St Athan would give us the chance to draw all this together in one place, and we must do our bit to make sure that it goes ahead.

While the armed forces provide important career development opportunities for soldiers and officers, the Welsh Assembly Government has a duty to work with the Ministry of Defence to provide support services for serving troops and for veterans who live in Wales. I know that we have hosted a number of events and receptions here on behalf of the Royal British Legion, which campaigns vigorously for the rights of veterans. In its manifesto, published for the most recent general election, the legion called for effective prevention and treatment strategies to tackle mental health problems, binge drinking and drug abuse among service personnel and their families, as well as

yng Nghymru mewn lleoliadau ar hyd a lled y wlad: Caerdydd, Casnewydd, Aberhonddu, Hwlfordd, Ynys Môn, a safle'r academi hyfforddiant amddiffyn arfaethedig ym Mro Morgannwg. Rwyf yn siŵr bod pob un ohonom yn gobeithio y bydd y cynlluniau ar gyfer yr academi yn mynd rhagddynt yn llawn, er gwaethaf y pwysau anochel ar gyllid cyhoeddus yn y blynyddoedd i ddod.

Byddai'r academi hyfforddiant arfaethedig yn cynnig amgylchedd arbennig o dda y gall y rhai sy'n ymuno â'r lluoedd arfog hyfforddi ynddo, nid yn unig ar gyfer eu gyrfaeodd ymladd, ond hefyd ar gyfer eu gyrfaeodd ar ôl gwasanaethu. Yn y fyddin, ar ôl cwblhau hyfforddiant sylfaenol, mae milwyr yn gallu ymgymryd â'u datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain drwy hyfforddiant mewn crefft. Mae Ysgol Frenhinol Peirianeg Filwrol yn darparu hyfforddiant ar holl ddisgyblaethau ym maes peirianeg er mwyn sicrhau bod gan y fyddin y wybodaeth dechnegol hanfodol sydd gan beirianwyr i'w chynnig. Mae'r Llu Awyr Brenhinol yn cynnig sawl llwybr datblygu gyrfa arbenigol ar ôl cwblhau hyfforddiant sylfaenol, ac mae llawer ohonynt yn cynnwys cymwysterau neu gredydau proffesiynol a gydnabyddir gan y drefn sifil. Mae'r Llynges Frenhinol yn cynnig cyfleoedd tebyg ar ôl i recriwtiaid newydd gwblhau eu hyfforddiant cychwynnol ar fwrdd HMS Raleigh. Byddai academi newydd yng Ngweinyddiaeth Amddiffyn Sain Tathan yn rhoi cyfle inni dynnu hyn at ei gilydd mewn un lle, a rhaid inni wneud ein rhan i wneud yn siŵr bod hyn yn mynd rhagddo.

